
www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 528
Tachwedd 2024

## Atgyfodi tîm pêl-droed dynion Deiniolen




Maen nhw'n deud bod popeth da'n werth disgwyl amdano. A wyddoch chi be? Byddai aelodau tîm pêl-droed dynion Deiniolen a'u cefnogwyr yn cytuno â hynny gant y cant.

Ers deuddeng mlynedd ni fu tîm pêl-droed dynion yn Neiniolen, a hynny ar ôl blynyddoedd lawer o dîm yn chwarae ar Gae Bwthyn o flaen torf o gefnogwyr brwd. Llawer o atgofion melys ond dim tîm dynion.

Ond daeth haul ar fryn ac fe sefydlwyd tîm dynion yn Neiniolen. Cewch ddarllen mwy o'r hanes ar dudalennau 9, 30, 31 a 32.

Ers dechrau'r tymor pêl-droed eleni mae tîm o ddynion yn chwarae ar Gae Bwthyn o flaen torf ffyddlon o oedolion a phlant, sy'n eu cefnogi adref yn ogystal ag yn eu gemau oddi cartref.

Doedd Cae'r Bwthyn ddim yn barod i chwarae arno ar ddechrau'r tymor eleni, felly chwaraeodd y tîm ddwy gêm 'adra' yn Nhreborth, er hynny daeth rhwng 100 i 150 o gefnogwyr yno. Ond bellach pan yw'r tîm yn chwarae adra maent, hyd yma, wedi denu torf o rhwng 280 i 300, sydd, yn ôl pob sôn yn fwy na'r nifer sy'n gwylio'r cewri TNS! Dim ond £3 yw pris gwylio i oedolion ac nid oes tâl am blant. Mae hyn yn cyfrannu at dalu costau'r clwb yn ogystal â'r elw a wneir o werthu bwyd a diod ar y cae.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb o'r gymuned sydd wedi rhoi o'u hamser i helpu paratoi'r cae a'n galluogi i gynnal y gemau cartref.



## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## Yn y rhifyn hwn:


- Dwy o Lanrug yn gwirfoddoli ym Mhatagonia – tud. 4
- Talent actio newydd o Waunfawr ar Rownd a Rownd – tud. 5
- Gweithdai syrcas Y Festri – tud. 12
- Pencampwyr Prydain o Fethel – tud. 31
- Clwb Snwcer Llanrug – tud. 31




5



31

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**£1344.67** Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa
**£50** Er cof am Mrs Maud Williams, Deulyn, Bethel



# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Rhagfyr | 8 Tachwedd | 22 Tachwedd |
| Ionawr | 6 Rhagfyr (**sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer**) | 20 Rhagfyr (**sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer**) |
| Chwefror | 10 Ionawr | 24 Ionawr |

## Llythyr



**Annwyl Eco'r Wyddfa**

Rydw i yn ysgrifennu'r e-bost yma i ofyn yn garedig i chi os cawn rhoi ein hysbyseb ysgol ni yn Eco'r Wyddfa.

Rydym ni yn Ysgol Dolbadarn eisiau gwybod mwy am hanes yr ysgol. Mae hanes yr ysgol yn rhan o waith 'Ein gwreiddiau' rydym yn gwneud tymor yma. Ar ol i'n athro ein holi ni, roedd llawer o blant gyda chwestiynau i'w ateb. Hoffem ni wybod:

- Beth roedden nhw yn ei fwyta 50 flynadd yn ôl?
- Pryd cafodd yr ysgol i adeilau?
- Pwy oedd y prif athro/athrawes?

A fyddech cystal, os gwelwch yn dda, ateb yn ôl i'r cyfeiriad e-bost yma **Trystan.Gwilym@dolbadarn.ysgoliongwynedd.cymru** neu ffonio yr ysgol ar rif ffon: **01286 870711**.

Yn gywir,
Nel Dwynwen Davies.

# Cynhesu Byd Eang

Fel mae pawb yn gwybod, mae'r byd yn cynhesu'n gyflym. Mae'r cynhesu hwn wedi achosi newidiadau tywydd difrifol yn barod drwy'r byd cyfan. Yn fisol mae yna ran o'r byd unai ar dân neu dan ddŵr, mewn stormydd enbyd neu a sychder anarferol a dwys. Mae'r capiau rhew yn toddi a'r môr yn codi – felly, fawr ddim i'n poeni!

Rydym newydd gael gwanwyn oer a gwlyb yma yng Nghymru sydd wedi atal plannu cnydau a does fawr ddim trefn ar yr haf i ni, er iddo fod y cynhesaf erioed drwy'r byd cyfan.

Wrth ddrilio a chodi craidd o rew o'r Arctig gellir mesur lefel y carbon deuocsid (CO2) yn y swigod bach o aer wedi eu dal yn y rhew dros y miliynau o flynyddoedd.

Mae hinsawdd y Ddaear wedi newid trwy gydol hanes. Dim ond yn yr 800,000 mlynedd diwethaf, bu wyth cylch o oesoedd iâ a chyfnodau cynhesach, gyda diwedd yr oes iâ diwethaf tua 11,700 o flynyddoedd yn ôl yn nodi dechrau'r oes hinsawdd fodern - ac o ddyfodiad gwareiddiad dynol.

Y rheswm am y rhan fwyaf o'r newidiadau hinsawdd hyn yw amrywiadau bach iawn yn orbit y Ddaear sy'n newid faint o ynni solar y mae ein planed yn ei dderbyn.

Mae'r newid ers canol yr 20fed ganrif yn un i'n gwir ddychryn.

https://climateclock.net/
(*ewch yma i weld y tunelli $CO_2$ yn saethu i fyny*)

Does dim amheuaeth mai nwyon a gynhyrchwyd gan ddyn sy'n gyfrifol am y cynnydd tymheredd yma. Yn lle fo ynni'r haul yn cael ei adlewyrch yn ôl i'r gofod mae nwyon yn ei ddal a'i droi'n ynni gwres.

Yn 2015 ym Mharis cyfarfu gwyddonwyr, llywodraethau a mudiadau o'r byd cyfan i bwyso a mesur effaith y codi tymheredd hwn.

Consensws rhyngwladol y gwyddonwyr oedd nad oedd yna fawr o amser ar ôl i atal y cynhesu yma cyn newidiadau trychinebus.

Penderfynwyd y byddai codiad tymheredd o dros $1.5^0$C yn cael effaith dinistriol dros ben.

Ers 2015 mae'r tymheredd wedi codi $1.3^0$C yn barod sy'n gadael ond 6 mlynedd cyn mynd dros y dibyn.

Ond yn barod mae'r gobaith o fod dan $1.5^0$C wedi ei chwalu ac mae gwyddonwyr ond yn gobeithio y gellir cadw'r cynnydd dan $3^0$C erbyn hyn.

# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Gŵyl.** Cynhaliwyd pumed Gŵyl Crwydriaid y Byd yn Kazakhstan dros gyfnod o bump diwrnod. Roedd yn cynnwys chwaraeon traddodiadol fel ymladd geifr, hebogiaid hela ac ymaflyd codwm tra'n marchogaeth ceffylau heb gyfrwy. Roedd 21 o wahanol gystadleuthau a 2,500 o 'grwydriaid' y steppe yng nghanolbarth Asia yn cymryd rhan. Yng nghanol yr holl gystadlu roedd diwylliant traddodiadol yn cael ei ddathlu hefyd – math o eisteddfod y paith.
- **Ymddeol.** Mae China yn bwriadu codi oed ymddeol. Ar hyn o bryd mae dynion yn ymddeol yn 60 oed a merched yn 50 oed. Dros y pymtheng mlynedd nesaf bydd oedran ymddeol dynion yn codi i 63 a merched i 55 neu 58 yn ddibynnol ar y math o waith.
- **Malwod**. Mae miloedd o falwod trofannol o'r enw Partula a fagwyd yn Sŵ Caeredin wedi eu hanfon i Tahiti i adfer yr amgylchedd naturiol yno.
- **Alcohol.** Cyhoeddwyd fod 1,277 o bobl yn yr Alban wedi marw o afiechydon cysylltiedig â dibyniaeth ar alcohol yn 2023. Roedd y marwolaethau bum gwaith yn uwch mewn ardaloedd difreintiedig.
- **Colli Pwysau?** Ymhell o wneud hynny yn hanes pengwin mewn sŵ ym Melbourne, Awstralia. Mae'r pengwin, a elwir yn Pesto, yn naw mis oed ac yn pwyso 22 kilogram – mwy na dwywaith pwysau ei rieni. Mae'n bwyta 25 pysgodyn y dydd – mwy na dwywaith ei bwysau sylweddol ei hun bob wythnos.
- **Tafarndai.** Ers dechrau'r flwyddyn mae dros 300 o dai tafarn yng Nghymru a Lloegr wedi cau eu drysau, a llawer ohonynt wedi eu dymchwel.
- **Elusen**. Cyhoeddwyd bod Marathon Llundain wedi codi £73.5 miliwn i wahanol elusennau – y swm mwyaf erioed mewn digwyddiad un diwrnod.
- **900.** Y nifer o bysgod marw mewn afon yn Swydd Caergrawnt, a hynny'n dilyn gollwng carthion amrwd i'r afon dros gyfnod o 24 awr. Mae cwmni Anglian Water yn gwadu mai nhw oedd yn gyfrifol.
- **Nadolig?** Mae'n ymddangos ei fod wedi cyrraedd yn barod yn Venezuela, a hynny ar orchymyn yr Arlywydd newydd. Mae coeden Nadolig anferth wedi ei chodi ar brif sgwâr cyhoeddus y brifddinas, Caracas. Bu nifer o gwynion, a hynny am nad yw'r dinasyddion wedi cael cyfle i ddathlu Calan Gaeaf eto!
- **Maremma**. Brid o gŵn sy'n cael eu defnyddio yn ardaloedd mynyddig yr Eidal i warchod defaid rhag ymosodiadau gan fleiddiaid. Mae un bellach wedi ymsefydlu ar fferm tyrcwn yng Ngwlad yr Haf i warchod y 750 o'r adar sy'n cael eu pesgi at y farchnad Nadolig. Mae'r ci yn pwyso 55 kilogram, ac mae'r ffermwr yn honni na ddaw yr un llwynog yn agos i amharu ar y tyrcwn.
- **Sphinx**. Na, nid yn yr Aifft, ond yn enw ar gaenen o eira ar drydydd mynydd uchaf yr Alban, Braeriach. Yn ystod y ganrif ddiwethaf, dim ond tair gwaith yn unig y bu i'r darn bach hwn o eira ddadmer. Mae wedi gwneud hynny am y bedwaredd flwyddyn yn olynol eleni.
- **Rhedeg**. Dathlu pen-blwydd Parkrun yn 20 oed. Cynhaliwyd y Parkrun cyntaf mewn parc yn Llundain, a'r bwriad oedd rhoi cyfle i bobl redeg gyda'i gilydd a chymdeithasu. Profodd yn llwyddiant digamsyniol, a bellach mae'n cael ei gynnal mewn cannoedd o wahanol lefydd mewn 23 o wledydd gwahanol. Ac er mai yn Llundain yr oedd y 'pen-blwydd' yn cael ei ddathlu, apeliodd y trefnydd ar i redwyr gefnogi eu Parkrun lleol yn hytrach na theithio i Lundain i fod yn rhan o'r dathliadau.
- **Antarctic**. Mae rhannau o Begwn y De yn gwyrddio. Mae gan un penrhyn, sef rhan ogleddol y cyfandir, ddeg gwaith mwy o lystyfiant arno nag oedd yno ddeugain mlynedd yn ôl. Arwydd sicr yn ôl gwyddonwyr fod tymheredd byd-eang yn cynhesu.
- **Iaith**. Yn Senedd Denmarc, gwrthodwyd i Aelod Seneddol yn cynrychioli'r Ynys Werdd (Greenland) annerch yn iaith frodorol yr Inuit, er iddi baratoi cyfiethiad o'i hanerchiad i bob aelod ymlaen llaw. Mae'r Senedd hefyd yn gwrthod rhoi caniatâd i ddefnyddio iaith frodorol Ynysoedd y Faroe.
- **Cuy**. Mae gwlad Peru yn dathlu dau ddegawd o ddatblygu genetig ar frid o fochyn cwta sy'n tewychu yn gynt na'r cyffredin. Mae moch cwta wedi bod yn rhan o fwydlen trigolion Peru ers canrifoedd, ond roedd moch cwta cyffredin yn cymryd 160 diwrnod i gyrraedd eu llawn faint. Datblygwyd y brid newydd gan Sefydliad Amaeth Cenedlaethol y wlad, ac y mae'n cyrraedd ei lawn faint – a phwysau o 1 kilogram – mewn 56 diwrnod. Enw'r trigolion arno yw cuy, ond yn swyddogol mae'n cael ei adnabod fel 'peru'.
- **H5N1**. Dyma'r feirws sy'n achosi ffliw adar. Mewn sŵ yn neheudir Fietnam bu farw panther ac ugain o deigrod ar ôl cael eu bwydo gyda chywion ieir amrwd. Buont farw o fewn dau ddiwrnod ac fe'u llosgwyd, cyn claddu'r llwch. Mae ugain o deigrod eraill wedi eu hynysu i geisio eu hachub rhag yr afiechyd.
- **St Michael**. Mae cwmni Marks and Spencer wedi cyhoeddi y byddant yn cyflogi 11,000 o weithwyr i helpu gyda'r galw cynyddol am eu nwyddau dros dymor y Nadolig.



## Ond beth allai ddigwydd?

**Tymheredd**
O godi'r tymheredd bydd pob math o newidiadau'n digwydd yma a rhai wedi dechrau'n barod. Dyma rai ohonynt-

- Afiechydon heintus trofannol yn cynyddu
- Gwres yn lladd yr hen a'r ifanc
- Y môr yn codi a boddi cymunedau
- Newid yn y planhigion all dyfu a'r anifeiliaid all ddioddef y newid gan newid natur ac amaethyddiaeth
- Llai o gynhyrchu bwyd drwy'r byd
- Pobl yn mudo o'r gwledydd trofannol gan eu bod yn rhy boeth gan gynyddu hiliaeth unwaith eto
- Diffyg dŵr – mae Cymru ar y dibyn yn barod, coeliwch neu beidio, am ddŵr yfed
- Sychder yn lladd coed a llystyfiant
- Tymhorau'n newid ac yn anwadal
- Afonydd a llynnoedd yn cael eu llygru gan algâu a bacteria

**Llifogydd**

- Glawiadau sydyn a difrifol fel rydym wedi eu gweld yn barod yn gorlifo
- Gorlifo o'r môr. Mae 30% o'n holl ddiwydiant ar lannau'r môr a 30% o'n pobl yn byw ger y glannau
- Prif ffyrdd a thraciau trên yn cael eu sgubo i ffwrdd.

**Newid patrwm gwyntoedd a cheryntau'r môr**
Hwn yw'r perygl mwyaf a does neb yn gwybod beth all fo'r canlyniadau. Pe byddai'r llif cynnes o'r Iwerydd yn newid gallai daflu Ewrop gyfan i aeafau oer iawn gan rewi'r môr am fisoedd. Od iawn ond gwir.

O newid patrwm gwyntoedd ni all neb ddweud beth fydd yr effaith ar ein tywydd.

**Beth i'w wneud felly?**
Gan fod y newid hwn yn fyd eang rhaid i'r datrysiad fod yn fyd eang a bydd rhaid i bawb ledled byd gydweithio. Does 'na fawr o gydweithio ar hyn o bryd. Rhyfel yn Ewrop a bygythiadau. Mwy na thebyg y cawn ryfeloedd am fwyd, dŵr a thiroedd yn y degawd nesaf.

O beidio cydweithio fe welwn chwalfa yn nhywydd y byd, rhyfeloedd, newyn a sychder lladdol fydd yna – a dyna etifedd i'n plant.


# Haf ym Mhatagonia

Bu dwy fyfyrwraig o Lanrug, Elain Williams a Gwernan Brooks, sydd ill dwy yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, ym Mhatagonia dros yr haf yn gwirfoddoli mewn ysgolion a gwersi Cymraeg. Roeddynt yn yr Ariannin ar adegau gwahanol, ond maen nhw wedi dod at ei gilydd i adrodd eu hanes i'r Eco.

Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd oedd yn cynnig y cyfle arbennig i deithio i Batagonia i chwech myfyriwr a roedd y ddwy o Lanrug am ddiolch yn fawr i'r adran am brofiad bythgofiadwy. Derbyniodd Gwernan nawdd hefyd drwy ysgoloriaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol er cof am Dr Llŷr Roberts a hoffai ddiolch yn fawr am y gefnogaeth.

**Gwernan**: Mi fues i'n ofnadwy o ffodus i gael cyfle arbennig i ymweld â Phatagonia am fis a hanner dros yr haf eleni, ro'n i'n rhannu'r daith â dwy ffrind sy'n astudio Cymraeg, oedd yn braf iawn.

Glaniodd ein awyren y Buenos Aires, prif ddinas yr Ariannin, yma mae'n bosib dal hediadau mewnol yr Ariannin. Penderfynom dreulio ychydig ddyddiau yma cyn dechrau gwirfoddoli mewn





ysgolion a gwersi Cymraeg ym Mhatagonia. Mae hi'n ddinas anferth, aethom ar fws twristaidd i geisio gweld gymaint a phosib mewn cyfnod byr gan ymweld ag ardaloedd gwahanol a mwynhau'r awyrgylch a chaffis. Buon ni hefyd yn gwylio gêm rygbi'r Ariannin yn erbyn Awstralia!

**Gaiman**

Cawsom ni'n tair groeso gwresog yn Gaiman ac ar ein diwrnod cyntaf fe gawson ni asado, gwledd genedlaethol yr Ariannin, maent yn falch iawn ohono, sef cig wedi ei goginio'n araf dros dân agored. Mynychom wasanaethau Gŵyl y Glaniad yng Nghapel Bryn Crwn, Gaiman a Chapel Moraia, Trelew; roedd hyn i nodi union 159 mlynedd ers i'r Cymry lanio ar dir Patagonia am y tro cyntaf. Roedd y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a Sbaeneg ac roedd yn brofiad difyr dros ben. Cawsom fynd i dŷ te 'Tŷ Gwyn' gyda phobl leol a chael croeso arbennig. Mae tai te yn Gaiman ac yn Nhrevelin yn atyniadau Cymreig i dwristiaid.

**Elain**: Am brofiad oedd cael y cyfle i ymweld â Phatagonia yn ystod yr haf. Mae'n brofiad sy'n sicr yn mynd i aros yn fy nghof am byth.

Yn ystod ein hamser yn Gaiman buom yn gweithio yn nifer o ysgolion cynradd yr ardal. Roeddem yn cynnal sesiynau darllen un i un gyda'r plant er mwyn iddynt gael gwella a chodi eu hyder yn darllen Cymraeg. Yna yn y p'nawn roeddem yn symud ymlaen i'r ysgolion uwchradd sef Ysgol Aliwen a Choleg Camwy ble roedd Cymraeg yn cael ei ddysgu yno yn ddyddiol. Diddorol iawn oedd siarad gyda'r disgyblion ac roedd llawer ohonynt yn ymwybodol o hanes Cymreig yn eu teuluoedd.

Yng nghanol y prysurdeb buom yn ffodus iawn i gael treulio diwrnod ym Mhorth Madryn yn gweld y morfilod a gweld lle cyrhaeddodd y Cymry cyntaf. Yn lwcus iawn, roedd Eisteddfod yr Ifanc yn digwydd yn ystod ein pythefnos yno a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg a Sbaeneg. Yna i roi diweddglo ar yr wythnos cynhaliwyd cymanfa ganu yng nghapel Bethel.

**Gwernan**: Roedd gwir awydd i ddysgu Cymraeg ac i ddathlu Cymreictod a'r diwylliant ac roedd canu, llefaru a dawnsio gwerin yn rhan bwysig o strategaeth caffael yr iaith yno. Ar ôl bod yn yr ysgol yn y bore roeddem ni'n mynd i ddosbarthiadau Cymraeg yn y prynhawn a fin nos gan gyfrannu i wersi i oedolion yn Rawson, Trelew, Gaiman, Dolavon a chlwb sgwrsio Trelew.

Wnes i wir fwynhau yn Gaiman, yn arbennig oherwydd fy mod i'n teimlo wedi setlo a gwneud ffrindiau gyda phobl oedd yn byw yno a chymdeithasu gyda siaradwyr Cymraeg ifanc; mae'n le bywiog a chroesawus iawn.

**Trevelin**

**Elain**: Cafodd y dair ohonom groeso cynnes iawn yn Nhrevelin gan aros gyda Gwion a'r teulu. Ar ein noson gyntaf cawson y cyfle i fynychu dwy wers Gymraeg i oedolion ble roedd tua wyth ohonynt yn cyfarfod yn wythnosol i ddysgu'r iaith. Roedd yn hynod ddiddorol clywed rhesymau'r unigolion dros ddysgu Cymraeg, sut bod eu teuluoedd yn siarad Cymraeg ond yr iaith wedi ei cholli.

Treuliom bythefnos yno ac roeddem yn ymweld ag Ysgol y Cwm yn ddyddiol i helpu. Roedd gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal a ro'n i wedi fy synnu at allu'r plant i siarad a chyd-ganu gyda ni yn y Gymraeg, yn ogystal â'r dawnsio gwerin oedd yn boblogaidd iawn ymysg y disgyblion. Sylwais yn syth pa mor bwysig yw'r traddodiadau a'r diwylliant Cymreig iddynt.

Cynhelir ymarfer dawnsio gwerin yn wythnosol a buom yn lwcus iawn o dderbyn y cyfle i ymuno gyda nhw, cafodd y dair ohonom hwyl ac roedd pawb mor groesawgar.




SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus



LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd



8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP

**Gwernan**: Aethom i ymarferion côr yn Esquel a dawnsio gwerin yn Nhrevelin. Fe gawson ni wylio eisteddfod ysgolion Trevelin; roedd y cystadlu mewn Cymraeg, Sbaeneg a Saesneg. Mae llawer llai o siaradwyr Cymraeg yn Nhrevelin ond yno eto cafwyd croeso cynnes ac amser braf.

Roedd hi'n aeaf yn yr Ariannin a ninnau nepell o fynyddoedd yr Andes, dros y penwythnos fe aethom ar gadair esgyn yng nghanol y mynyddoedd a'r eira i fwynhau'r golygfeydd. Cwm Hyfryd yw'r enw arall ar ardal Trevelin ac Esquel ac yn ddiamheuaeth mae hi'n hynod hardd yno. Mae'r mynyddoedd yn dalach nag unrhyw beth dwi wedi ei weld o'r blaen.

**Uchafbwyntiau**

**Elain**: O ran uchafbwyntiau, mi wnes i fwynhau'r eisteddfod yn fawr iawn gan i mi deimlo'n gartrefol iawn yno ac roedd clywed y plant o bob oed yn canu yn Gymraeg a Sbaeneg yn amhrisadwy. Uchabwynt arall i mi oedd cael y fraint o gyfarfod Luned Gonzalez. Diolchaf i Luned a'i theulu am eu hymdrech i ddiogelu'r iaith yn y Wladfa.

Mae'r profiadau rwyf wedi eu derbyn o'r daith hon wedi bod yn hynod o fuddiol ar gyfer fy ngyrfa yn y dyfodol.

**Gwernan**: Roedd y profiad i gyd yn wych, roedd hi'n fraint go iawn cael ymweld â'r cymunedau a phrofi croeso mor wresog ac yn anhygoel clywed y Gymraeg mewn lle mor bell a gwahanol i Gymru. Roeddwn wrth fy modd â thafodiaith Patagonia, mae eu Cymraeg mor dlws a dylanwad y Sbaeneg yn hyfryd.

Mae'n anodd iawn dewis llond llaw o uchafbwyntiau ond dyma roi blas. Mi wnes i wir fwynhau ein parti gadael ni'n tair yn Ysgol Gymraeg y Gaiman pan roedd pawb yn canu caneuon Cymraeg yn hamddenol i gyfeiliant gitâr. Roedd gwasanaeth Gwŷl y Glaniad Coleg Camwy a Chapel Bryn Crwn yn arbennig iawn. Uchafbwynt arall oedd siarad â'r oedolion oedd eisiau dysgu Cymraeg a chlywed eu rhesymau dros ddysgu. Roedd y storïau hyn yn emosiynol – am dioddefaint cymdeithasol eu rhieni a achosodd i'w rhieni beidio trosglwyddo'r Gymraeg iddynt. Roedd cymdeithasu a siarad Cymraeg gyda phobl ifanc yr un oed a ni oedd wedi byw yn Gaiman ar hyd eu hoes hefyd yn uchafbwynt.

Roedd gweld gymaint o ymfalchïo yn y diwylliant Cymraeg yn arbennig ac yn ddifyr iawn gweld diwylliant Cymraeg wedi ei blethu â diwylliant Archentaidd.






# WAUNFAWR







**Codi arian at Macmillan yn Paned a Sgwrs**
Dydd Iau 26ain Medi, cafwyd prynhawn prysur yn y Ganolfan yn casglu arian at elusen Macmillan. Casglwyd swm anrhydeddus o £500 a phawb wedi mwynhau sgwrs a bwyta'r llu o gacennau hyfryd oedd ar gael.
Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Brysiwch wella**
Rydym yn dymuno'r gorau am adferiad buan i bawb sydd ddim wedi bod yn dda neu wedi cael triniaeth yn ddiweddar, gan gynnwys Iona Williams, Olwen Owen, Anne Clarke a Dafydd Davies. Cofion cynnes atoch i gyd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Marc a Beca, 5 Stad Glyn Afon ar enedigaeth merch fach, sef Eta Elen. Mae'n siwr bod Ned, ei brawd mawr, wedi gwirioni, a hefyd taid a nain sef Janet a Pete Greasley, a hefyd y ddwy hen nain, Gwladys Greasley a Grace Dawson a'r teulu ehangach. Pob hwyl i chi ar y magu.

**Beirniadu defaid yn America!**
Dyna fu hanes Gerallt Jones, Pant Gwyn yn ddiweddar pan gafodd o wahoddiad i fynd i Iowa i feirniadu'r Valais Blacknose, sef y defaid mae wedi cael cymaint o lwyddiant yn eu magu a'u dangos mewn sioeau cenedlaethol yng Nghymru ac ar lefel Prydeinig. Rydym yn ymfalchïo yn dy lwyddiant Gerallt.

## Talent actio newydd o Waunfawr ar Rownd a Rownd

Mae Poppy Burns o Tŷ Capel wedi bod a'i bryd ar actio ers nifer fawr o flynyddoedd, ac wedi dilyn hyfforddiant 3 blynedd mewn Astudiaethau Perfformio yng Ngholeg Menai. Yn hytrach na mynd i Goleg Drama yn dilyn ei hamser yng Ngholeg Menai mae Poppy wedi bod yn canolbwyntio ar ffeindio gwaith ym myd teledu a ffilm, sydd wedi caniatáu iddi ddilyn cyrsiau byr penodol ar draws Prydain rhwng jobsys. Ond o'r diwedd mae'r gwaith caled wedi talu ei ffordd, ac mae Poppy bellach wedi ymuno gyda phrif gast y gyfres deledu boblogaidd Rownd a Rownd lle bydd yn actio'r cymeriad Elliw. Bydd Poppy i'w gweld ar ein sgriniau teledu o fis Hydref ymlaen. Dymuniadau gorau i chdi Poppy – rydym yn edrych ymlaen yn ofnadwy i weld sut bydd dy yrfa yn datblygu.



# DINORWIG

**Dymuniadau gorau**
Mae golygyddion *Eco'r Wyddfa* yn anfon ein cyfarchion gorau at ohebydd Dinorwig, Miss Marian Jones, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Yn amlwg, ni fu'n bosibl iddi gyfrannu'r newyddion arferol o Ddinorwig y mis hwn. Brysiwch wella, a dymuniadau gorau, Marian.

# LLANRUG

**Diolchiadau**
Dymuna Eryl Roberts, Peris, Glanffynnon, ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed! Diolch am deulu, ffrindiau a chymdogion ddaru ofalu fod y cyfnod dathlu yn berffaith.

**Profedigaeth**
Danfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at deulu Catherine Tegwen Owen a fu farw'n dawel fis Medi yn Ysbyty Gwynedd, o Bodelwy, Ffordd yr Orsaf yn 101 mlwydd oed. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn meddwl amdanoch.

**Cangen Merched y Wawr Llanrug**
Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan yr Is-lywydd, Mair Huws. Canwyd Cân y Mudiad gyda Megan Roberts yn cyfeilio.

Llongyfarchwyd Olwen Huws ar ddathlu penblwydd arbennig, a dymunwyd yn dda i Carys Wynne ar ei phenblwydd hithau ddechrau Tachwedd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan nifer o aelodau. Pleser oedd cael croesawu Rhian Roberts yn aelod o'r Gangen.

Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith Nan Humphreys fel ffotograffydd y Gangen, a diolchwyd i Carys Wynne am wirfoddoli i wneud y gwaith o hyn ymlaen. Mae ein trysorydd, Pat, wedi derbyn y swydd o fod yn Drysorydd y Rhanbarth am y ddwy flynedd nesaf. Dymunwyd yn dda iddi.

Pob lwc i'r aelodau fydd yn ein cynrychioli yn y Cwis a gynhelir yn Neuadd Groeslon ar Dachwedd yr 8fed.

Cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan llwyddiannus ar y 27ain o Fedi, ac Olwen a Linda fu'n trefnu unwaith eto eleni. Codwyd swm o £560 er budd yr elusen.

Diolch i Ann, Eryl ac Anwen am ofalu am y baned.

Y gŵr gwadd oedd yr hanesydd Bob Morris a fu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor cyn ymddeol. Magwyd ef ym Mhwllheli a threuliodd saith haf yn gweithio yng Ngwersyll Gwyliau Butlins. Pa destun gwell felly i'w sgwrs na'r gwersyll hwnnw? Sgwrs llawn ffeithiau a phrofiadau personol.

Dechreuodd ei sgwrs trwy drafod twf twristiaeth yng Ngogledd Cymru gan ein tywys i Rhyl, Llandudno, Bae Colwyn a Phrestatyn. Agorwyd Gwersyll Butlins, Pwllheli ym 1947, a buan y daeth yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr. Roedd gorsaf drên Penychain gerllaw yn hynod gyfleus a phrysur. Agorwyd y ffair yn y chwedegau, a buan y daeth Butlins yn boblogaidd gyda theuluoedd lleol. Efallai mai trip Ysgol Sul i Rhyl ar fws neu ar drên oedd yr arferiad yn ystod ieuenctid y rhan fwyaf o'r aelodau, ond roedd gan y rhan fwyaf stori fach am ymweliad â Butlins hefyd.

Diolchodd Phyllis Elis i Mr Morris am sgwrs ddiddorol cyn ychwanegu ambell stori oedd ganddi hithau am y gwersyll. Cyfeiriodd hefyd at nofel gyntaf Bob Morris sydd newydd ei chyhoeddi gan ein hannog i ddarllen 'Y Cysgod yn y Cof'.

Y mis nesaf bydd sgwrs am 'Eli Llesol' gan Catrin Roberts.

**Penblwydd**
Dymuniadau gorau ar achlysur penblwydd arbennig i Dyfed Whiteside Thomas a Fiona Morgan, sydd ill dau yn dathlu'r hanner cant. Mwynhewch y dathliadau gyda theulu a ffrindiau.

**Gig Penbont**
Cafwyd noson arbennig a hynod o lwyddiannus yng nghwmni Bwncath a Buddug yn Penbont fis Medi. Daeth criw mawr o bobl i wrando ar yr adloniant gwych, ac fe godwyd dros £2,000 tuag at Ysgol Brynrefail. Diolch yn fawr i Donna Taylor am y trefnu.

**Oedfaon Capel y Rhos**
3ydd Tachwedd – Y Parchg John Pritchard
10fed Tachwedd – Y Parchg Cledwyn Williams
17eg Tachwedd - Y Barchg Nerys Griffiths, ein Gweinidog
24ain Tachwedd – Dr Huw Tegid Roberts

**Hafan Elan**
Cafwyd ymweliad â Maes Awyr Caernarfon yn ogystal â'r Amgueddfa Awyrennol yn Dinas Dinlle ar yr 8fed o Hydref, a mwynhau cinio hyfryd yn y caffi. Diolch i Elizabeth Hughes am drefnu.






## Ysgol Llanrug

**Pwyllgor Eco a'r Cyngor Ysgol**
Dyma aelodau newydd y Pwyllgor Eco a'r Cyngor Ysgol. Edrychwn ymlaen at gydweithio drwy'r flwyddyn.





**Technocamps**
Cafwyd gweithdy micro:bit llwyddiannus iawn gyda Alex @Technocamps_BU ym mlwyddyn 5 a 6! Da iawn chi blant am ddyfalbarhau!





**Clwb Chwaraeon yr Urdd**
Braf gweld cymaint o'n disgyblion yn mwynhau pob math o chwaraeon yng Nghlwb Chwaraeon yr Urdd (bl 3-6)! Diolch i @UrddEryri am gynnal y Clwb. Da iawn chi blant!





**Dosbarth Meithrin –** Wel dyma ni Dosbarth Yr Wyddfa sef plant Meithrin i gyd gyda'i gilydd. Pawb yn hapus yn chwarae a bod gyda ffrindiau.

**Twrnament pel-droed yr Urdd**
Diwrnod gwych heddiw yn Nhwrnament Pel-droed yr Urdd Ysgolion Eryri! Balch iawn o bob un o'r tîm am gyrraedd y gem gyn-derfynol! Diolch @UrddEryri am drefnu.



Disgyblion Blwyddyn 6 wedi mwynhau hyfforddiant 'Darllen ar y Cyd'. Edrych ymlaen i gael cychwyn efo dosbarthiadau Dysgu Sylfaen a Blwyddyn 3 a 4 bob brynhawn Dydd Llun!



**Gweithdy Celf**
Cyflwyniad a gweithdy celf gyda @FairTradeWales @Bangorstudents @ttosimokun ym Mlwyddyn 5 a 6.



**Gwasanaeth cofio am Owain Glyndwr**



**Achub y Plant**
Diolch i Annette a Ffion o elusen Achub y Plant am ddod draw i ymarfer canu efo rhai o blantos blwyddyn 5 a 6 heddiw! Pawb wedi mwynhau!



**Diwrnod Meddylfryd o Dwf**
Pob dosbarth wedi mwynhau gweithgareddau diwrnod Meddylfryd o Dwf. Llawer o gydweithio, cymryd risg, dyfalbarhau, gwella, canolbwyntio a defnyddio'u dychymyg.

**Glan-llyn**
Bu plant blwyddyn 6 draw i'r Bala ddechrau'r mis i gael profiadau byth gofiadwy yng Nglan-llyn. Cafwyd llawer iawn o hwyl wrth ymdrechu â'r sialensau newydd.











**Pitsa a Cwis**

Cafwyd noson hwyliog yn Nhafarn y Wellington ar nos Wener 4ydd Hydref. Am bris hynod resymol o £5 y pen roedd modd cael pizza a chystadlu yn y cwis! Roedd cyfle hefyd i'r trigolion brynu Pizza Llan heb ymuno'n y cwis.

Diolch i'r Pwyllogr Pentra am drefnu ac i JohnJo am fod yn gwisfeistr lliwgar yn ei ddull dihafal ei hun. Edrych ymlaen at y digwyddiad nesaf!









**Merched y Wawr**

Gyda'n gwibdaith haf i Port Sunlight a Lerpwl ddiwedd mis Mehefin yn ddim ond atgof hapus, roedd aelodau'r gangen yn edrych ymlaen yn frwd at gael ail-ymgynnull ar gyfer tymor yr hydref ar ôl cyfnod o egwyl dros yr haf a thywydd digon anwadal. Mae gennym raglen ddiddorol ac amrywiol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a diolchwn fod siaradwyr yn barod i ddod i'n diddori bob mis. Ac mae'n braf adrodd ein bod wedi denu ambell aelod newydd eto eleni. Croeso i ragor ymuno!

Cafwyd dechrau da i'r tymor, oherwydd yn ein cyfarfod agoriadol ar 16eg Medi ein siaradwr gwâdd oedd Bob Morris, yr hanesydd ffraeth o Benygroes. Mwynhaodd pawb ei sgwrs am hanes Butlins Pwllheli a datblygiad cabannau gwyliau a gwyliau teuluol yn gyffredinol yng ngogledd Cymru o droad yr ugeinfed ganrif tan heddiw. Roedd ei sleidiau a'i hanesion yn sbardun i lawer o atgofion a sgyrsiau gennym ninnau dros baned ar ddiwedd y noson am wibdeithiau a thripiau Ysgol Sul, am Langrannog, ac ambell gyfnod gwyliau fel plant. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at ein cyfarfod nesaf nos Lun, 21ain Hydref, pan fydd Delyth Jones-Williams o Ddeiniolen gyda ni i siarad am ei gwaith fel swyddog datblygu gyda phrosiect Tŵr Marcwis, Llanfairpwll ar ei newydd wedd.

**Y cyntaf i'r felin …**

Mae hynny'n wir am sesiwn hyfforddi Cymorth Cyntaf a drefnir gan Ferched y Wawr Deiniolen gydag Ambiwlans Sant Ioan ddechrau mis Rhagfyr (nos Lun, 2il Rhagfyr yw'r dyddiad tebygol). Bydd rhai lleoedd i'r gymuned ehangach ar y cwrs sylfaenol dwyawr hwn, os dymunwch; ond bydd angen ffonio Eirlys (07546 926582) i gadw eich lle. Fe welwch bosteri yn y pentref yn fuan a fydd yn cadarnhau'r dyddiad. Gwyliwch y gofod!

**Sul y Cofio**

Bydd gwasanaeth Sul y Cofio yn cychwyn am 9.15am ar y 10fed o Dachwedd o flaen y Gofgolofn fel yr arfer. Y Canon Naomi Starkey fydd yn arwain y gwasanaeth. Dewch i gefnogi.




**Bore Coffi Macmillan**

Ar fore dydd Iau 24ain Medi, cynhaliwyd bore coffi yng Nghaffi EBs. Daeth nifer ynghyd i fwynhau paned, brechdan, teisen, bisged a sgwrs. Gyda gwerthiant teisennau, paned a'r raffl llwyddodd Euriona Croft a'i chyfeillion i godi £500 tuag at yr elusen Macmillan.

Diolch i bawb gyfranodd, prynodd a ddaeth draw i gefnogi.









# Tyddyn Teg

**Bwyd - Tir - Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Pêl-droed y gorffennol

Balchder a llawenydd o'r mwyaf yw bod tîm pêl-droed wedi ei ffurfio eto yn ein pentref, ar ôl blynyddoedd o seibiant ac rydym yn wirioneddol falch o'r llwyddiant hyd yma. Pob dymuniad da i'r chwaraewyr a'r swyddogion am weddill y tymor ac am flynyddoedd i ddod.

Addas felly, yw rhoi'r penillion hyn yn yr Eco, er nad ydynt wedi gweld golau dydd o'r blaen, i'n hatgoffa o'r amser hapus, difyr a hwyliog, y brwdfrydedd a'r gefnogaeth a gafwyd pan oedd y tîm ar ei anterth yn yr wyth a'r naw degau.

Chwith meddwl erbyn hyn, bod llawer oedd a chysylltiad â'r Clwb yr adeg hynny, wedi ein gadael. Cof da ac annwyl amdanynt.

**Noson Cyflwyno Tlysau clwb Pêl-droed Deiniolen ym Mhlas Menai, nos Sadwrn, 6ed Mehefin, 1982**

Ar ran y pwyllgor gai'i yn gynnes iawn heno
Eich croesawu chwi yma i Noson y Cyflwyno -
Dyma uchafbwynt y tymor i'r hogia' -
Cael gwobr fach am ddangos eu donia'.
Mae'r tymor wedi bod yn eithriadol lwyddiannus
Ond fel pob un arall, yn ddigon costus.
'Tydi llogi cae ddim yn rhad dyddiau yma
A dyna'r anfantais o fod heb 'run adra'
Ond na hidiwn yn hir, mae pethau yn troi ar wella
a chawn gae ein hunain, cyn hir, yng nghanol y pentra'.

'Chydig iawn o gemau ym wedi eu colli
A hynny am fod y tim yn ymroi o ddifri'
Do, fe gawson ni gweir fach gan Waterlw,
Ond be' di wahaniaeth am danyn' nhw
Ac fe gawsom ni aml i fwcing ar gam
A hynny am fod y reffs mor chwim chwam.

Mae'r Pwyllgor, a dweud y gwir, n un gweithgar,
Hwyliog, cytûn ac yn gwbl ymroddgar.
Colin sydd yn gwneud y 'Fixtures' ac Eileen yn clarcio
A Gloria sydd yn trin y pres ac yn bancio.
Ond mae'r sawl sy'n eistedd yn y gadair yn hynod,
Yn llywyddu ac yn cynnal pob cyfarfod.
heb Alun, fasa waeth i ni roi'r ffidil yn y to
a phrin iawn fyddai'r arian hen ei glwb dau gant.

Os daw anaf bach neu fawr i ran yr hogia'
Noel yw'r un fydd yn trin y briwia'.
'Rydym yn glwb eithriadol o lwcus
Yn cael dyn Cymorth Cynta' mor selog a medrus,
Cofiwn ei weld yn Llanrug, mewn gem adra,
Yn achub bywyd chwaraewr bach o Ddyffryn Nantlle.
Meirion fydd yn dod i'r hogia
Ar ôl iddynt chwysu yn yr hanner cynta'
Fe'i gwelir yn mynd hefo'i fag sbwriel du
A'r tim yn tyrru o'i gwmpas yn llu.

Toes neb yn y gynghrair hefo cefnogwyr mor driw,
Fe'i gwelwch ym mhob gem ar y lein yn griw.
Pan fydd Deiniolen ar y cae bydd yn bleser eu gwylio
Ac yn donic i'r glust, dim ond cael gwrando.
Clywir rhai fel Glyn Cynfi yn erfyn ei ora'.
Am i hogia' Deiniolen godi eu pennau
Deiniolen godi eu penna'.
ac Alun Wyn yn gwaeddi o waelod ei fol,
'Cym on hogia, dangoswch iddyn nhw be' ydi ffwtbol".
Dyna fel y bydd hi ar bnawn Sadyrna'-
A phawb yn mwynhau ei hun ei ora'.

Mae chwaraewr fydd yn ein gadael, maes o law
Ac yn mynd i dreinio hefo Tranmere draw.
Pob lwc 'rown iddo ar ei rawd
a gobeithio gwnaiff chwarae yn 'sgidiau ei frawd
Ond cofia Gavin, pan ei di o adra'
Paid ag anghofio lle mae dy wreiddia'
A rho ar ddallt i'r season, doed a ddel
Mai yn Neiniolen y dysgaist ti gicio pêl.

I ddiweddu'r tymor am y flwyddyn yma,
fe gawsom ni bluen, mae yn rhaid cyfadda,
Be well ar bnawn Sadwrn braf yn Rhosgadfan,
Na churo Llanrug i ennill y gwpan.


Rhaid i mi, bellach, roi'r gora i baldaruo,
Achos ein noson chi ydy heno
Ond gobeithio cawn eich gweld i gyd, yr hen hogia',
Yn chwarae i Lanbabo y tymor nesa',
Ac y gwelir Deiniolen ar ben y Sain Lig
A phawb yn llawenhau eich gweld ar y brig.
***Cefnogwr***



# Atgofion Eryl Hughes o Dîm Pêl-droed Deiniolen

Yn ddiweddar darllenais deyrnged i Eifion Cefn Gwyn mewn rhifyn o'r Eco a gwnaeth imi feddwl am yr adeg pan oedd y ddau ohonom yn chwarae i dîm pêl-droed Deiniolen.

'Roedd ystafell newid y clwb mewn tŷ gwag ar Stryd Newydd, dros y ffordd i 'Coparet'. Byddai'r tîm cartref yn newid fyny llofft a'r ymwelwyr lawr grisiau yn y parlwr. Byddem fel chwaraewyr yn cerdded ar hyd y stryd fawr yn ein hesgidiau pêl-droed. Bryd hynny roedd 'studs' yr esgidiau wedi eu gwneud o ledr gyda 4 i 5 hoelen i'w taro i waelod yr esgidiau. Erbyn cyrraedd y cae, roedd yr hoelion wedi dod drwy waelod yr esgidiau ac yn pigo'r traed gyda'r 'studs' yn cychwyn dod yn rhydd. Bryd hynny, roedd rhaid chwilio am garreg hwylus i daro'r 'studs' nol yn eu lle!



Roedd y cae fyny Lôn Pen Bont ac ar lethr pur ddrwg gyda'r gwaelod yn wlyb, yn debycach i gors. Ar un ochr i'r cae oedd Afon Caledffrwd ac yn aml iawn byddai'r bêl yn gorffen yno, gyda'r cefnogwyr ifanc yn cystadlu am y cyntaf i'w chasglu.

Roedd Eifion yn chwarae ar ochr dde i'r llinell flaen a chofiaf ef yn un chwim a chryf ac yn gallu croesi'r bêl yn dda.

Rhif 9 y tîm oedd Wyn Davies oedd yn llond llaw go iawn i'r ymwelwyr ac fe sgoriodd lwyth o goliau. Bu iddo symud mewn ychydig i Gaernarfon, gan hefyd gynrychioli Wrecsam, Bolton Wanderers, Newcastle United, Manchester United a Manchester City. Fe enillodd 34 cap i Gymru gan sgorio 6 gôl. Fi oedd yn chwarae ar ochr chwith i linell flaen Deiniolen a bûm yn ffodus i chwarae i dîm dan 18 Cymru yn erbyn yr Alban. Roedd tri arall o'r gogledd yn y tîm, megis Trefor Roberts o Gaernarfon, Emyr Edwards o Borthmadog a Ronnie Roberts oedd yn chwarae i Wrecsam.

Cynhaliwyd y gêm yn Abertawe mewn tywydd ofnadwy gyda'r cae dan ddŵr. Ni fuasai'r gêm wedi ei chynnal oni bai fod tîm yr Alban wedi cyrraedd. Roedd yr asgellwr de dawnus hwnnw, Willy Henderson yn nhîm yr Alban, aeth mlaen i gynrychioli Rangers a thîm cyntaf ei wlad. Alex Ferguson oedd yng nghanol cae ein gwrthwynebwyr ddaeth yn gymaint o ddylanwad fel rheolwr yn Old Trafford. Diwedd y stori, oedd ein bod wedi colli 2-1.

Fe fu imi gynrychioli tîm pêl-droed Porthmadog a Bangor City dan y rheolwr Tommy Jones gynt o Everton a Chymru. Fe gefais gynnig ymuno gyda Wolverhampton Wanderers ond nid oedd y telerau yn galluogi imi gario'n mlaen gyda fy addysg. Ar ôl hynny, cefais gynnig troi'n broffesiynol gyda Blackpool ond roedd hynny hefyd yn rhoi dyfodol ansicr o ran parhau gydag addysg.

Y penderfyniad oedd mynd i Gaerdydd i'r coleg gan hyfforddi yn athro addysg gorfforol. Tra yno bûm yn chwarae i Barry Town ar y Sadwrn pan nad oedd gêm gan y coleg. Bûm yn athro yn Wolverhampton gan weithio hefyd fel Ymgynghorydd Addysg Gorfforol i awdurdod Tameside. Yn fy oriau hamdden bu imi barhau gyda diddordeb mewn pêl-droed a gweithredu fel '*scout*' i dimau Wrecsam, Abertawe a Wigan. Gweithiais yn agos gyda Brian Flynn a Roberto Martinez sydd nawr yn rheoli tîm Portiwgal a'r enwog Ronaldo.
**Eryl Hughes**

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlad**
O fewn misoedd o golli ei gŵr, bu farw Carys Jones, Stâd Rhôslan. Danfonwn ein cydymdeimlad at eu meibion Gerallt a Gareth a'u teuluoedd. Claddwyd Carys gyda'i gŵr ym Mynwent Llanfaglan ar lannau'r Fenai.

**Datblygiad**
Erbyn hyn, mae'r gwaith wedi dechrau ar baratoi'r stâd newydd o dai gyferbyn â Cremlyn. Bydd hwn yn dipyn o ddatblygiad. Clywaf ambell i awgrym gan y pentrefwyr am enw iddo. Mae'n ymddangos fod y datblygwr eisoes wedi awgrymu chwe enw posibl, gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg. Oes angen enwau dwyieithog ar stâd mewn pentref Cymreig fel Bethel? Mae hefyd ddatblygiad o bedwar tŷ ar dir Bro Eglwys.

## Rhedeg i bwrpas

Ymysg y 27,000 o redwyr yn ras Hanner Marathon Caerdydd oedd Ifan Rowlands o Stâd y Ddôl, Bethel. Bu am oriau'n ymarfer ar gyfer y ras, a thestun ei ymroddiad yn ei yrru ymlaen. Yr oedd Ifan yn cael ei noddi i godi arian at Ymchwil Canser Cymru. Mae'r achos yma'n agos iawn iddo ar lefel deuluol. Collodd Ifan ddau ewythr i'r afiechyd, ac ers dechrau'r flwyddyn mae ei fam yn dilyn cwrs o driniaeth.

Llwyddodd Ifan i gwbwlhau'r ras mewn 2 awr 34 munud, a bydd y fedal a gyflwynwyd i bob rhedwr yn dwyn atgofion iddo dros y blynyddoedd. Hyd yn hyn, mae Ifan wedi derbyn £2,600 o nawdd at yr achos, ac mae yntau'n ddiolchgar am bob cyfraniad.

Bwriad Ifan yw cadw'r apêl yn agored am ychydig o wythnosau ymhellach. Os hoffech gyfrannu, mae'n bosibl cysylltu drwy dudalen *justgiving*.

Y cysylltiad pwysig yw:
https://www.justgiving.com/page/ifan-rowlands.1723489327583





**Oedfaon Tachwedd**
Cysegr: 3ydd. Arwel Williams; 10fed. Y Gweinidog; 17eg. Karen Owen
Bethel: 10fed. Sul y Cofio; 24ain. Arwel Williams

**Eisteddfod Bethel**
Cynhaliwyd yr Eisteddfod eleni ddydd Sadwrn, Hydref 5ed yn y Neuadd Goffa. Cafwyd cystadlu brwd a chynulleidfa deilwng a chefnogol. Y beirniaid eleni oedd Caren Lloyd (Cerdd), Nona Breeze (Llên a Llefaru) a Sian Harris (Celf). Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant yr Eisteddfod: plant a phobl ifanc yr ardal; athrawon Ysgol Bethel; Adran y Gymraeg, Ysgol Brynrefail; cyfeilyddion, arweinyddion, hyfforddwyr, sefydliadau'r pentref a sawl unigolyn a busnes lleol a gyfranodd nawdd ariannol.

**Canlyniadau'r Eisteddfod (1af, 2il a 3ydd)**
Unawd Dosbarth Meithrin: Alys, Elan, Morgan; Llefaru Dosb. Meithrin: Elan, Alys, Lili.
Unawd Dosb. Derbyn: Macsen, Tesni, Ilid; Llefaru Dosb. Derbyn: Macsen, Elliw, Tesni.
Unawd Bl. 1: Elis Llyr, Syfi, Nisian; Llefaru Bl. 1: Elis Llyr, Elis Williams, Nisien.
Unawd Bl. 2: Elin, Christian, Caleb; Llefaru Bl. 2: Caleb, Elin, Mabli.
Unawd Bl. 3 a 4: Cadi, Guto, Ela; Llefaru Bl. 3 a 4: Eldra, Cadi, Leia.
Unawd Alaw Werin Bl. 1–6: Christian; Unawd Cerdd Dant Bl. 1–6: Christian.
Meimio i record Gymraeg: Lleucu a Leia.
Llefaru Bl. 5–6: Llew, Gwil, Enlli a Math; Unawd Bl. 5–6: Betsan, Llew, Math ac Enlli.
Unawd Piano Bl. 6 ac Iau: Llew, Christian, Cadi.
Llefaru Bl. 7–13: Lydia Alys. Unawd Bl. 7–13: Alaw, Sara.
Unawd Piano Bl. 7–13: Lydia Thomas, Lydia Alys, Efa Wyn.
Deuawd Cynradd/Uwchradd: Alaw a Cadi.
Offeryn heblaw piano Bl. 7–13: Efa Wyn, Steffan, Lydia Alys.
Ensemble Offerynnol Cynradd/Uwchradd: Criw Bethel.
Stori a Sain (Uwchradd): Leia a Lleucu, Rhiannon a Lydia Alys.
Darllen darn heb ei atalnodi: Menna, Wena, Rhiannon.
Cystadleuaeth dweud jôc: Ted, Math, Llew.
Parti Llefaru (Uwchradd): Rapsgaliwns; Parti Canu (Uwchradd): Rapsgaliwns.
Talent Bethel: Dafydd Emrys (Cysegr), Criw Clwb Pêl-droed, Criw MYW Bethel.
CANLYNIADAU LLÊN
Meithrin : Cadog, Jac, Ana
Derbyn: Bethan, Tesni, Cadi
Bl. 1 : Elis Llyr, Harri, Twm
Bl.2 : Cara, Elin, Caleb
Bl. 3 : Guto, Cadi, Ela
Bl.4 : Llew, Arthur, Deion
Bl.5 : Enlli, Bethan, Llew
Bl.6 : Siwan, Gwil, ffion
Bl. 7-9 : Lydia Alys, Lleucu, Lydia Alys Bl. 10-13 : Lydia Thomas, Ela Haf, Llyr Elwyn
Limrig : Menna, Wena, Rita
Cerdd/ Rhyddiaith (Hunanddewisiad) : Lisa Haf ( 1af., 2il., a 3ydd)

**Canlyniadau Llên Creadigol 2D (Gwaith yn yr Ysgol)**
Meithrin: Alys a Cadog, Tomi, Logan; Derbyn: Nelw, Will, Tesni.
Bl. 1: Nisian, Popi, Tomos; Bl. 2 :Leia, Elsi, Lois.
Bl. 3: Ela, Eve, Branwen; Bl. 4: Lois, Hazel, Arthur a Siwan.
Bl. 5: Greta, Enlli, Twm; Bl. 6: Ffion, Wren, Efa a Katie.
Bl. 7–13: Lleucu, Elen, Sara.
Gwaith Celf ( Cartref) : COLLAGE
Bl.2 ac Iau : Caleb, Nisien, Christian ac Elin Bl. 3 a 4 : Llew, Cadi
Blk. 5a6 : Betsan, Greta, Enlli
Bl. 7-13 : Efa ( Bl.7)

**Creadigol 3D**
Bl. 2 ac Iau: Haf, Eban, Christian ac Eli; Bl. 3 a 4: Lois, Eldra.
Bl. 5 a 6: Twm, Math, Llew; Bl. 7–13: Elen, Efa, Sara.

**Ffotograffiaeth**
Bl. 2 ac Iau: Caleb; Bl. 3 a 4: Celt, Lois.
Bl. 5 a 6: Enlli, Math; Bl. 7–13: Leia, Efan, Steffan.
Agored: Wena.
Logo i Eisteddfod Bethel 2025: Math, Ffion, Efa.

**Cerdyn Cyfarch**
Bl. 2 ac Iau: Caleb, Elin, Nyfain; Bl. 3 a 4: Branwen, Lois, Cadi.
Bl. 5 a 6: Bobi, Math, Enlli; Bl. 7–13: Efa, Leia.
Agored: Wena.

**Addurno Basgedi**
Bl. 2 ac Iau: Christian, Elin; Bl. 3 a 4: Lois.
Bl. 5 a 6: Enlli, Ffion, Alaw; Bl. 7–13: Efa, Lydia Alys, Max.
Logo ar gyfer Crys T: Elen, Alaw.
Logo Eisteddfod 2025: Math, Ffion, Efa.
Gwaith Creadigol 2D (Agored): Efa (1af., 2il a 3ydd).

**Tlysau'r Eisteddfod (am y perfformiadau unigol gorau ym mhob Adran)**
Llefaru Cynradd: Llew Ashworth; Lleisiol Cynradd: Cadi Elfyn; Piano Cynradd: Llew Ashworth.
Celf Cynradd (Gwaith Cartref): Twm Ashworth; Celf Cynradd (Gwaith Ysgol): Ffion Rice-Roberts.
Parti Llefaru Cynradd: Parti Bl. 4,5,6; Parti Canu Cynradd: Criw Blwyddyn Derbyn.
Lleisiol Unigol (Uwchradd): Alaw Roberts; Llefaru Unigol (Uwchradd): Lydia Alys.
Tlws Piano (Uwchradd): Lydia Thomas; Tlws Offerynol (Uwchradd): Efa Wyn.
Tlws Celf (Uwchradd): Lleucu Mair Evans; Parti llefaru (Uwchradd): Rapsgaliwns.

Stori a Sain: Lleucu a Leia; Cerdd/ Rhyddiaith: Lisa Haf.
Llenor Cynradd: Siwan Jones; Tlws Geraint Elis (Llenor 7–9): Lydia Alys.
Tlws Maggie Owen (Llenor Uwchradd): Lydia Thomas.
Gobeithir cael detholiad o rai o'r cynhyrchion buddugol yn rhifyn mis nesaf o'r Eco.

**Clwb Bro Bethel**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor y Clwb Bro yn y Neuadd bnawn Mawrth cyntaf mis Hydref. Cafwyd gair o groeso gan ein Llywydd, Mary Wyn Jones. Braf oedd cael croesawu aelodau newydd.

Cydymdeimlwyd â Lynwen, Llinos a Carwyn ar farwolaeth gŵr a thad annwyl. Yn ystod mis Medi daeth y newyddion am farwolaeth un o'n haelodau, sef Maud Williams. Cydymdeimlwyd hefyd â Menna, John, Dyfan a Wiliam yn eu profedigaeth o golli mam a nain ofalgar. Hefyd gyda ei chwaer-yng-nghyfraith Eirwen Williams.

Llongyfarchwyd Ellen a Gwynfor Ellis ar ddod yn nain a thaid am y trydydd tro. Ganwyd mab, Guto Ifan, i Iolo a'i briod Catrin.

Penderfynwyd cynnal y cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon.

Yna cafwyd orig hwyliog iawn yng nghwmni ein gŵr gwadd, Peredur Lynch o Fangor.

Magwyd Peredur yn ardal Corwen lle bu ei dad yn weinidog drwy gydol ei yrfa gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ar y cychwyn, roedd y blaenoriaid yn cael trafferth ynganu ei gyfenw. Eglurodd fod y Lynchiaid cyntaf yn hannu o'r Iwerddon a bod ei hen hen daid Daniel Lynch wedi symud i Gaergybi ym 1825 yn 23 oed. Cafodd swydd yn gweithio yn swyddfa'r goets fawr yng Nghaergybi.

Darganfu Peredur lawer o hanes Daniel ym mhapurau newydd y cyfnod, oherwydd ym 1825 cafodd ei gyhuddo o dderbyn eiddo wedi ei ddwyn. Roedd y drosedd yma'n cael ei hystyried yn waeth na'r weithred o ladrata. Gallai'r gosb olygu cael ei yrru i Awstralia; ond dedfydwyd Daniel i chwe mis o garchar hefo llafur caled.

Ar ôl cael ei ryddhau, priododd Daniel â merch leol, ond bu farw yn 35 oed. Roedd amgylchiadau byw ei wraig a'i blant yn anodd. Er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd troseddu fu hanes rhai o'i blant.

Cawsom fraslun o hanes y cenedlaethau nesaf o'r teulu a 'pharchuso' fu eu hanes. Wrth gloi, soniodd Peredur y gallai cwrs ei fywyd wedi bod yn dra gwahanol petai Daniel Lynch wedi cael ei anfon i Awstralia. Yn sicr, byddai Clwb Bro wedi bod ar ei golled o beidio cael clywed yr hanes diddorol.

Talwyd y diolchiadau gan Llinos Williams. Enillydd y raffl oedd Marjorie Roberts, ac Anne Elis a Gwyneth Jones oedd yn gyfrifol am y baned.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Festri Capel Cysegr brynhawn Mawrth, Tachwedd 5ed.

**Merched y Wawr**

Yng nghyfarfod mis Hydref cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Iwan Roberts o Lanrug. Diolch iddo am ddod atom ar fyr rybydd, gan i ni gael ein hatgoffa fod Covid yn dal i gerdded drwy'r ardal. 'Disgwyl y Post' oeddem, ac er ein bod yn gwybod am hanes diweddar swyddfeydd post ein hardal, a hynny oherwydd blerwch ac anghyfiawnder, fe aeth Iwan â ni i fyd eu sefydlu, eu dynodau unigryw a'r bobl oedd yn gweithio iddynt.

Pwy feddyliau i lythyr cyntaf yr ardal gael ei yrru o Fachwen pan oedd Elisabeth 1af yn teyrnasu ym 1578? Roedd anfon llythyr yn ddrud iawn, ac anllythrennog oedd y mwyafrif o'r ardalwyr. Doedd yna ddim postmyn ac roedd rhaid i'r derbynydd fynd i Gaernarfon i weld os oedd llythyr wedi ei osod yn ffenestr y Swyddfa Bost ar ei gyfer. Hyd at 1840, y derbynydd oedd yn talu am y llythyr, ond yna fe ddaeth stamp y *Penny Black* i fodolaeth, a'r modd i anfon llythyrau yn fwy cyffredin. Fe agorwyd swyddfa bost yn Llanberis tua'r un pryd, a hynny'n cydfynd â swyddfeydd mewn ardaloedd chwarelyddol eraill fel Penygroes, Blaenau Ffestiniog a Bethesda. Gwelsom luniau o stampiau'r swyddfeydd unigol, yn cynnwys un Ebeneser, sef yr hen enw ar Ddeiniolen, a'r stamp ar beiriant a oedd wedi rhoi stamp o Lanberis ym 1958 i ddathlu'r *Empire Games* am 7 diwrnod. Cawsom hanes Sam Post a oedd yn cerdded â llythyrau o gwmpas yr ardal, a darllenwyd llythyr gafwyd gan Cledwyn Williams yn trafod ei hanes. Ychydig wyddai Iwan y byddai merch y llythyrwr, Ceri, yn y gynulleidfa, a oedd yn gwybod dim amdano!

Fe agorwyd Swyddfa Bost ym Methel ym 1867 a thrist iawn yw meddwl be fu hanes diweddar y post yma wrth iddi orfod cau.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bu i Liz y Llywydd, longyfarch Mair Williams ar ei phen-blwydd arbennig, a hithau'n dathlu yn hytrach na bod yn y cyfarfod!

Llongyfarchiadau i Ifan, mab Nan, ar gwblhau hanner marathon Caerdydd. Mae eisoes wedi casglu tua £2,500 at ymchwil Cancr Cymru. Anfonwyd llongyfarchiadau at Sam, ŵyr Falmai, ar ennill ras feicio yn Llandrindod yn ddiweddar – ac fe fydd hefo'r hawl i wisgo crys pencampwr Cymru am y flwyddyn nesaf.

Anfonwyd cydymdeimlad at ddwy gyn-aelod. Eva wedi colli ei gŵr yn ddiweddar, a oedd yn frawd i Gwyneth, y ddwy wedi bod yn aelodau ffyddlon am flynyddoedd.

Bu i griw y sgets gystadlu yn Talent Bethel yn yr Eisteddfod (Anita, Mair Read, Rhian, Wendy a Gwenan). Llongyfarchiadau i Dafydd Emrys, mab Mair, ar ennill y gystadleuaeth yn cynhyrchioli Capel Cysegr, ac i'r llu o blant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan trwy'r dydd. Gwnaed y baned gan Deilwen, Ann Lewis a Lynnwen, a diolchodd Mair Read i Iwan ar ran y gangen. Liz Watkin enillodd y raffl. Gellir gweld manylion pellach yn ymwneud â'r gangen ar y wefan: https://mywbethel.org



Ceri Williams, merch Cledwyn Williams, Iwan Roberts a Liz Watkin, Llywydd y Gangen

**Caffi Bethel**

Cafwyd sawl cyfeiriad at y ffordd y caiff y fwydlen ei haddasu ac at y sesiynau gweithgaredd penodol yn y Caffi. Mae'r rhain yn gweddu i sawl oedran ac yn ymateb i achlysuron arbennig. Bydd rhieni'n falch o glywed bod Hannah a'r criw wedi cynllunio wythnos o weithgareddau i'r plant yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref. Os oes unrhyw weithgaredd yn apelio, yna awgrymir archebu lle o flaen llaw. Dyma fraslun o'r gweithgareddau.

Hydref 25: Sesiwn Crefft, creu bwystfil clai gyda Sian Harris ar gyfer plant Bl. 7 ac 8. Mae angen cofrestru.

Hydref 28: 10.30–11.30 am. Sesiwn addurno cacennau bach. £2 yn cynnwys cacen a diod.

Hydref 30: 10.30–11.30 am. Sesiwn gwneud masgiau Calan Gaeaf. £2 yn cynnwys cacen a diod.

Hydref 31: 2–4 pm. Gweithdy Addurno Pitsa. £5 yn cynnwys pitsa.

Tachwedd 2: Sesiwn Crefft gyda Sian Harris. Criw Hydref 25 yn cwblhau'r gwaith.

Yn ystod y mis, daeth criw Prynhawn Da (Gerallt Pennant ac Owain y gŵr camera) draw i'r Caffi. Pwrpas y ffilmio/cyfweld oedd codi ymwybyddiaeth a dathlu Menter Cymunedol Bethel. Yma ym Methel gallwn gytuno fod menter y Caffi yn creu adnodd pwysig i'r gymuned.





# LLANBERIS



**Y Festri**

Yn ystod yr haf dyfarnwyd cyllid i Circo Arts gan Gynghorau Sir Gwynedd trwy Brosiect Gwyliau Gwaith Chwarae ar gyfer cynnal gweithgareddau yn rhad ac am ddim yn Y Festri i blant Llanberis a'r pentrefi cyfagos. Mynychodd 70 o blant y sesiynau syrcas, a buont yn chwarae gemau, dysgu triciau, mwynhau gwisgo i fyny ac wedyn creu celf ar gyfer gorymdaith. Ar ddiwedd yr haf teithiodd yr orymdaith o'r Festri drwy'r pentref i Barc Bro Elidir, yng nghwmni draig Gymreig, cerddwyr *stilt* a drymwyr. Bendithiwyd y diwrnod efo heulwen a mwynhaodd y plant, pobl ifanc a theuluoedd y sgiliau syrcas a swigod sebon anferthol yn rhad ac am ddim, wrth chwarae yn y parc.

Mae sesiynau syrcas yn y Festri newydd ail-ddechrau i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 18 oed, diolch i gyllid a ddyfarnwyd gan Actif Gogledd Cymru er mwyn darganfod ffyrdd arloesol o gael pobl ifanc i fod yn weithgar.

Dywedodd Thomasine Tomkins, cyfarwyddwr sefydlu'r Festri a CircoArts, "Mae sgiliau syrcas yn aml yn apelio i bobl sydd ddim yn hoffi chwaraeon cystadleuol ac mae'r ystod eang o weithgareddau yn golygu gall pawb ddod o hyd i rywbeth gallan nhw ei wneud. Golyga'r cyllid bod y dosbarthiadau i'w cael am brisiau isel cymorthdaledig gan gynnwys llefydd bwrsari yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n gofyn. Mae yna hefyd ddosbarthiadau (*drop in)* galw heibio i oedolion, sy'n hynod anffurfiol ac ymlaciedig, gan nad ydy syrcas jest i blantos bach! Mae'r nawdd yn cynnwys hyfforddiant a meithrin gallu gan fod CircoArts eisiau cynnig cyfleoedd go iawn i bobl ifanc gael dod yn athrawon syrcas, cynorthwywyr a gwirfoddolwyr. Felly dechreuom gyda sesiwn gweledigaeth (*visioning*) sy'n cael ei redeg gan ein mentor Pete Duncan, fel bod ein pobl ifanc yn cael dweud eu dweud yn nyfodol y cwmni.

Yn dilyn llwyddiant prosiectau peilota llynedd, bydd rhai sesiynau hyfforddwr arbenigol efo artistiaid syrcas proffesiynol hefyd yn digwydd, felly cadwch lygaid ar CircoArts a Gweplyfr ac *Instagram* Y Festri ar gyfer rhai sesiynau am ddim, sy'n dod yn fuan. Fel arall edrychwch am y posteri ym mlychau ffon Y Festri yn y pentref.











# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Medi gan y Llywydd, Pat Jones. Darllenwyd llythyr y mis ganddi, a hi oedd yn gyfrifol am weithgaredd y noson. Roedd wedi gwneud gwaith ymchwil i nifer helaeth o luniau o weithgareddau'r Gangen dros nifer o flynyddoedd. Drwy gyfrwng 'Power Point' mwynhaodd pawb gyflwyniad difyr o weithgareddau amrywiol o gyfarfodydd a theithiau'r gorffennol – llawer ohonynt yn dwyn atgofion melys am gyn-aelodau. Diolchwyd yn fawr i Pat am noson ddiddorol.

O dan nawdd Ffederasiwn Gwynedd Caernarfon bu i nifer o'r aelodau fynychu Diwrnod Iechyd a Lles yn y Ganolfan, Llanberis. Dechreuwyd y diwrnod gyda sesiwn o Yoga Cadair dan ofal Cat Stuilt, a'n tywysodd drwy'r ymarferion. Yn dilyn, cymerwyd rhan mewn Tylino Dwylo dan ofal Alison Richmond o Ddolwyddelan. Wedi seibiant am ginio cafwyd cyfle i wrando ar Lisa Hoffman yn trafod lles bwyta'n iach, gan orffen gyda sesiwn myfyrio i ymlacio'r corff. I ddiweddu'r diwrnod cafwyd arddangosfa golur gyda Meinir Wyn o Gwmni Gwallt Moncrieff, Cricieth a Dolgellau yn egluro'n fanwl y dull o osod y gwahanol eitemau o golur.

Edrychir ymlaen at wmni Gareth Roberts o Fenter Fachwen yn y cyfarfod nesaf.

Aeth tîm CircoArts a rhai o'u haelodau hynaf i weithio a gwirfoddoli mewn llawer o ddigwyddiadau ar draws Gogledd Cymru yn ystod yr haf, gan gynnwys digwyddiadau celf, ffeiriau haf, dyddiau chwarae, carnifalau a gorymdeithiau , gan roi cyfleoedd arbennig iddynt y tu allan i'r Festri.

Mae siopau Joe Brown yn cyllido'r byrbrydau iach, gan ein bod yn credu ei bod yn bwysig bod plant yn cael eu hannog i drio gwahanol ffrwythau a llysiau. Bu'n llwyddiant ysgubol, gyda phlant yn ddewr a balch o gael trio rhywbeth newydd ochr yn ochr â'u cyfoedion.

Gwirfoddolwyr sy'n rhedeg Y Festri yn gyfan gwbl, felly maent yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi dod heibio i helpu llnau a phaentio neu sydd wedi cyfrannu at Gronfa Cymorth Celfyddydau Y Festri. Mae'r gronfa yn cyfrannu at genhadaeth a gweledigaeth Y Festri i ysgogi celf yn ein cymuned trwy sybsideiddio'r sesiynau celf a syrcas ac yn galluogi pobl ifanc a phrosiectau celf eraill i fwynhau a chreu yn y gofod.

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf, i fyny at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r Gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Clybiau crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6pm tan 7.30pm Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** –w yn y Ganolfan ar brynhawn Dydd Iau, 2-4pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Gwasanaethau mis Tachwedd**:
3ydd Tachwedd, 11:00am - Boreol Weddi
10fed Tachwedd, **10:15am - Gwasanaeth Sul y Cofio, cyn symud ymlaen at y Gofgolofn ar gyfer y weithred o gofio**
17eg Tachwedd, 11:00am - Boreol Weddi
24ain Tachwedd, 11:00b am - Cymun Bendigaid
Cynhelir Ffair Nadolig y pentref yn yr eglwys ar nos Iau 28ain Tachwedd rhwng 6 ag 8pm.

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul a bore Mawrth am 9:30am.

Bydd Ffair Nadolig yn yr eglwys ar ddydd Sadwrn 23ainTachwedd rhwng 10 a 3 o'r gloch. Pris mynediad £3.50 i gynnwys paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hafnon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon Hydref/Tachwedd/ Rhagfyr**
27ain Hydref: 2.00pm – Parch Ddr Elwyn Richards
3ydd Tachwedd: 10.00am – Mr Robert Morris
10fed Tachwedd: 10.00am – Parch Dafydd Coetmor
17eg Tachwedd: 2.00pm – Parch Gwenda Richards
24ain Tachwedd: 2.00pm – Mr Robert Morris
1af Rhagfyr: 10.00am – Dr Huw Tegid Roberts

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.
Diolch yn fawr.

**Etholiad**
Llongyfarchiadau i Gwilym Evans, cynghorydd newydd dros ward Llanberis a Nant Peris.

Safodd Gwil mewn is-etholiad yn dilyn ymddiswyddiad Kim Jones fel cynghorydd. Mae Gwil yn wyneb cyfarwydd, yn gadeirydd ar y cyngor cymuned ac yn ffigwr amlwg yn y byd pêl-droed lleol.

Dyma lun o Gwil yn ymgyrchu gyda Siân Gwenllian






BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS


www.ecorwyddfa.co.uk

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul a bore Mawrth am 9:30am.
Bydd Ffair Nadolig yn yr eglwys ar ddydd Sadwrn 23ainTachwedd rhwng 10 a 3 o'r gloch. Pris mynediad £3.50 i gynnwys paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.

*Oedfaon Hydref/Tachwedd/Rhagfyr*
27ain Hydref: 2.00pm – Parch Dr Elwyn Richards
3ydd Tachwedd: 10.00am –Mr Robert Morris
10fed Tachwedd: 10.00am – Parch Dafydd Coetmor
17eg Tachwedd: 2.00pm – Parch Gwenda Richards
24ain Tachwedd: 2.00pm – Mr Robert Morris
1af Rhagfyr: 10.00am – Dr Huw Tegid Roberts

# Ysgol Penisarwaun

**Rheolau'r Ffordd Fawr**


Yn ystod mis Medi daeth Siw Broda o Gyngor Gwynedd i'r ysgol i gynnal sesiynau diogelwch y ffordd efo'r disgyblion. Cafodd y disgyblion ieuengaf ddysgu am ddiogelwch y ffordd fawr drwy helyntion Carys Ofalus, roedd pawb wedi mwynhau.

Penodwyd dau ddisgybl o'r adran Iau yn Swyddogion Ffordd Fawr, da iawn Myfi a Leo, bydd y ddau yn brysur yn ystod y flwyddyn yn codi ymwybyddiaeth ac atgoffa eu cyd-ddisgyblion am bwysigrwydd diogelwch y ffordd.

Cyflwynodd Siw gwis i'r adran Iau. Mae'r disgyblion hynaf yn edrych ymlaen rŵan iddi ddychwelyd i gynnal sesiynau beicio gyda hwy. Diolch Siw.







**Dechrau Tymor**

Braf iawn oedd croesawu disgyblion newydd i'r ysgol ddechrau'r tymor hwn. Maent i gyd wedi setlo yn dda iawn erbyn hyn ac yn mwynhau bywyd ysgol. Dymuniadau gorau iddynt yma yn Ysgol Penisarwaun.



**Gŵyl o Gân**

Cafodd disgyblion yr ysgol wahoddiad i ganu mewn Gŵyl o Gân a gynhaliwyd yn Eglwys Santes Helen ar nos Sul ar ddiwedd Medi. Diolch yn fawr i'r rhai a fynychodd i gynrychioli'r ysgol, cafwyd adborth cadarnhaol iawn gyda phawb wedi mwynhau clywed y disgyblion yn canu. Braf yw cael cyfle i'r disgyblion gyfrannu tuag at weithgareddau cymdeithasol o fewn y pentref.



**Gŵyl y Cynhaeaf**
Fel rhan o ddathliadau gŵyl y Cynhaeaf Eglwys Santes Helen cafod y disgyblion ieuengaf wahoddiad i addurno ffenestr yn yr Eglwys i ddathlu'r achlysur. Diolch i rieni am eu cyfraniadau ar gyfer banc bwyd mae'r eglwys yn ei gefnogi.



**Cyngerdd Mawreddog**
Cafodd disgyblion yr ysgol wahoddiad i ganu mewn Cyngerdd Mawreddog yn y Gadeirlan ym Mangor er budd elusen Achub y Plant. Cawsant y cyfle i ganu "Mae yna Obaith" gyda'r canwr opera byd enwog Gwyn Hughes Jones sy'n wreiddiol Lanbedrgoch, Ynys Môn. Dyma'r eildro i ysgol Penisarwaun gael y fraint o ganu ag o gan i ni wneud yn ôl yn 2019 hefyd. Diolch i Annette Bryn Parri am y cyfle unwaith eto ac am y cyfle i gefnogi elusen mor bwysig.



## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 3ydd o Dachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00pm. Bydd Cyfarfod i'r Tîm Arweiniol i ddilyn y Gwasanaeth hwn. Yna, ar y 17eg o Dachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Mererid Mair am 2.00pm.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Hannah Hughes (Llyn Gele) a'i phartner Jake ar enedigaeth eu mab, Sion Elis Halstead, fis Medi – dymuniadau gorau i chi fel teulu!

**Pen-blwydd Arbennig**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Beryl Roberts (11 Erw Wen) wedi iddi ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Clwb Garddio**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref prynhawn dydd Mawrth 8fed o Hydref. Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Rhiannon Owen. Estynnwyd croeso cynnes i'r deg aelod newydd sydd wedi ymuno a'r clwb. Anfonwyd cofion at Iona Williams sydd wedi treulio cyfnod o amser yn yr ysbyty.

Ein siaradwr gwadd oedd Mel o Ganolfan Arddio Fron Goch.

Testun ei sgwrs oedd bylbiau gellir eu plannu ar gyfer rhoi lliw yn y gwanwyn mewn potiau, yn y pridd neu yn y lawnt.

Cafwyd syniadau am ba fylbiau i blannu gyda'i gilydd mewn potiau. Awgrymodd y dylem ystyried plannu alliums yn hytrach na tiwlips mewn pot. Mae dail y tiwlip yn fawr ac yn gallu amharu ar dyfiant y bylbiau eraill. Gellir hefyd blannu blodau unflwydd ar ben y potyn i roi lliw nes mae'r bylbiau yn ymddangos.

Gellir plannu bylbiau yn y lawnt a'i gadael i naturioli. Mae cennin pedr bach, crocws, cyclamen ac iris bach yn ddelfrydol.

Cawsom gyfarwyddiadau ar ba ddyfnder y dylid plannu'r bylbiau ac i beidio torri'r dail ar ddiwedd y cyfnod blodeuo.

Diolchwyd i Mel am sgwrs hynod o ddifyr gan Rhiannon Owen.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar brynhawn dydd Mawrth 12fed o Dachwedd am 1.00pm yng Nghapel Caeathro. Ein siaradwr gwadd bydd Neil Alcock, Meithrinfa Seiont a bydd yn siarad am blanhigion y dyfodol. Croeso i aelodau newydd ymuno â ni.











# PROSIECT 5 MIL GWYRDDNI

....nid y gyfres deledu!



Ysgol Bethel + Tyddyn Teg

**Mae GwyrddNi Dyffryn Peris eisiau cefnogi grwpiau cymunedol a thir-feddianwyr i ddatblygu prosiectau cynaladwy o themau Cynllun Gweithredu Hinsawdd Dyffryn Peris**

**Ydych chi angen cyngor, offer, hyfforddiant, digwyddiad neu rywbeth arall i symyd eich syniad yn ei flaen?**





Llun : Y Festri, Llanberis

**Gallwn eich cefnogi gyda gweinyddu, ymchwilio, rhwydweithio, eli pen-elin a phrynnu adnoddau, gwerth hyd at £5,000.**

Cysylltwch gyda Lowri am sgwrs.
Cnoc ar y drws - llawr gwaelod, Caban, Brynrefail
lowri@deg.cymru
www.gwyrddni.cymru/dyffryn-peris/

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

# Ysgol Brynrefail

**Teithiau cerdded blwyddyn 7 yn yr ardal**
Dyma ddisgyblion blwyddyn 7 yn mwynhau taith gerdded o amgylch yr ardal yn ddiweddar. Fel rhan o'u gwaith am eu cynefin, maen nhw wedi bod yn astudio llefydd diddorol yn yr ardal ac yn gwylio rhaglen boblogaidd 'Am Dro' am ardal Llanberis. Eu her yn dilyn mynd ar y daith gerdded fydd llunio taith ddiddorol eu hunain yn ddigidol. Rydym yn dysgu am bwysigrwydd enwau lleoedd, strydoedd, tai, caeau, bob math o bethau yn yr ardal er mwyn gnweud yn siŵr fod yr enwau Cymraeg yn aros.





**Cynhadledd a Chystadleuaeth COPA1**
Gosodwyd her unigryw i ddisgyblion Bl.8 a 9 cyn yr haf i gyflwyno eu 'syniad mawr' o ran sut y gallen nhw gyfrannu tuag at lunio dyfodol Yr Wyddfa, a sicrhau bod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddi-blastig! Derbyniodd y parc ddegau o fideos yn cyflwyno syniadau a chafodd 14 o ddisgyblion Brynrefail eu dewis i fynd ymlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth. Cawson nhw'r cyfle i fynychu cynhadledd COPA1, cynhadledd amgylcheddol ieuenctid gyntaf Gymru a gafodd ei chynnal ar Yr Wyddfa! Roedd hwn yn gyfle iddynt gyflwyno eu syniad o flaen panel o feirniaid adnabyddus, yn ogystal â chael taith i fyny ar y trên i gopa'r Wyddfa. Rydym yn falch iawn o'u llwyddiant a llongyfarchiadau mawr i Mei, Ryan ac Owen am gipio gwobr y categori 'syniad arloesol'. Maent yn derbyn £1,500 i wireddu eu syniad a chyflawni'r prosiect.



**Bore Coffi Macmillan**
Bu'r Prif Ddisgyblion a rhai o ddisgyblion y chweched dosbarth a blwyddyn 11 yn brysur iawn yn codi arian at elusen Cefnogaeth Canser Macmillan y mis hwn. Bu criw blwyddyn 11 wrthi yn pobi ac yn addurno'r cynnyrch ben bore cyn gwerthu'r cwbl i ddisgyblion yr ysgol yn ystod amser egwyl. Yn y cyfamser bu criw'r chweched wrthi'n gwerthu cacennau a gweini paneidiau i staff yr ysgol yn y neuadd.

Gwelwyd ymdrech wych gan y disgyblion a swm parchus iawn o £300 yn mynd tuag at yr elusen. Da iawn nhw!











**Eisteddfod Ysgol Brynrefail**
Mae'r trefniadau ar y gweill ac erbyn i'r rhifyn yma o'r Eco gael ei gyhoeddi mi fydd Eisteddfod Ysgol Brynrefail wedi digwydd (cewch luniau a'r hanes yn rhifyn nesa'r Eco).

Un o brif gystadlaethau'r eisteddfod ydy Cystadleuaeth y Gadair ac yn y llun mi welwch y Neuadd yn orlawn ar y diwrnod pan oedd y disgyblion hŷn yn cael cyfle i lunio eu hymgais nhw am y gadair. Daeth 107 ohonynt i ymgeisio am y brif wobr lenyddol! Gwych – a phob lwc i bawb!

# BYLCHAU

Rydan ni'n byw mewn ardal sy'n llawn bylchau. Yr un amlwg ydi Bwlch Llanberis, sy'n galluogi'r daith o Gaernarfon i Ben-y-Gwryd. Heb y Bwlch a'r ffordd, fe fyddai taith hir naill ai trwy Nant y Betws i Feddgelert a Phen-y-Gwryd neu trwy Nant Ffrancon i Gapel Curig a Phen-y-Gwryd, fel sy'n digwydd yn rhy aml pan fo dyfroedd yn crynhoi wedi glaw mawr ger Gardda Bach yn Nantperis. Wedi blynyddoedd o ymbil, dal i wrthod rhoi peipan fwy neu ychwanegol o dan y ffordd y mae Cyngor Gwynedd. Yn yr hen ddyddiau, cyn lledu'r ffordd wedi cau'r Chwarel a chreu gorsaf bwer yn Ninorwig yng nghrombil Elidir Fawr, roedd na gwter fawr o dan y ffordd, digon mawr i ni yn blant fynd trwyddi ar ein pedwar. Prin oedd y llifogydd bryd hynny, onibai fod y cof yn pallu.

Ond sôn yr oeddwn am fylchau. Dyna chi Fwlch Maesgwm, oedd mor bwysig unwaith i gysylltu ardal Llyn Cwellyn a Dyffryn Peris. Bellach, dan bwysau ymwelwyr cafodd ei wella, ac mae bron fel ffordd rhwng y ddau ddyffryn, wedi ei addasu ar gyfer beicwyr a cherddwyr, yr hyn yn nhyb llawer sy'n or-ddatblygiad. Mae na nifer o fylchau eraill tra derbyniol: yr hen ffordd o Lanberis i'r Waun-fawr trwy Fwlch y Groes; llwybrau o'r Nant i Lyn y Cŵn, rhwng y Garn a'r Glyderau; a thrwy Fwlch Brecan eto o'r Nant i Nant Ffrancon. Llwybrau a fu mewn oes a fu'n ddefnyddiol tu hwnt, ac sydd â rhyw ramant yn perthyn iddyn nhw, ac sy'n dal i gael eu tramwyo gan gerddwyr a mynyddwyr o ran pleser heddiw. Meddai'r diweddar John Roberts a fu'n weinidog yng Nghaernarfon: *'Rhowch i mi fwlch, a thrwyddo ef / Rhyw ddarn o ddyfnach glas na'r nef'.*

Ond mae na fylchau eraill. Dewch yn ôl at y Bwlch a'r ffordd i ben Gorffwysfa, yr A4086, ffordd bwysig fel yr awgrymais eisoes. 'Does gen i ddim cŵyn am y ffordd; ond y tro nesa y byddwch yn teithio arni edrychwch mewn difri ar gyflwr y waliau. Nid sôn yr ydw i am fwlch neu ddau, ond am fylchau dirifedi. Prin fod yna ganllath o wal gyfan ar y chwith, ar y ffordd i fyny, ac mae diffygion digon aml ar yr ochr arall yn ogystal.

Mae Eryri yn nodedig am ei waliau cerrig sy'n nadreddu ar draws y llethrau a'r gwaelodion: waliau ag ôl ymdrech yn eu gwneuthuriad a'u lleoliad. Dywedir am un wal yn y Nant yma i rywun unwaith ei disgrifio fel 'Wal am oes', ond i'w hadeiladwr anghytuno'n ffyrnig a dweud, 'Na, ma hon yn wal am byth!' Unwaith, roedd waliau'r Bwlch hefyd yn ymddangos felly ac yn werth eu gweld, yn wead cerrig rhyfeddol a godwyd gan grefftwyr, ond nid mwyach. Dywed y bardd-bregethwr Gwilym Tlsley, a fu hefyd un amser yn weinidog yng Nghaernarfon, yn ei awdl *Cwm Carnedd*, a enillodd iddo gadair Eisteddfod Genedlaethol Llangefni, 1957, *'Pob wal gadarn yn garnedd, a'r bonc mor dawel â'r bedd'.* Hanes anobaith sydd yn y gerdd, hanes dirwasgiad a diweithdra yn sgîl cau'r chwareli, ac am goedwigo a diboblogi. Wel, mae cyflwr waliau Bwlch Llanberis fel rhywbeth o'r trydydd byd, a disgrifiad Tilsley yn berffaith.

'Does wybod beth mae'r miloedd o ymwelwyr sy'n mentro'u bywydau wrth gerdded y ffordd yn ei feddwl. Dyma yn ddiamau un o'r cymoedd harddaf a mwyaf trawiadol yn Eryri, heb ei ail, ond y waliau'n llanast llwyr ac yn ddolur llygad. Gwnaed mwy nag un apêl yn y gorffennol i Gyngor Gwynedd, sydd â chyfrifoldeb am ein ffyrdd, ac i Awdurdod y Parc sydd â chyfrifoldeb i wella harddwch yr ardaloedd, i gau'r bylchau. Plediodd y ddau dlodi ac 'nid ni sy'n gyfrifol'.

'Does neb wedi cau'r un bwlch ers blynyddoedd, ac mae gen i syniad go lew fod llawer o gerrig y wal wedi diflannu, wedi eu cario oddi yno, i addurno gerddi yn rhywle ymhell tu draw i'r Bwlch; ac felly y bydd hi os na wnaiff rhywun rywbeth, a hynny'n o fuan. Tydi côn coch a gwyn ddim yn cymharu â wal gadarn. A pham y rheini i atal parcio? Pam nad llinellau dwbl melyn? Dowch; mi fedrwn ni wneud yn well na hyn.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cysylltedd Digidol Gwledig
Rural Digital Connectivity

Ydych chi'n cael trafferth gyda chysylltedd rhyngrwyd cartref neu yn y gwaith yng Ngogledd Cymru?

'Rydym yma i ddarparu cymorth ac arweiniad i chi

www.cysylltedd.cymru
01248 725700 / 07485 923735

ymholiadau@cysylltedd.cymru
/cysylltedd_digidol_gwledig
/CDigidolGwledig

**Sganiwch y côd QR** i lawrlwytho'r canllaw digidol.

Bwriad y prosiect yma yw gwella cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwledig, gan sicrhau fod gan bawb fynediad i ryngrwyd sy'n ddibynadwy. Ein nod yw pontio'r bwlch digidol a gwella ansawdd bywyd trigolion Gogledd Cymru.

Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales · Conwy · Sir Ddinbych Denbighshire · Sir y Fflint Flintshire · Gwynedd · Wrecsam









## LLANDDEINIOLEN

**Eglwys Sant Deiniol Llanddeiniolen**

Cynhaliwyd yr Hwyrol Weddi ddydd Sul, 6ed Hydref, dan ofal y Canon Naomi Starkey. Diolchwn am y rhoddion o lysiau a ffrwythau a dderbyniwyd ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch hwn ac am y casgliad arbennig o £100 tuag at drueiniaid Lebanon a'u hanifeiliaid anwes a adawyd yn amddifad wedi'r heldrin.

Bydd y Gwasanaeth nesaf – Dygwyl y Meirw ar y Sul, 3ydd Tachwedd am 3 o'r gloch. Derbynnir enwau anwyliaid i fod yn rhan o'r Gweddïau gan Ceridwen Williams. Cyfunir y Gwasanaeth hwn â Sul y Cofio pryd y cyrchir tuag at y Gofgolofn yn y Fynwent.

Gwasanaeth y Sul 1af Rhagfyr am 3 o'r gloch "Carolau'r Adfent".


Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA



☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*



Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com


# Llinos yn dod nôl i'r gogledd: Ysgol Feddygol Bangor eisoes yn cadw doctoriaid yn yr ardal

**Ers cael ei hethol i'r Senedd yn 2016, mae Siân Gwenllian wedi ymgyrchu am Ysgol Feddygol i hyfforddi meddygon yn ei hetholaeth yn Arfon. Yn ôl yr AS, mae'r ysgol ym Mangor eisoes yn gwneud gwahaniaeth, gydag un o'i hetholwyr yn dychwelyd i'r ardal i astudio.**






Yn ôl Siân Gwenllian "Mewn taflen a ddosbarthwyd yn fy enw yn 2016 nes i ymrwymo i ymgyrchu dros hyfforddi meddygon a gweithwyr iechyd ym Mangor. Yr union eiriau oedd: *'Fe fyddwn i'n ymladd i gael Ysgol Feddygol yn yr ardal i hyfforddi pobl ifanc lleol i weithio fel doctoriaid a gweithwyr iechyd eraill yn ein hysbytai lleol a'n cymunedau.'*

"Dwi'n eithriadol o falch bod yr addewid hwnnw wedi'i gyflawni a bod Ysgol Feddygol Gogledd Cymru wedi agor yn swyddogol yr wythnos ddiwethaf.

"Rydan ni eisoes yn gweld manteision yr ysgol honno, a dwi wedi cwrdd â llawer o etholwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau yng Nghaerdydd ond sy'n dod adra i gwblhau eu hyfforddiant ym Mangor.

"Yn eu plith mae Llinos Haf Roberts o Ddeiniolen.

"Mae'n enghraifft berffaith o'r dadleuon ro'n i'n eu gwneud dros yr Ysgol Feddygol yr holl flynyddoedd yna'n ôl; y gallen ni, drwy sefydlu Ysgol Feddygol ym Mangor, hyfforddi meddygon a fyddai'n aros yn y gwasanaeth iechyd lleol, gan wella mynediad i bobl leol.

"Hefyd, trwy gynnig addysg feddygol ym Mangor, mae'n golygu ein bod ni'n colli llai o'n pobl ifanc i brifysgolion a dinasoedd eraill fel Caerdydd."

**Daw Llinos Haf Roberts o Ddeiniolen, ac ar hyn o bryd mae ar leoliad yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Yn ôl Llinos:**

"Nes i ddechrau astudio'r cwrs Meddygaeth yng Nghaerdydd, ond mae mor braf dod yn ôl i ogledd Cymru i gwblhau fy astudiaethau.

"Mae'n bwysig bod gan fyfyrwyr yr opsiwn i astudio'n lleol – dydi pawb ddim isio symud i ffwrdd.

"Hefyd, y gobaith yw y bydd hyfforddi meddygon ym Mangor yn gwella gwasanaethau yn y gogledd orllewin. Mae'r ardal yn gymysgedd o gymunedau gwledig a threfol, ac mae ganddi anghenion penodol iawn. Mae'r elfen ieithyddol hefyd, wrth gwrs.

"Trwy hyfforddi meddygon yn Arfon fe allwn ni greu gweithlu sy'n deall anghenion yr ardal yn iawn."




FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

# Un funud fach ...

## MR McGUFFIN

Unwaith yn unig y bûm i'n gwylio'r Grand Prix yn Silverstone. Mi wnes i fwynhau'r diwrnod yn fawr er i ni, os cofiaf yn iawn, ddod oddi yno heb fod yn gwbl sicr pwy enillodd y ras! Roedd hynny cyn dyddiau'r rhyngrwyd a'r ffonau clyfar, a phan oedd tocynnau mynediad gryn dipyn yn rhatach. Dwi ddim yn cofio faint dalon ni.

Fis Mai, cafodd William McGuffin weld y Grand Prix ym Miami. Fu dim rhaid iddo dalu am docyn gan iddo'i ennill mewn cystadleuaeth neu raffl: un o dros ddeugain (hyd yma) a drefnwyd dros y misoedd diwethaf er budd ymgyrch etholiadol Donald Trump. Yr hyn sy'n gwneud Mr McGuffin yn arbennig ydi'r ffaith mai fo ydi'r unig enillydd a gyhoeddwyd i'r un ohonyn nhw. (A bod yn deg, cyhoeddwyd llun enillydd honedig un raffl arall, ond heb ei enwi.) Golyga hynny bod o leiaf 39 raffl na ŵyr neb pwy a'u henillodd, sy'n awgrymu nad oes wobr ar gyfer y mwyafrif ohonyn nhw. Nid bod hynny'n syndod chwaith gan mai'r un, yn ôl pob tebyg, oedd y stori yn ystod ymgyrch 2019 Trump.

Os gwir yr awgrym nad oes i'r rafflau nac enillydd na gwobr, twyll ydi'r cyfan. Ond y peth rhyfedd ydi na fyddai hynny'n poeni dim ar fwyafrif cefnogwyr Trump. Fwy na thebyg y bydden nhw'n amddiffyn ei hawl i wneud a fynno. O bosib y byddai llawer yn ei chyfri'n fraint cael eu twyllo gan y dyn os byddai hynny'n ei helpu i ennill yr Etholiad! Ond pam, mewn difri, fyddai neb yn dewis cael ei dwyllo? Pam fyddai neb yn dewis bod ar ei golled trwy anwybyddu tystiolaeth amlwg?

Peth ofnadwy yw twyll, fel y gŵyr unrhyw un a fu'n ysglyfaeth iddo ac a gollodd arian ac eiddo neu gyfeillgarwch a hunan barch. Pwy ddewisai beth felly? A pheth ofnadwy hefyd ydi twyll crefyddol; ond mor barod ydi llawer i ildio'n ddi-gwestiwn i hwnnw. Mor barod i gofleidio'r gred nad oes Duw. Rhan o'r twyll wrth gwrs ydi'r syniad mai 'ffaith' ac nid 'cred' ydi'r argyhoeddiad nad oes Duw. 'Credu' wna'r anffyddiwr hefyd; credu nad oes Duw. Fedr y crediniwr ddim profi bod Duw, ond fedr yr anffyddiwr chwaith ddim profi'n wahanol. Mater o gred yw hi i'r naill a'r llall.

Ac o gredu nad oes Duw, mor barod i gredu nad oes Greawdwr i ddiolch iddo nac Arglwydd i blygu o'i flaen. Nad oes bechod i'w gydnabod na drygioni i gefnu arno. Nad oes Waredwr i'w gofleidio nac Efengyl i'w hanwylo. Nad oes faddeuant i'w brofi na chymod i'w groesawu. Nad oes gyfraith i'w chadw na chariad i'w drysori. Nad oes nefoedd i'w cheisio nac uffern i'w hosgoi.

Ond mae'r Testament Newydd yn ein rhybuddio rhag twyll pellach na hynny hyd yn oed. 'Oherwydd aeth twyllwyr lawer allan i'r byd, y rhai nad ydynt yn cyffesu bod Iesu Grist wedi dod yn y cnawd; dyma'r twyllwr a'r Anghrist' (2 Ioan 1:7). Gwyliwn rhag y twyll hwnnw hefyd; rhag y gred bod Iesu Grist yn llai na 'Duw wedi dod i'r byd yn ddyn'.

Mor rhwydd yw cymryd ein twyllo heddiw nid yn unig gan bobl eraill ond gan wendid allanol yr Eglwys a'r dystiolaeth Gristnogol yn ein gwlad. Rhag rhuthro i gymryd ein twyllo gan yr allanolion hyn, mynnwn edrych a gwrando ar dystiolaeth y Beibl i'r cyfan.

**JOHN PRITCHARD**




# Ymdrech arbennig

Gydol mis Mai eleni, bu Malcolm Pitts o Lanrug yn codi arian er cof annwyl am wraig a mam a gollodd ei bywyd yn gyn-amserol i gancr. Mae Malcolm wedi gwneud hyn yn flynyddol dros y deunaw mlynedd diwethaf, a bellach wedi codi rhai miloedd o bunnoedd i gofio am Yvonne. Eleni, beiciodd dros 800 o filltiroedd a nofio 10 milltir. Fe'i noddwyd yn yr ymdrech gan deulu, ffrindiau a'r gymuned leol. Ei amcan yw codi ymwybyddiaeth o'r gwaith anhygoel a wneir gan yr Uned Gofal Cancr yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Mae'r arian a gasglwyd ganddo yn mynd i brynu offer ychwanegol tuag at waith yr Uned, ac y mae Malcolm wastad yn canmol i'r eithaf y gofal a dderbyniodd Yvonne yno, a'r gofal a roddwyd ac a roddir i gleifion eraill dros y blynyddoedd.

Eleni, llwyddodd Malcolm i godi £1,210, a phenderfynodd rannu'r arian fel a ganlyn: £600 i Uned Gofal Cancr Ward Alaw, a £305 yr un i'r Uned Gofal Brys a Ward Conwy am eu gwaith arbennig hwythau. Does ganddo ond canmoliaeth i waith yr holl feddygon a nyrsus yn y tair adran. Mae'r lluniau'n dangos Malcolm yn cyflwyno sieciau i'r tair adran wahanol. Dymuna ddiolch o galon i bawb a'i cefnogodd yn ei ymdrech flynyddol, a'r gobaith yw y bydd yn gallu gwneud hyn eto'r flwyddyn nesaf.




Gyda'r Chwaer Karen Miller a nyrsus Ward Conwy.




Gyda'r Chwaer Lynn Roberts o'r Uned Brys.




Gyda'r Chwaer Jen Owen, Uned Cancr Alaw.



# CHWILAIR MIS TACHWEDD - ADAR YSGLYFAETHUS!

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | C | B | O | D | I | N | Dd | A | D | Y | S | Ô | L | G |
| O | U | R | M | A | E | R | Y | R | E | U | R | A | I | D |
| M | D | S | N | U | B | O | D | Y | M | Ê | L | Ch | F | N |
| A | Y | C | F | E | G | N | E | W | N | I | T | D | O | B |
| E | Ll | I | P | D | T | Dd | H | Y | F | A | N | W | E | T |
| T | B | H | Ll | O | R | S | E | R | Y | R | Y | M | Ô | R |
| Th | A | C | N | W | B | A | R | C | U | D | C | O | Ch | U |
| R | Ch | D | E | C | U | D | Y | Ll | C | O | Ch | F | G | Ê |
| A | E | G | W | A | L | Ch | G | L | A | S | T | P | A | C |
| M | B | L | O | H | E | B | O | G | T | R | A | M | O | R |
| Ch | G | U | S | R | D | I | B | A | D | A | C | I | S | L |
| L | B | O | D | Y | G | W | E | R | N | I | Y | N | Y | S |
| A | N | S | B | A | R | Y | H | G | E | I | R | W | Ll | E |
| W | T | U | E | S | B | O | D | B | A | C | S | I | O | G |
| G | W | A | L | Ch | Y | P | Y | S | G | O | D | M | Ê | L |

Dydy pob un o'r rhain ddim i'w gweld yn aml yng Nghymru - ymwelwyr yn unig ydynt, er bod tymor rheiny wedi dod i ben, mwy neu lai.

Cofiwch gallwch weld rhai ohonynt ym mro'r Eco. Mae'r Gwalch Glas wrth ei fodd yn ymweld â'r ardd acw i gael gwledda ar yr adar bach fyddwn ni'n eu bwydo. Os edrychwch i fyny bydd Bwncath neu ddau i'w gweld yn mewian ar ei gilydd yn uchel yn yr awyr. Mae ambell i Farcud Coch wedi bod o gwmpas, ond dim ond un yn achlysurol hyd yma, croesi bysedd y bydd pâr neu fwy yn dod draw rywbryd a magu teulu yma.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.



**BARCUD COCH**
**BOD BACSIOG**
**BOD TINWERN**
**BOD Y GWERNI**
**BOD Y MÊL**
**BWNCATH**
**CUDYLL BACH**
**CUDYLL COCH**
**ERYR Y MÔR**
**ERYR EURAID**
**GWALCH GLAS**
**GWALCH MARTH**
**GWALCH Y PYSGOD**
**HEBOG TRAMOR**
**HEBOG YR EHEDYDD**

**GEIRFA I'R DYSGWYR - LEARNER'S VOCABULARY**

Barcud Coch - *Red Kite*
Bwncath - *Common Buzzard*
Gwalch Glas - *Sparrowhawk*
Bod Bacsiog - *Rough-legged Buzzard*
Cudyll Bach - *Merlin*
Gwalch Marth - *Goshawk*
Bod Tinwen - *Hen Harrier*
Cudyll Coch - *Kestrel*
Gwalch y Pysgod - *Osprey*
Bod y Gwerni - *Marsh Harrier*
Eryr y Môr - *White-tailed Eagle*
Hebog Tramor - *Peregrine*
Bod y Mêl - *Honey Buzzard*
Eryr Euraid - *Golden Eagle*
Hebog yr Ehedydd - *Hobby*

## CHWILAIR MIS HYDREF - GRWPIAU POP

Gawsoch chi gyfle i wrando/gwylio cerddoriaeth fyw dros yr haf? Pa grŵp neu grwpiau fyddwch chi'n hoffi gwrando arnynt? Dyma rai sydd i'w clywed ar y radio ac wedi bod wrthi'n gigio'n brysur dros fisoedd yr haf.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | S | E | R | O | L | S | E | R | O | L | C | Ch | U | A |
| Y | E | M | A | N | Ŵ | B | R | O | D | Y | M | E | Ll | T |
| N | D | H | R | N | D | E | W | I | B | R | T | S | W | P |
| W | F | E | A | L | Ff | A | Dd | Y | L | O | I | G | D | Y |
| A | R | M | H | P | E | D | E | N | O | G | C | W | M | C |
| R | I | S | O | F | Ph | L | T | O | D | R | N | I | O | D |
| Y | S | C | P | A | P | U | R | W | A | L | Ŵ | L | Y | C |
| R | B | A | L | D | E | S | E | Ll | U | I | O | Y | S | A |
| O | E | T | U | W | R | L | A | Y | P | R | E | M | T | N |
| D | E | A | Ng | A | Y | O | D | Th | A | C | N | W | B | D |
| S | U | T | P | I | N | G | R | M | P | Th | B | S | A | E |
| F | Ff | O | M | Th | D | S | A | Dd | U | F | R | D | U | L |
| T | F | N | S | I | U | Y | C | H | R | O | M | A | N | A |
| E | R | I | D | A | F | L | E | U | R | D | E | L | Y | S |
| Ph | D | A | T | B | L | Y | G | I | A | D | Y | Dd | A | I |

ADWAITH
ALFFA
BLODAU PAPUR
BWNCATH
CANDELAS
CATATONIA
CHROMA
COLORAMA
DATBLYTIAD
EDEN
FLEUR DE LYS
FRISBEE
GWILYM
MELLT
PAPUR WAL
PLU
SEROL SEROL
SŴNAMI
YR ODS
YSGOL SUL


## Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn



Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn,** Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £7 neu gost prif gwrs a phwdin yn £10 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost megan@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru

## *Y GENEDL GYMREIG*

*Dydd Mercher Medi 24, 1890*

## *CYMDEITHAS ADEILADU NANT PADARN.*

£11609.0 0 GOLLED DRWY DWYLL.
CYFARFOD TORCALONNUS Y CYFRANDDALWYR.

Prynhawn Sadwrn diweddaf, am bedwar o'r gloch, drwy wahoddiad cyhoeddus, cyfarfu aelodau'r gymdeithas uchod yn y Concert Hall, i'r diben o wrandaw darlleniad adroddiad o sefyllfa gyllidol y gymdeithas. Pan yn myned i'r neuadd gafaelwyd yn mraich ein gohebydd gan Mr John Griffith, Glanllyn, yr hwn a'i hataliodd rhag mynychu yr adeilad. Er fod Mr Griffith yn gwneud ei waith fel ceidwad y drws, teg yw mynegi mai ar orchymyn ei gyd-ymddiriedolwyr y cynghorwyr y gweithredai efe. Yna anfonodd ein gohebydd nodyn at y cadeirydd yn erfyn arno ofyn barn y cyfarfod ar y cwestiwn o ganiatáu gohebwyr. Fel y atebaist yn ddiweddarach, anogai'r Parch J. E. Owen na fod caniatâd i ohebwyr y newyddiaduron gael dyfod i mewn i gymryd adroddiad teg o'r gweithrediadau, gan fod yn fwy na' thebyg nas gallasid cadw'r ffeithiau'r achos rhag myned i'r wasg, ac y byddai adroddiad helaeth a chywir gan ohebydd cyfrifol yn llawer amgen nag adroddiadau amherffaith gohebwyr lleol.

Ond ar anogaeth y cadeirydd, Mr D. P. Williams (yr hwn, teg yw hysbysu, a lanwai'r gadair ar anogaeth daer cadeirydd y pwyllgor, ac ar gymhelliad y cyfarfod), penderfynwyd nad oedd caniatâd i'r gohebydd i fynd i mewn a gofnodi'r gweithrediadau. Amlygodd rhai o'r aelodau awydd am gael yr adroddiad yn argraphodig gan nas gallasent wneuthur mawr ohono mewn darlleniad. Cymeradwyai Mr John Davies (Gwyneddon) y syniad hwnnw, ac anogi ei argraffu a'i ledaenn rhwng yr aelodau: ond eto rhagwelai'r cadeirydd lawer o beryglon yn hynny pe yr elai yna gyfreithio, a gwasgai yn gryf ar argraffu dim ond *balance sheet* o'r cyfrifon yn unig, a chytunwyd felly.

**YR YMCHWILIAD**

Yn fuan wedi marwolaeth Mr David Jones (Dewi Padarn), hen ysgrifennydd y gymdeithas, gwelodd yr ysgrifennydd newydd, Mr Job Owen, fod llyfrau y gymdeithas mewn ystâd ddyrys ac anfoddhaol. Wedi deall hynny penderfynodd yr ymddiriedolwyr, sef Mr Griffith Jones, Mount Pleasant (yr hwn hefyd yw trysorydd y gymdeithas); Mr John Griffith, Glanllyn Mr William Rowlands, Victoria Villa a Mr Thomas Currig, mai y peth doethaf ellid gwneud oedd rhoddi'r llyfrau i'w harchwilio, ac ymddiriedwyd y gorchwyl i Mr R.W. Thomas, *accountant*, Lerpwl. Dechreuodd Mr Thomas ar ei waith yn mis Mai diwethaf, a tra yn archwilio ac yn trefnu ei lafur ei hun heb ond ychydig ball hyd nos Sadwrn diweddaf.

Yr oedd pryder mawr yn yr ardal ar hyd y misoedd; esgorwyd ar ddychmygion lawer, ond ni ''ddychmygwyd yr hanner." Cymerodd Mr Thomas oddeutu dwy awr a hanner i ddarllen ei adroddiad. Ofnid cyn y cyfarfod rhag i terfysg dorri allan gan fel y bygythiai gwan a chryf, eithr wedi gwrandaw ar y fath doreth o gynllwynion a thwyll, ac yn enwedig yr ysbail, ymddengys i ysbryd y bobol syrthio fel nad oedd ynddynt nerth na thuedd i lefaru gair. Paham na fuasech yn gofyn ychydig gwestiynan i'r cyfarfod," ebe ein gohebydd wrth un o'r aelodau, a'r ateb a gafod oedd, ''Tarwyd fi a mudandod nid oedd yr un gofyniad yn cynnig ei hun i mi, er y caraswn gael goleuni ar lawer o bethau."

**CNEWYLLYN YR ADRODDIAD**

Dyma gnewyllyn yr adroddiad fel y cefais ef gan aelod parchus a deallus o'r gymdeithas Er cymaint o ffigyrau a ddarllenodd Mr Thomas, ac fo roddodd ugeiniau o esiamplau o dwyll, ofer fyddai i un dyn feddwl am eu hysgrifennu na'u cofio; ond credaf y gellir rhoddi *pith* yv pethau a grynhodd efe fel hyn

1. Fod cynllun y gymdeithas yn un di- drefn, penagored a hawdd iawn ei gam ddefnyddio er twyllo a chamarwain.
2. Fod llyfrau y diweddar ysgrifennydd yn grytiswth o aflerwch, anhrefn, anghysondeb a thwyll, wedi eu cyfrodeddu yng nghyd er ateb pwrpas niweidiol i feddiannau'r gymdeithas.
3. Fod colledion ariannol y gymdeithas yn cyrraedd y swm anferth o un fil ar ddeg a phum cant a naw o bunnau (£11,609), neu oddeutu deugain punt (40p) y cant, yr hwn golled a syrth yn gyfan gwbl ar y gyfran-ddalwyr, sef y bobl hynny a dderbynient bum punt y cant o log ar eu harian.
4. Fod llyfrau y trysorydd (Mr Griffith Jones) yn anghywir, yr hwn hefyd a ymddiriedasai ormod yn yr ysgrifennydd, ond caed ei fod ef ei hun wedi ymddwyn gyda gonestrwydd llwyraf.
5. Fod yr archwilydd blynyddol (y Parch John Owen Jones) wedi ei gamarwain yn ddybryd gyda set ffugiol o docynnau aelodaeth.
6. Mai teg oedd mynegi na chafodd Mr Thomas le i amheuo yn y modd lleiaf gonestrwydd neb o swyddogion y gymdeithas, oddieithr y diweddar ysgrifennydd.
7. Fod traul yr archwiliad ychydig dros ddau gant a hanner (250p) o bunnau.
8. Cyn y gellir dwyn y gymdeithas i drefn a llwyddiant, fod yn rhaid ei hadsefydlu ar gynllun newydd, gyda Llyfrau a phopeth arall o'r newydd.
9. Fod y golled yn cael ei wneud i fyny fel v canlyno :-

| | | |
|---|---|---|
| **Swm y golled ddiwedd Mehefin** | **1889** | **£9464 3s 8c** |
| **Eto** | **1890** | **£9363 13c 6c** |
| **Ychwanegir at yr achos swm y drysorfa neillдnedig yn ol yr adroddiad diweddaf** | | **£1110 2s 10c** |
| **Eto yr enillion oedd yn aros heb eu rhann** | | **£835 14s 7c** |
| **Cyfanswm Y golled** | | **£11,609 11s 0c** |

**BETH AR OL HYN?**

Derbyniwyd adroddiad Mr Thomas mewn distawrwydd a dagrau. Wedi hyny Iluosogwyd y pwyllgor fu yn gweithredu hyd yma yn yr achos drwy benodi person neu ddan o'r gwahanol ardaloedd i gydweithredu ag ef. Sylwodd y cadeirydd mai gwaith cyntaf y pwyllgor fydd ystyried yr adroddiad a dwyn cynllun o'r dull effei thiolaf i weithredlu o hyn allan. Gelwir ar gyfatfod o'r aelodau yn mhen y pythefnos nesaf.

**BETH A DDYWED Y CYHOEDD?**

Yn ystod fy ymweliad a Llanberis, gelwais gydag un neu ddau o foneddigion y tybiwn oedd yn meddu barn led glir a gwybodaeth ar y mater. Yr wyf yn cadw yr enwau allan am reswm eglur, ond y mae cymeriad a safle y gwyr hyn yn yr ardal yn warantiad dros degwch a chywirdeb eu sylwadau, Rhoddwch ychydig o hanes personol yr hen ysgrifennydd' eba fi wrth fonheddwr, " o gyda'r modd y llwyddodd efe i ddallu swyddogion ac eraill. Mae'r prif ffeithiau amdano yn hysbys i bawb," ebe yntau "Brodor oddiyma oedd David Jones, chwarelwr wrth ei alwedigaethh. Nid oedd dim yn neillduol ynddo pan yn llanc. Priododd yn lled ifanc gyda chwaer diweddar Dewi Arfon. Ni bu yn fawr o grefftwr erioed, ac ni bu un am enill cyflog da. Yr oedd ynddo allu i gyfrif ffigrau yu mhell uwchlaw ei gydweithwyr, a chyda'r amrywiol ddonniau hyn llwyddodd i gael y Swydd o ysgrifenydd Clwb Adeiladu Nant Padarn ar sefydliad y gymdeithas. Bu iddo dri o blant, dau fab a merch, Y mae ei fab hynaf yn fasnachydd yn y lle hwn, a'i fab ieuengaf, Mr David D. Jones, yn dwrne newydd ddod allan o'i btentisiaeth. Dywedir fod traul addysg a chrefft y twrne wedi rhedeg i fyny yn rhywle oddeutu mil o bunnau. Efe (y tad) a arferai ag ymffrostio mewn datguddio cyfrinach o'r fath yma wrth ei gyfeillion.

"A oedd efe yn cael cyflog mawr gan y Clwb Adeiladu?" gofynnwn.

O dear! Nag oedd. Apeliodd am godiad yn ei gyflog unwaith neu ddwy, a chafodd hynny, eithr nid oedd ar y diwedd yma ond yn rhywle oddeutu hanar cant o bunnau yn y flwyddyn, efallai hefyd yr enillai efe ar gyfartaledd dyweder o ddwy i dair punt yn y mis yn y chwarel. '' Arian baco'' yr arferai efe a galw ei gyflog chwarel." '' Ac eto yr oedd yn amlwg arno ei fod yn dod ymlaen yn y byd," ebe fi. Oedd; sylwai pawb arno fod y byd yn rhedeg gydag ef fel lli'r afon.' Cyn hir dechreuodd brynu tai, a chododd dy iddo ei hun. Wedi hynny prynodd y tŷ a'r shop eang a elwir Bodbndeb, ac aeth yno i fyw gyda'i fab hynaf, Mr Richard D. Jones.

**POPETH I BAWB**

"Yr oedd ers blynyddoedd bellach yn arferol a gwneud ei hun yn bopeth i bawb-efe arferai a gweithredu yma gyda chyngherddau'r ardal cyngherddau elusennol, a pharai ei weithredoedd elusennol ynglŷn i'r cyfarfodydd hyn a phethau eraill syndod nid bychan. Nid yw foddlonai heb i gyng berddau alusenol wneyd o ugain i bump a dod ar hugain o bunnoedd o elw i bersunau, a chan ei fod yn ŵr mor hael ac ewyllysgar ei gymwynas gallai gael gan bawb weithio gydag ef; ac os na ddelai yr elw i fyny at y marc a osodasai ef o'i flaen, rhoddai'r gweddill arian, heb ei gymell gan neb, o'i logell ei hun." "Pa ddiben oedd mewn golwg drwy hynny? "gofynnwn. 0, ennill iddo ei hun enw, a helaethu ei ddylanwad. Arferai a chario pwrs

hir yn ei logell yn wastad, yr hwn a fyddai bob amser yn llawn o aur, a thynnai allan ohono yn ddirwgnach. Er enghraifft, rhoddodd berdoneg hardd a drudfawr yn anrheg i un o gapelai yr ardal. Rhoddodd lestri cymundeb yn anrheg i gapel arall, a phunoedd at ddyledion addoldai.

**ANRHEGION, ANRHEGION**

"Yr oedd ers talm wedi mynd yn ddiarhebol am grwydro i'r trefi Saesnig, er nas gallai ddim Saesneg byddai yn aml yn Lerpwl, Manchester, Dublin, Llundain, a phan ar y teithiau hyn pwrcasai foneti a dillad sidan, *watches a broach*es aur, ac addurniadau eraill i'w berthnasu a'i gyfeillion yng nghyd a'u plant. Dywedir fod rhai o'i gyfeillion wedi cael llawer o anrhegion felly, o dro i dro, heblaw ei barodrwydd i'w gwasanaethu yn feunyddiol."

Sut y mae'r ardal yn esbonio gweithredoedd fel hyn, ar hyn o bryd ?" Wel, myn ugeiniau a channoedd gredu mai llafur a gweithredoedd o'r fath yma a ddallodd bawb rhag ei adnabod."

**MARW DAN EI GORON**

"Cafodd ei daro gan yr *influenza* a bu farw yn led ddisymwth, a hynny o dan ei goron Gwnaed galar mawr am dano. Pregethwyd pregeth effeithiol ar ei ôl, a galarid am nad aed neb yn y golwg yn un man i wisgo ei arfau a chymryd ei le ar y blaen mewn mudiadau lleol cyhoeddus. Penderfynwyd codi cofgolofn uchel ar ei fedd drwy danysgrifiad cyhoeddus casglwyd yn y gymdogaeth, ond cyn prin ddechrau ar y gwaith hwnnw, aeth y si allan nad oedd efe, er yr oll, ond 'twyllwr' yng ngwisg Sant. Dychwelwyd yr arian yn ôl i'r cyfranwyr, ac nid oes iddo ond cofgolofn o waradwydd a dicllonedd, yr hon a esgyn i fyny hyd y nefoedd."

**EI FAB WEDI FFOI!**

"Beth a ddaw o'i deulu" gofynnais i fonheddwr arall. ''' O, mae ei fab hynaf, Mr Richard D. Jones, y masnachydd, newydd ffoi i'r America'r wythnos hon. Dywedir hefyd fod ei fab ieuengaf ar adael y wlad, ond nis gwn a yw hyn yn wir. Fodd bynnag, nid yw yr ardalwyr mwyaf dideimlad heb gydymdeimlo yn ddwfn i'r teulu oll yn ên profedigaeth arw a lem."

**TEIMLAD ANGERDDOL**

"Mae yn hawdd i chwi weld fod yma i deimlad angerddol iawn," ebe gweithiwr y mae ei golled yn dri chant o bunnau ar hyn o bryd rhennir ef rhwng y marw ar byw," gan y eyhuddit yr ymddiriedolwyr lacrwydd ac esgelusdra mawr; ond y mae cred y mwyafrif yn aros yn ddi-sigl yn yr ymddiriedolwyr. Metha rhai hefyd a deall pa sat na buasai yr archwilydd wedi dyfod o hyd i'r twyll; ond ni raid synnu dim at hyn. Yr oedd y *twyll* yn cael ei gario yn mlaen mewn dull mor gywrain a chyda'r fath ddMiell fel nad allasai unrhyw archwilydd ddod o hyd i'r ffugiaeth. Gwyddys am y Parch J. 0. Jones ei fod yn un o'r dynion mwyaf craff, ac fod ganddo allu arbennig i weled drwy gyfrifon, fel pe buasai d'od o byd i *twyll* yn bosibl o gwbl Mr Jones fuasai y gwr i wneyd hyny. Wrth gwrs, y mae y golled fawr wedi achosi llawer o boen a siarad yn yr ardal; ond nid oes cymaint a gair yn cael ei yngan yn erbyn yr heddiw. Y mae cymeriad Mr Jones yn yr ardal ac yn y wlad yn gyfryw fel na oddef hyd yn nod y rhai a gawsant fwyaf o golled i air cael ei vnean yn ei erbyn."

**PA FODD Y TWYLLWYD YR ARCHWILYDD,**

Gwyddys fod rhai yn barod i gredu y dylasai'r archwilydd fod wedi canfod *twyll*-weithredoedd yr ysgrifennydd; ond ni raid ond cael ar ddeall y dull twyllodrus oedd gan yr ysgrifennydd i ddodi ei lyfrau gerbron yr archwiliwr i allu deall fod yn amhosibl dod o hyd i'r *twyll*. Ar ddiwedd pob blwyddyn gyllidol gelwid i fewn holl gardiau'r cyfranddalwyr a'r mortgagors. Yn ôl adroddiad Mr Thomas, yr archwilydd o Lerpwl, yr oedd curliau yr holl gyfran- ddalwyr (depositors) yn gywir, heb gymaint ag uti "litbriad, Yr oedd yn arferiad gan yr ysgrifennydd i ddodi y cardiau hyn o'r neilltu hyd nes y byddai'r archwiliad drosodd, a gofalai am beidio eu dwyn gerbron yr archwilydd o gwbl, ac er mwyn cael yr archwiliad drosodd arferai baratoi cardiau twyllodrus i gytuno a chyfrifon ar y llyfrau a naodid ger bron yr archwilydd. Y mae'r cardiau twyllodrus a wnaed ganddo am y ddwy flynedd ddiweddaf wedi ên canfod, a dangosant arwyddion o allu i dwyllo nas gwelwyd ei debyg nemor erioed. Rhag i'r archwilydd feddwl mai cardiau twyllodrus oeddynt yr oedd yr ysgrifennydd wedi ysgrifennu'r taliadau am un mis mewn pencil black lead, y taliadau am y mis nesaf wedi ei hysgrifennu mewn pencil I*s; a'r taliad am y mis wedyn wedi ei ysgrifennu ag ink, ac ar gyfer pob un o'r entries hyn yr oedd wedi ffugio llythyrenau enw (initials) swyddog arall o'r gymdeithas. Heblaw hyn, rhag i'r archwilydd drwg dybied dim, yr oedd wedi bod yn ofalus i faeddu tipyn ar bob cerdyn, er mwyn ceisio dangos eu bod yn cael eu treulio a'u gwisgo. Cafodd pob un o'r cardiau ffugiol hyn ên harchwilio gan yr archwilydd, ac y mae pob un ohonynt yn cynnwys ei arwyddnod. Wedi i'r archwiliad fyned trosodd anfonai'r ysgrifennydd y cardiau cywir yn ôl i'r cyfranddalwyr, a phob un ohonynt yn cynnwys arwyddnod (signature) yr archwilydd wedi ei ffugio gan yr ysgrifennydd.

**SUT Y TWYLLWYD YR YMDDIRIEDOLWYR**

Ar ddiwedd pob blwyddyn gyllidol arferai'r ymddiriedolwyr anfon cheques am y llog i'r cyfranddalwyr. Pan ddelai'r adeg i wneud hyn, byddai'r ysgrifennydd yn arfer ysgrifenu list o'r holl depositors gyda'r swm oedd yn briodol yn ddyledus i bob un mewn llyfr pwrpasol i hynny. Yn y llyfr hwn yr oedd y swm a osodid gyferbyn & phob enw yn cynrychioli'r swm gwirioneddol a dalasid i mewn, ac nid y swm a ymddangosai yn llyfrau eraill y gymdeithas. Oddiwrth y llyfr hwn y gwnâi i fyny yn flynyddol swm y llog oedd yn ddyledus i bob un o'r depositors. Credai'r swyddogion bob amser mai hwn ydoedd llyfr swyddogol y gymdeithas, ond ar ôl y cam weithiau diweddar cafwyd nad oedd hwn byth yn cael ei osod o flaen archwiliwr y gymdeithas. Gofalai am osod gerbron yr archwilydd lyfr arall ffugiol oedd yn cytuno a'r cardiau ffugiol. Peth arall oedd yn ddiamau wedi ychwanegu at y dyryswch, a hwyrach wedi arwain i'r holl helynt ydoedd gwaith yr aelodan yn talu arian i mewn ar unrhyw adeg i unrhyw- un o'r swyddogion-ya lie talu'r arian yn ôl fel yr oedd y rheol yn gofyn ar noson apwyntied. Fodd bynnag, y bwriad drwy hyn ydoedd gwn6utbur pethau yn fwy cyfleus i'r cyfranddalwyr.

**Y MODD Y TWYLLWYD Y TRYSORYDD**

Yn ei gyfrwystra dihafal yr oedd yr ysgrifennydd yn gallu twyllo'r trysorydd pan fyddai arno eisiau arian at unrhyw amcan. Ymddengys mai un ffordd o'i eiddo ydoedd llenwi gerdyn yn dangos fod hwn a- hwn" wedi talu (yn fan symiau misol) dyweder 30p,l ac yna elai at y trysorydd a ddywedai fod ar hwnnw eisiau ei arian allan, pryd mewn gwirionedd nad oedd y dyn hwnnw erioed wedi talu dim i mewn. Bryd arall pan fyddai dyn yn talu i mewn 30p neu 40p, hwyrach mai rhyw lap fyddai yn cael ei osod i lawr wrth ei cow yn y llyfr ac y cedwid y gweddill gan yr ysgrifennydd. Wrth gwrs, gofalai am roddi i lawr y swm priodol yng ngherdyn y sawl fyddai yn talu, ond ar yr un pryd cadwai yntau gerdyn ffugiol, a hwnnw fyddai yn cael ei osod ger- bron yr archwiliwr.

Gwyddys fod rhai yn barod i gredu y dylasai'r archwilydd fod wedi canfod *twyll*- weithredoedd yr ysgrifennydd; ond ni raid ond cael ar ddeall y dull twyllodrus oedd gan yr ysgrifennydd i ddodi ei lyfrau gerbron yr archwiliwr i allu deall fod yn amhosibl dod o hyd i'r *twyll*. Ar ddiwedd pob blwyddyn gyllidol gelwid i fewn holl gardiau'r cyfranddalwyr a'r mortgagors. Yn ôl adroddiad Mr Thomas, yr archwilydd o Lerpwl, yr oedd curliau yr holl gyfran- ddalwyr (depositors) yn gywir, heb gymaint ag uti "litbriad, Yr oedd yn arferiad gan yr ysgrifennydd i ddodi y cardiau hyn o'r neilltu hyd nes y byddai'r archwiliad drosodd, a gofalai am beidio eu dwyn gerbron yr archwilydd o gwbl, ac er mwyn cael yr archwiliad drosodd arferai baratoi cardiau twyllodrus i gytuno a chyfrifon ar y llyfrau a naodid ger bron yr archwilydd. Y mae'r cardiau twyllodrus a wnaed ganddo am y ddwy flynedd ddiweddaf wedi ên canfod, a dangosant arwyddion o allu i dwyllo nas gwelwyd ei debyg nemor erioed. Rhag i'r archwilydd feddwl mai cardiau twyllodrus oeddynt yr oedd yr ysgrifennydd wedi ysgrifennu'r taliadau am un mis mewn pencil black lead, y taliadau am y mis nesaf wedi ei hysgrifennu mewn pencil I*s; a'r taliad am y mis wedyn wedi ei ysgrifennu ag ink, ac ar gyfer pob un o'r entries hyn yr oedd wedi ffugio llythyrenau enw (initials) swyddog arall o'r gymdeithas. Heblaw hyn, rhag i'r archwilydd drwg dybied dim, yr oedd wedi bod yn ofalus i faeddu tipyn ar bob cerdyn, er mwyn ceisio dangos eu bod yn cael eu treulio a'u gwisgo. Cafodd pob un o'r cardiau ffugiol hyn ên harchwilio gan yr archwilydd, ac y mae pob un ohonynt yn cynnwys ei arwyddnod. Wedi i'r archwiliad fyned trosodd anfonai'r ysgrifennydd y cardiau cywir yn ôl i'r cyfranddalwyr, a phob un ohonynt yn cynnwys arwyddnod (signature) yr archwilydd wedi ei ffugio gan yr ysgrifennydd.

**SUT Y TWYLLWYD YR YMDDIRIEDOLWYR**

Ar ddiwedd pob blwyddyn gyllidol arferai'r ymddiriedolwyr anfon cheques am y llog i'r cyfranddalwyr. Pan ddelai'r adeg i wneud hyn, byddai'r ysgrifennydd yn arfer ysgrifenu list o'r holl depositors gyda'r swm oedd yn briodol yn ddyledus i bob un mewn llyfr pwrpasol i hynny. Yn y llyfr hwn yr oedd y swm a osodid gyferbyn & phob enw yn cynrychioli'r swm gwirioneddol a dalasid i mewn, ac nid y swm a ymddangosai yn llyfrau eraill y gymdeithas. Oddiwrth y llyfr hwn y gwnâi i fyny yn flynyddol swm y llog oedd yn ddyledus i bob un o'r depositors. Credai'r swyddogion bob amser mai hwn ydoedd llyfr swyddogol y gymdeithas, ond ar ôl y dadguddwdigaethau diweddar cafwyd nad oedd hwn byth yn cael ei osod o flaen archwiliwr y gymdeithas. Gofalai am osod

gerbron yr archwilydd lyfr arall ffugiol oedd yn cytuno a’r cardiau ffugiol. Peth arall oedd yn ddiamau wedi ychwanegu at y dyryswch, a hwyrach wedi arwain i’r holl helynt ydoedd gwaith yr aelodan yn talu arian i mewn ar unrhyw adeg i unrhyw- un o’r swyddogion- ya lie talu’r arian yn ôl fel yr oedd y rheol yn gofyn ar noson apwyntiedig. Fodd bynnag, y bwriad drwy hyn ydoedd gwn6utbur pethau yn fwy cyfleus i’r cyfranddalwyr.

**Y MODD Y TWYLLWYD Y TRYSORYDD**

Yn ei gyfrwystra dihafal yr oedd yr ysgrifennydd yn gallu twyllo’r trysorydd pan fyddai arno eisiau arian at unrhyw amcan. Ymddengys mai un ffordd o’i eiddo ydoedd llenwi gerdyn yn dangos fod hwn a- hwn” wedi talu (yn fan symiau misol) dyweder 30p,l ac yna elai at y trysorydd a ddywedai fod ar hwnnw eisiau ei arian allan, pryd mewn gwirionedd nad oedd y dyn hwnnw erioed wedi talu  dim i mewn. Bryd arall pan fyddai dyn yn talu i mewn 30p neu 40p, hwyrach mai rhyw lap fyddai yn cael ei osod i lawr wrth ei cow yn y llyfr ac y cedwid y gweddill gan yr ysgrifennydd. Wrth gwrs, gofalai am roddi i lawr y swm priodol yng ngherdyn y sawl fyddai yn talu, ond ar yr un pryd cadwai yntau gerdyn ffugiol, a hwnnw fyddai yn cael ei osod ger- bron yr archwiliwr.

**DIlfFYO CADW’R COF NODLYFR YN GYWIR**

Fel popeth arall, yr oedd llyfr y cofnod- ion yn cael ei esgeuluso. Rhoddid symiau allan ar wystton a derbynid ad-datiadan ar wystlon heb fod yr un math o gofnodiad o’r oyfryw yn nghofnodion y gymdeithas. Ac yn ychwanegol at hyn, dywedir fod amryw o wystl-weithredoedd yn y gist nad oeddynt wedi eu baiwyddo gan neb. Teg ydyw dyweyd na byddai y gwystl-weithredoedd yn cael en gosod o fiaen yr archwiliwr, ac fod y rhfi hyn o dan gb mewn cist haiarn, yr bon nis gellid ei hagof heb fod tri o’r ymddiriadolwyr yn bresenol, gan bob un o’r rhai kytri) yr oedd agoriad gwahanol.

**AR BWY Y SYRTH Y GOLLED**

Y mae y gymdeithas yn gyfansoddedig o aelodau yn dal yr hyn a elwir yn paid-up shares ac ereill yn dRY invesitd shares, Y awm sydd gan yr aelodau o’t dosbatUi cyn-taf yn y gymdeithas ydyw oddentu 4000p. Bydd y rhai hyn (y rhai ni dderbynient fwy na 4 y cant o 16g, ac a ystyrkJ fel preferenCt skotrtholders) yn ddigolled. Bydd hefyd y rhai a dderbyniasant ariaa ar wystlon yn rhydd oddiwrth gyfrifoldeb ychwanegol. Y rhai y syrth y golled arnynt ydynt yt nvested shareholders, a hwy yn unig. Y mae y colledion braidd yn gyfangwbl ar weithwyr cyffredin-gweithwyr fuont yn ddarbodus i roddi eu henillion o fis i fis yn ngofal y gymdeithas. Y mae un-so yntau. ei bun yn weithiwr-YI1 golledwr o tOp. Yr oedd ganddo 1200p yn y gymdeithas, ac o’r swm hwn nid oes yu aros yn nghoffrau y gymdeithas end TOQji. Y mae ereill oedd wedi dodi o’n henillion yr oil a allent ddar- bod wedi derbyn colledion trymion., Nid rhyfedd gan hyny fod y teimlad mwyaf yn bodoli yn yr ardal mewn canlyniad i’r dadguddiedigaethau. Y mae y ganmoliaeth nwebaf yn ddyledus i Mr R. Wi. ThomaB am y llafur mawr a gymerodd i, ddwyn y cyfrifon i drefu.

**Y RESERVE FUND**

Yny cyfrif am y flwyddyn yn diweddu Mehefin,, W9, dangosid un-caat-ar-ddeg fel reserve fund, pryd nad oedd yr un ddimai o hono mewn bod heblaw mewn ffigyrau ar y papyr. Hefyd, dygid 0” flwyddyn flaen- oroli dros saith gant o bunnao, pryd nad oadd mewn gwirionedd ddim yo cael ei gario drosodd ond y ffigyau gweigion.

**Y TEIMLAD YN LLANBERIS**

Yr oedd dydd Sul diweddaf yn ddiwrnod tywyll iawn yn Llanberis. Yr oedd ugainaiau yn absenol o’r moddion crefyddol o wynebau na chollwyd ohonynt o’r capel o’r blaen er’s amssr maith. Yr oedd yn eglur oddiwrth fyohander pob cynulleidfa fod yr amylchiad wedi taflu llawer teulu i brudd- der.

**BETH AM Y DYFODOLI**

Er fod y dyfodol yn edrych yn bur dywyll, eto da genym ddeall fod yr ymddiriedolwyr, ar ol gweled sefyllfa adfydus y gymdaithas, wedi cymeryd atynt Mri D. P. Williama, Y.H., a John Davies (Gwyneddon), i’w cynorthwyo yn eu cyfyngder; dian nad allasent gael boneddwyr yn meddu gwell cymhwysderau i’w cyfarwyddo yn eu cyfyngder.

## PENISARWAUN

**Noson yng Nghwmni Eurgain Haf**

Ar nos Wener 15fed o Dachwedd am 7yh, bydd Pwyllgor Eisteddfod Penisarwaun yn cynnal Noson yng Nghwmni Eurgain Haf yn y Neuadd Gymuned. Bydd y noson yn gyfle i ddathlu llwyddiant Eurgain yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a byddwn yn clywed gan nifer o’i chyfoedion a chyn-athrawon. Mae’n sicr am fod yn noson wych, felly dewch yn llu! (Agored i bawb o bob pentref)

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
**Marathon Eryri 2024**

Cynhelir Marathon Eryri ar fore Sadwrn Hydref 26ain am 10.00am. Disgwylir i’r gwirfoddolwyr fod ym Mhen y Pas erbyn 9.30am. Diolch o flaen llaw i’r holl wirfoddolwyr am roi o’u hamser.

**Clwb Cant**

Erfynnir am daliadau Clwb Cant Medi 24-Medi 25, gyda chroeso i aelodau newydd i ymuno yn y weithgaredd i godi arian tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned.

**Gwellhâd buan**

Dymunwn wellhâd buan i’r rhai ohonoch sy’n sâl ar y funud.

**Prosiect Pum Mil**

Erbyn hyn, mae’r gwaith o foderneiddio Neuadd Festri’r Eglwys wedi cychwyn. Diolch i’r holl wirfoddolwyr am eu gwaith, ac edrychwn ymlaen at weld y rhaglen Prosiect Pum Mil ar S4C yn fuan.


*Pwyllgor Eisteddfod Penisarwaun yn cyflwyno*

Noson yng Nghwmni

Eurgain Haf

Enillydd y Fedal Ryddiaith, 2024

15.11.24

Cyfle i drafod ei nofel a hel atgofion gyda Eurgain, ei chyn-athrawon a chyfoedion

7yh

Neuadd Gymuned Penisarwaun





**Swydd: Rheolwr Prosiect y Banc Bwyd**

Os ydych chi’n dymuno ymladd yn erbyn anghyfiawnder prinder a tlodi, a helpu pobl sy mewn argyfwng yn Arfon, rydym eisiau clywed gennych chi.

Mae Banc Bwyd Arfon yn chwilio am Reolwr Prosiect i oruwchgwylio’n gweithgareddau ac i arwain timau gweithgar o wirfoddolwyr a staff. Mae cyfuniad o weithio gartref ac yn y banc bwyd.

Cyflog: £35,500
Llawn amser: 35 awr yr wythnos
Dyddiad cau: 13 Tachwedd 2024

Bancbwyd Arfon
Gyda’n gilydd gyda Trussell

Anfonwch e-bost at **manager@arfon.foodbank.org.uk** am ragor o fanylion




Cysylltwch â’n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838. hefsj@aol.com

# Cyngor Cymuned Llanrug

## CYFARFOD AWST 20FED, 2024

1. **Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**
2. **Derbyniwyd cofnodion Gorffennaf yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.**
3. **Derbyniwyd adroddiad gn y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.(Copiau i'w cael gan y clerc)**
4. **Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd pwyllogr y Fynwent**

1) Yn ystod cyfarfod yr is-bwyllgor penderfynwyd
a) Cyfeirio'r drefn torri beddi i'r ICCM am gyngor a chasglu gwybodaeth gan ymgymerwyr lleol am eu systemau torri/paratoi beddi.
Ar ol trafodaeth hir penderfynwyd, ar hyn o bryd, i beidio creu swydd torrwr beddi sydd yn gyflogedig gan y Cyngor.
b) Cyhoeddi tendr am waith ar y wal ar ymyl y fynwent.
c) Cyhoeddi tendr am waith ychwanegol iechyd a diogelwch cofebion ar ol cwblhau b)
ch) Derbyn polisi bioamrywiaeth ar gyfer y fynwent (copi i'w rannu gyda'r Cyngor a'r cyhoedd)
2. Mae'r is-bwyllgor a'r Clerc wedi derbyn ymateb yr Ombwdsman i gwyn am dorri gwair yn y fynwent. Penderfynodd yr Ombwdsman nad oedd y drefn cwyno briodol wedi'i defnyddio yn gywir gan yr achwynwr ac na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth fod y Cyngor wedi methu dilyn eu polisiau na'r gweithdrefnau. Ategodd yr Ombwdsman fod y Cyngor wedi egluro'n glir na nid cyfrifoldeb y Cyngor oedd y materion yn y cwyn h.y. glanhau y beddi.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

5. **Materion yn ymwneud a pharcio**
Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn yn erbyn trefniadau parcio ar yr ochr chwith o Sgwar Llanrug ar hyd Ffordd yr Orsaf i gyfeiriad y siop sglodion. Roedd hyn yn golygu fod sefyllfaoedd yn codi, pan mae ceir yn dod i gyfeiriad y Sgwar o gyffinia'r Co-op, fod ceir sydd yn mynd am Ffordd yr Orsaf yn gorfod ciwio hyd at y ffordd fawr. Awgrymwyd y dylid ymestyn y llinellau melyn dwbl sydd yn gorffen ar hyn o bryd ger yr hen swyddfa bost.
**Penderfynwyd**: Adrodd y broblem i Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

6. **Ceisiadau cynllunio**
a) Rhif y Cais:C24/0557/23/DT
Adeiladu estyniad deulawr cefn ac ochr, Station House, Llanrug.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad ond ategu sylwadau Dwr Cymru.
b) Rhif y Cais: C24/0587/23/DT.
Adeiladu estyniad, Glan Gors, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.
c) Rhif y Cais: C24/0481/23/DT.
Gosod pwmp gwres ger yr eiddo, 1, Didfa, Llanrug.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.
ch) Rhif y Cais: C24/0516/23/DT.
Gosod pwmp gwres ger yr eiddo,2, Tai Gwynedd, Cwm y Glo.
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.
d) Rhif y Cais: C24/0586/23/DT.
Estyniad deulawr arfaethedig i gefn yr eiddo,19, Rhos Rug, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.
dd) Rhif yr Eiddo: C24/0622/23/DT.
Gosod pwmp gwres, 2,Bryn Hyfryd, Cwm y Glo.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.

7. Yn dilyn cais am ddiffibiliwr yn ardal Crawia penderfynwyd fod y Cyngor yn cymryd y camau cyntaf drwy chwilio am leoliad addas, ynghyd a'r gost, cyn dod i benderfyniad.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## COFNODION CYFARFOD 5ED GORFFENNAF 2024

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd bod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan y Cyngor: Elfed Wyn Williams (1); Phyllis Ellis (2)

**Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfa Bws Rhiwlas.** Nid ydym byth wedi derbyn cadarnhad am y lloches bws gan Gyngor Gwynedd, er bod ganddo 2 fawr yn sbâr. Trafodwyd y mater, i ni allu cael un o'r rheiny a'i wneud yn llai, er mwyn gosod un yn Rhiwlas cyn y Gaeaf.

**Gohebiaeth a Materion eraill**
**System Bleidleisio Cyngor Gwynedd.** Daeth llythyr ynglŷn ag ymgynghoriad i newid y system bleidleisio leol. Yn dilyn trafodaeth, nid oedd gan y Cyngor sylwadau i'w gwneud,

**Llwybrau**
Mae'r gwaith o ail wynebu a draenio wedi ei gwblhau ar lwybrau 30, 35 a 93; ac mae'r gwaith o osod cylfat ar lwybr 65A yn y broses o gael ei gwblhau.

**Llwybr 101**
Derbyniwyd ymholiad ynglŷn â llwybr 101, sef llwybr sy'n mynd heibio Gerlan, Clwt y Bont. Nid yw hwn wedi bod ar restr torri llwybrau'r Cyngor, ac felly heb gael ei dorri ers blynyddoedd maith. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cytuno i dalu contractwr i ymgymryd â'r gwaith dros y misoedd nesaf, ac yna bydd y Cyngor yn ychwanegu'r llwybr yma at ei lwybrau arferol yn flynyddol.

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Clybiau Ieuenctid**
Mae Clwb Ieuenctid Bethel yn ail gychwyn, ac mae cais wedi dod i geisio clwb ieuenctid yn Rhiwlas. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymrwymo i dalu am y gwasanaeth eto eleni.


**Toriadau Gordyfiant lonydd bach**
Mae sawl cwyn fod y toriadau ar y lonydd bach yn annigonol ac yn sobor o flêr. Mae tyfiant yn cael ei adael ar ben y cloddiau. Y Clerc i gysylltu â'r adran yng Nghyngor Gwynedd.

**Eiddew ar Wal Pont Brynrefail**
Yn yr un modd, mae eiddew yn tyfu ar wal y bont ac yn achosi i bobl beidio â gweld o'r gysgodfa bws. Hefyd mae coeden sycamorwydden yn gordyfu dros y ffordd ac yn achosi rhwystr.





# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 30








Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Mae gan gathod gof hir dymor ardderchog. Maent yn gallu cofio ac adnabod eu cyfeillion pedair troed a'r deu-droediaid sy'n eu bwydo, yn ogystal â'r rhai sy'n codi eu gwrychyn. Os oes un o'ch plant wedi mynd i ffwrdd i weithio neu i'r coleg neu brifysgol yn ddiweddar mi, fydd y gath yn siŵr o'i heglu hi atyn nhw pan ddychwelan nhw ddiwedd tymor.*

*Yn yr un ffordd mae cathod yn adnabod ymwelwyr ddaw i'ch tŷ, yn enwedig os ydyn nhw'n eu hoffi nhw. Mae Bob yn adnabod Nain (fy mam i) fel daw hi i'r ardd neu drwy'r drws gan fynd yn syth ati i hel mwythau. Cofiwch, gallant fod yn ymosodol efo ymwelwyr os nad ydynt yn siŵr ohonynt. Yn yr un modd, gallant benderfynu cuddio tan fydd pawb wedi mynd. Pam? Weithiau oherwydd eu bod yn ofni pobl ddiarth ac weithiau oherwydd eu bod yn amddiffyn eu tiriogaeth eu hunain. Os ydynt yn cuddio, gadewch iddyn nhw fod, mi ddown nhw allan o'u cuddfan pan maen **nhw'n** barod.*

*Mae modd, gyda gofal ac amynedd i gyflwyno cath arall i'ch cath chi, ond gall gymryd hyd at flwyddyn neu fwy iddynt ddod yn ffrindiau, ac mewn ambell achos gwaeth i chi heb na thrio ond eu cadw nhw ar wahân.*

Mi gawson ni ymwelydd i'n tŷ ni'n ddiweddar, cath arall! Cath fach, ddu a gwyn o'r enw Ralff. Mae'n debyg iddo fod yn cwffio ac yn sgil hynny cafodd friw reit hegar ar ei gefn, aeth yn ddrwg. Bu'n rhaid ei wisgo mewn '*onesie*' fel nad oedd yn gwneud y briw yn waeth.

Roedd deu-droediaid Ralff yn mynd ar wyliau dramor, hir ddisgwyliedig, ond doedd dim modd iddo fynd i'r gwesty cathod arferol. Yr unig opsiwn felly oedd sefydlu gwesty cathod pedair seren yn y llofft sbâr iddo, a gweddïo nad oedd Bob yn cael achlust o hynny.

Mae Bob yn hoffi cwmni ei ddeu-droediaid o ac ambell un arall, cyn belled nad ydyn nhw'n rhy fach, chwim na swnllyd! Dyma fo felly'n parhau efo'i stori…

"Mae gen i deimlad ym mêr fy esgyrn bod rhywbeth ar bawen... Mae'r ddeu-droed leiaf wedi bod yn cerdded o gwmpas yn y llofft uwch fy mhen dipyn yn ddiweddar, ond dwi'n falch o ddeud nad ydy'r bocs ar olwynion wedi ymddangos, felly croesi pawennau, fyddan nhw ddim yn diflannu. Dydy'r tywydd ddim mor braf ag y bu, felly dwi'n treulio mwy o amser yn swatio ar fy nghadair i. Cofiwch mi fyddai'n caniatáu iddi hi ei rhannu efo fi weithiau.

Jest fel roeddwn i'n dechrau cael gafael ar fy nghwsg daeth rhywun i'r drws ffrynt. O na! Y ddeu-droed fach, sydd yn dod a'r bwystfil mawr coch (ci maen nhw'n ei alw fo) efo hi weithiau. Dwi'n effro ac ar fy ngwyliadwriaeth yn syth, ond popeth yn iawn, does dim golwg o'r bwystfil. Diolch byth.

Mae'r ddeu-droed fach yn mynd at gar yr un arall a'r drws yn cael ei gau'n dynn arna i, ond mae'r deu-droed arall sy'n byw yma'n aros ar ei gadair o ac yn deud wrtha'i am beidio poeni…. Hmm dydy hynny byth yn arwydd da. Ta waeth, arhosai yn fan'ma a gweld be sydd ar bawen.

Dwi'n gallu clywed dau set o draed yn y llofft rŵan ac yna tawelwch, cyn i'r ddwy ddod i lawr. Cathod a ŵyr be maen nhw'n ei wneud. Mae'r un ifanc yn trio rhoi mwythau i mi ond dwi'n dangos iddi nad ydw i am gael sylw gan berchennog pedair-troed mawr iawn!

O'r diwedd mae hi'n mynd. Dim ond y fi a fy neu-droediaid sydd yma bellach, gobeithio. Ond dydy popeth ddim yr un peth. Yn un peth maen nhw'n ofalus iawn o gau'r drws cyn mynd o'r ystafell lle dwi'n byw. Maen nhw hefyd yn diflannu am dipyn a dod lawr gan ddeud fod 'pws bach' yn iawn, yn hapus ac unwaith ddudon nhw ei fod ar ben y wardrob! Beth bynnag ydy wardrob.

Dwi'n dechrau amau bod creadur arall pedair-troed arall yn byw i fyny grisiau… Be sy'n gneud i mi feddwl hynny? Weithiau mae yna fag, llawn rwbath debyg i be fydd hi'n ei dynnu o fy nhoiled i, yn dod i lawr efo'r ddeu-droed leiaf. Weithiau mae yna gynhwysydd bach, tebyg i'r hyn fydda i'n ei gael i fwyta, hefyd yn cyrraedd yma. Ond na! Fuasen nhw byth yn dod a chath arall yma. Pwy yn ei iawn bwyll fyddai isio cath arall pan mae ganddyn nhw Lew Frenin fel fi?

Erbyn meddwl, mae'r deu-droediaid yma'n gyfrwys, ac er sawl ymdrech, dydw i byth yn llwyddo i sleifio i fyny i gael golwg drosta fy hun.

Ar ôl peth amser landiodd y ddeu-droed fach yma eto (heb y bwystfil) ond efo'r deu-droed gwrywaidd, fydd yn dod yma efo hi o bryd i'w gilydd. Ddaethon nhw ag 'anrhegion' efo nhw ac roedd y pedwar ohonynt i'w gweld yn cael hwyl fawr am hynny. Cofiwch chi ches i ddim anrheg wrth gwrs. Rhywbeth am ddiolch am warchod cath a'u bod yn debyg i mi! A ryw fath o jôc (yn iaith y deu-droediaid) eu bod wedi dod a nhw 'cos they can!' Wnâi byth ddeall y deu-droediaid yma.

A wyddoch chi be? Mi oedd yna gath arall yn y llofft! Ddudis i do! Welais i un bach du a gwyn mewn bocs plastig yn cael ei gario allan o'r tŷ. Raid bod nhw wedi sleifio i fyny pan oeddwn i'n cysgu… dim ogla… dim sŵn … raid bod fi'n mynd yn hen… Pwy yn ei iawn bwyll fyddai isio cath arall pan mae gynnyn nhw fi…

A wel, allai wneud dim am y peth am rŵan, jest gwneud yn siwr nad ydy'r un peth yn digwydd eto. "

Amser swpar dwi'n meddwl. Bydd yn rhaid i mi ei hatgoffa hi… Ew maen 'na waith cael trefn ar y deu-droediaid yma."


Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist

Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis

Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm

01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Nodiadau Natur

Mi fydda i wrth fy modd yn gweld y madarch, caws llyffant neu grawn unnos yn tyfu ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref. Mae gen i atgofion plentyn o fynd i hela madarch yn y caeau a'u ffrio mewn menyn i swper neu i frecwast y bore wedyn. Rheiny ydy'r unig fath o fadarch fuaswn i'n mentro eu bwyta heb gael arbenigwr wrth fy ochr. Mae'n debyg mai'r cyngor gorau yw, os nad ydach chi'n berffaith siŵr, neu'n cael cyngor gan arbenigwr, peidiwch â'u bwyta – jest rhag ofn.

Y mis hwn cewch ddisgrifiad o ddwy fadarchen sy'n edrach yn hollol wahanol i'w gilydd ond os ewch am dro i hela madarch, yn aml mae'r Wicsen Gron yn tyfu yn yr un ardal ag Amanita'r Gwybed. Alla i ddim gaddo y dewch o hyd i'r Wicsen Gron os welwch chi Amanita'r Gwybed, ond mae'n fwy tebygol y dewch o hyd iddi, yn enwedig yn ystod tymor y Wicsen Gron, sy'n mynd o Orffennaf tan yn gynnar ym mis Tachwedd. Wedi'r cyfan mae'n haws dod o hyd i fadarchen goch efo smotiau coch arni na'r Wicsen Gron sydd yr un lliw a'i chynefin.

## Wicsen Gron

Enw gwyddonol – *Boletus edulis* Enw Saesneg – Penny Bun

Enw Eidaleg – Porcini sy'n golygu – 'moch bach'; term a ddefnyddiwyd gan y Rhufeiniaid Hynafol.



Mae'r cap yn mesur rhwng 7 – 12 cm. Pan yn ifanc mae'n wyn ond wrth aeddfedu yn edrych yn debycach i rôl o fara brown, a dyna mae'n debyg o le daw'r enw Wicsen Gron (Penny Bun). Yn aml bydd ymyl y cap yn wyn a bydd gwlithod yn ei gnoi gan ddangos cnawd gwyn. Mae'r goes rhwng 10 i 14 cm o hyd gyda diamedr o tua 2 i 4 cm. Mae'n lwmp tew, gwyn, sydd wrth heneiddio'n troi'n felyn golau mae gorchudd tebyg i rwyd jest o dan y cap ond weithiau'n ymestyn yr holl ffordd i lawr y goes, yn solat pan yn ifanc, ffres neu heb gynrhon.

Mae'n tyfu mewn coedlannau cymysg ond i'w gael yn amlach o dan goed ffawydd (beech) derw neu binwydd.

Gallwch fwyta'r fadarchen yma'n amrwd neu wedi ei choginio. Mae'n hynod flasus wedi ei ffrio mewn menyn neu wedi ei gynnwys mewn risotto (i gadw at y thema Eidalaidd). Mae'n un o'r mathau gorau i'w sychu gan fod hynny'n amlygu'r blas madarch.

Does dim madarchen wenwynig sy'n debyg i'r Wicsen Gron. Mae'r Cap tyllog y cythraul (*Boletus Satanas Boletus)* sy'n wenwynig, un ai efo cnawd coch neu'n staenio'n las yn syth ar ôl i chi eu torri nhw.

Fel dywedwyd ar y dechrau gwnewch yn hollol siŵr eich bod yn gwybod beth ydych chi wedi ei gasglu CYN mentro bwyta unrhyw un ohonynt. Os oes ganddo'ch unrhyw amheuaeth peidiwch â'u casglu ac yn sicr peidiwch â'u bwyta.

## Amanita'r gwybed

Enw gwyddonol – *Amanita muscaria* Enw Cymraeg arall arno – Bwyd y boda

Enw Saesneg – *Fly Agaric*



Mae gan Amanita'r Gwybed gap coch neu weithiau un oren gyda smotiau gwyn a thagellau (*gills*) gwyn neu hufen. Gall dyfu hyd at 20cm ar draws ac mae'r goes rhwng 15 i 20cm o daldra.

Mae'n tyfu mewn coedlannau bedw lle mae'n helpu'r coed trwy drosglwyddo maetholion (*nutrients*) i mewn i'w gwreiddiau. Mae hefyd yn tyfu o dan goed pinwydd a sbriws. Ond daw efo rhybudd, dydy hwn ddim yn fadarch i chi ei fwyta!

Mae Twm Elias yn nodi fod hwn yn, "un o'r madarch hudol ddefnyddid gan wrachod i greu rhithweledigaethau h.y. o'i gymryd roedd siawns da i chi weld tylwyth teg a bob math o bethau eraill. Dim syndod mai hwn sy'n bob llyfr, cartŵn am dylwyth teg."

Yn draddodiadol fe'i defnyddiwyd fel pla laddwr (*insecticide*). Yn ôl pob sôn roedden nhw'n malu'r cap yn ddarnau mân a'u taenu i soseri o lefrith. Mae'n cynnwys asid *ibotenic*, sy'n atynnu a lladd pryfed – gan roi'r enw – Amanita'r Gwybed iddo.

Mae'n fadarch gwenwynig. Prin yw'r achosion o farwolaeth ar ôl ei fwyta, ond gall achosi rhithweledigaethau (*hallucinations*) ac adweithiau seicotig. Mae iddo hanes o gael ei ddefnyddio ers dros 4,000 mlynedd fel diod mewn defodau crefyddol, yn enwedig yng ngwledydd Asia.

Yn yr oesoedd Fictoraidd ac Edwardaidd roeddent yn aml yn cael eu cynnwys ar gardiau Nadolig fel symbol o lwc dda, tra bod rhai'n credu i'r lliwiau coch a gwyn fod yn ysbrydoliaeth ar gyfer siwt goch a gwyn Siôn Corn.

*(Diolch i Coed Cadw a LLên Natur am beth o'r wybodaeth yn yr erthygl hon)*





# Cyngor Cymuned Llanberis

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 – 2024

**Cyflwyniad**

Mae Llanberis yn gorwedd mewn cwm hir a chul rhwng dau lyn mawr ychydig i'r gogledd-orllewin o'r Wyddfa. Y dystiolaeth gynharaf o anheddiad yw bryngaer Dinas Tŷ Du sy'n dyddio o Oes yr Haearn. Mae rhai olion Rhufeinig wedi eu canfod ac mae'n debyg eu bod yn gysylltiedig â Segontium, y gaer fawr ar gyrion Caernarfon heddiw. Yn y chweched ganrif, adeiladodd Sant Peris encil crefyddol ym mhen deheuol Llyn Peris a sefydlodd Sant Padarn ei eglwys ar lannau Llyn Padarn. Mae Eglwys Sant Peris sydd yn adeilad cofrestredig gradd II * yn parhau ar agor ac mae Eglwys Sant Padarn hefyd ar agor ac yn adeilad cofrestredig gradd II*.

Yn sefyll rhwng y ddau lyn mae Castell Dolbadarn, castell ac adeiladwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg gan Llywelyn Fawr yn adeilad rhestredig gradd 1.

Hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, parhaodd yr ardal i setlo'n llym ac amaethyddiaeth oedd yn darparu'r prif incwm. Datblygodd mwyngloddio llechi ar raddfa fechan ar hyd llethrau gogledd-ddwyreiniol y dyffryn, a oedd wedi dechrau ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, yn ddramatig gydag agoriad Chwarel Vivian yn y 1870au lle symlwyd y cynhyrchiad trwy ddefnyddio powdr du, a gosodwyd tramffyrdd pellach ar gyfer cario'r llechi o'r chwareli. Cyfrannodd y mwyngloddio diwydiannol ar raddfa fawr yn fawr at dwf y boblogaeth o tua 700 yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg i dros 3000 erbyn ei diwedd.

Er gwaethaf twf mwyngloddio cast agored diwydiannol yn y dyffryn, daeth twristiaid i Lanberis mewn niferoedd cynyddol o'r cyfnod Rhamantaidd ymlaen. Hysbysebodd Gwesty'r Royal Victoria ei ddarpariaeth o ferlod a chanllawiau i gopa'r Wyddfa gyfagos a bu hefyd yn dal allweddi ar gyfer y tiroedd y lleolir Castell Dolbadarn arnynt. Roedd Julius Rodenberg, newyddiadurwr ac awdur teithio o'r Almaen, yn cael ei gymryd i mewn gan sefyllfa hardd y gwesty a thelynor y gwesty yn chwarae yn y lobi bob nos. Gan deimlo ei fod wedi'i ysbrydoli'n arbennig un noson, cyfansoddodd eiriau newydd ar dôn y gân werin Gymraeg 'Ar hyd y nos'. Twristiaeth bellach yw'r prif ddiwydiant yn Llanberis, canolfan ar gyfer cerdded, dringo a beicio mynydd.

Ymhlith y llefydd o ddiddordeb yn y pentref a'r cyffiniau mae Rheilffordd yr Wyddfa, Amgueddfa Lechi Cymru, Rheilffordd Llyn Llanberis, Parc Gwledig Llyn Padarn a'r Mynydd Trydan.

Mae'r pentref yn fan cychwyn cyffredin ar gyfer esgyniadau'r Wyddfa ar hyd Llwybr Llanberis. Er mai dyma'r llwybr hiraf, dyma'r esgyniad lleiaf egnïol, gan ddilyn llinell Rheilffordd yr Wyddfa i raddau helaeth.

Mae'r ardal yn gartref i Ras y Wyddfa, y Triathlon Slateman sydd yn cael eu rhedeg yn flynyddol hefyd yma mae Marathon Eryri yn cychwyn a gorffen yn flynyddol.

Mae Llanberis wedi ei chyfeillio a Morbegno yn ardal Lombardy yn yr Eidal.

Mae tiriogaeth y Cyngor yn ymestyn o ben bwlch Llanberis i lawr at Graig yr Undeb ym Mhen Llyn. Mae'r boblogaeth oddeutu 2004 (cyfrifiad 2021). Lle mae oddeutu 70% o'r boblogaeth dros dair oed yn siarad Cymraeg. Nodwyd yn y cyfrifiad bod 79% yn gallu siarad darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

**2.0 Y CYNGOR**

2.1 Yn Mai 2022 cafwyd etholiadau lleol yng Ngwynedd roedd y rhain yn cynnwys etholiadau ar gyfer Cynghorau Cymuned. Cafwyd Etholiad yn Llanberis, lle 13 cynghorydd newydd. Mae 11 yn cynrychioli Llanberis tra bod dau yn cynrychioli Nant Peris. Yn 2023 cafwyd un ymddiswyddiad ond fe gyfetholwyd cynghorydd arall ar ôl peidio a chael cais am etholiad. Y Cynghorwyd ar hyn o bryd yw:

Cynghorydd Llinos Mai Pritchard (Cadeirydd)
Cynghorydd Gwilym Tudor Evans (Is-Gadeirydd)
Cynghorydd Iwan Harding
Cynghorydd Trystan Thomas
Cynghorydd Louise Price
Cynghorydd Nia Jones
Cynghorydd Helen Sharp
Cynghorydd Iola Owen
Cynghorydd Emlyn Baylis
Cynghorydd Kevin Jones
Cynghorydd Bethan Holding
Cynghorydd Kim Jones
Cynghorydd Rhys ap Gwilym

2.2 gan y Cyngor bwyllgorau – pwyllgor Rheolaeth, Pwyllgor Asedau a phwyllgor Gweithgareddau Cymunedol.

2.3 Yn 2023 fe welwyd ymddeoliad Dei Tomos fel Clerc i'r Cyngor, roedd wedi gweinyddu ar y Cyngor am ddeunaw mlynedd, fe ddathlwyd yr achlysur mewn achlysur preifat. Fe groesawyd Barry Davies am ychydig cyn penodi Heather Jones fel Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol ym mis Tachwedd. Gellir cysylltu â'r clerc drwy ffôn 07867 982518, e-bost: clerc@cyngorllanberis.cymru <mailto:clerc@cyngorllanberis.cymru> neu drwy lythyr: 3 Maes Padarn Llanberis, LL55 4TE

2.4 Mae'r Cyngor yn cyfarfod pob mis ar yr ail nos Fercher am 7 yn yr hwyr yn Y Ganolfan ond eithrio mis Awst, lle mae'r Cyngor ar wyliau.

2.5 Mae'r Cyngor bellach wedi mabwysiadu logo.

2.6 Penderfynwyd eleni byddai'r Cyngor yn mabwysiadu'r enw Cyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris yn swyddogol.

**3.0 GWYBODAETH ARIANNOL**

3.1 Mae incwm a gwariant o fewn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar y 31 o Fawrth 2023 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Balans a ddygwyd ymlaen o 2022-2023** | 18876 |
| Incwm o drethiant lleol | 36000 |
| Incwm arall | 19339 |
| Costau Staff | 6137 |
| Taliadau | 27365 |
| **Balans a gariwyd ymlaen i 2024-2025** | **40713** |

3.2 Bydd y cyfrifon yn cael eu rhoi ymlaen i Gyngor Gwynedd ar gyfer archwiliad mewnol cyn y byddent yn cael eu hanfon at Archwilio Cymru am archwiliad allanol. Dylai'r cyfrifon gael eu cyfeirio at fel "rhai sydd heb eu harchwilio hyd yma". Bydd y Cyngor yn derbyn archwiliad allanol llawn eleni.

**4.0 PERTHYNAS A CHYNGOR GWYNEDD**

4.1 Mae'r Llanberis yn yr un ward ac yn cael ei gynrychioli gan un cynghorydd sirol sef Kim Jones sydd hefyd yn gynghorydd cymuned. Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn gwybodaeth ar faterion Cyngor Gwynedd sy'n gysylltiedig â Llanberis a Nant Peris yn fisol.

**5.0 CWYNION**

5.1 Ni chafwyd yr un cwyn ynglŷn â gwaith y Cyngor Cymuned o fewn y flwyddyn.

**6.0 CEISIADAU CYNLLUNIO**

Yn ystod y flwyddyn fe ystyriwyd oddeutu 7 cais.

**7.0 CAEAU CHWARAE**

7.1 **Cae Chwarae ger y llyn -** Yn ystod y flwyddyn fe godwyd y rhan rhwystrau coed i'r plant iau ar gyfer gwaith Grid Cenedlaethol a fei rhoddwyd yn ei ôl. Bellach mae plant yr ardal ac ymwelwyr yn ei fwynhau unwaith yn rhagor. Mae'r cae chwarae cyfan yn derbyn archwiliad yn fisol gan Gyngor Gwynedd ar ran y Cyngor Cymuned is sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

7.2 Mae **Cae Fron Deg** yn cael ei ddefnyddio gan blant yr ardal ar gyfer chwarae pêl droed. Fe dorrwyd y gwair un waith pob dau fis gan y Cyngor rhwng mis Mawrth a Hydref. Yn 2024-2025 bydd yn derbyn toriad yn fisol o fis Mawrth i Fis Hydref.

**8.0 CAE BACH**

8.1 Mae Cae Bach yn cael ei ddefnyddio gan bobl o bob oedran, yn bobl

o'r pentref neu'n ymwelwyr i'r ardal. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y tyfiant gwair yn cael ei dorri yn fisol o fis Mawrth i fis Hydref yn flynyddol; er hynny mae'r Cyngor yn Gwerthfawrogi ymdrechion Mr Eric Baylis yn cynnal y gwaith wyneb dros gydol y flwyddyn ac yn edrych ar ôl y coed a'r planhigion.

**9.0 TOILEDAU CYHOEDDUS**

Mae'r Cyngor Cymuned yn sicrhau bod y cyfleusterau yn parhau ar agor yn y pentref gan ymrwymo i gynllun gyda Chyngor Gwynedd drwy dalu £4000 yn flynyddol.

**10.0 ASEDAU**

10.1 Mae'r Cyngor Cymuned â chyfrifoldeb am yr asedau canlynol:

Storws Capel Coch
Cae Chwarae
Pêl Droed UWFA a Goleuadau
Cysgodfannau Bws
Cysgodfannau Bws
Cofeb Rhyfel
3 Maen Croeso i'r pentrefi
3 Hysbysfwrdd
Meinciau
Mynwent
Hysbysfwrdd y Fynwent

**11.0 CHYMORTH ARIANNOL**

11.1 Yn flynyddol mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth grwpiau a chymdeithasau o'r pentref ac yn 2023 - 2024 fe dderbyniodd y canlynol arian fel cydnabyddiaeth o'u cyfraniad at les y trigolion lleol.

| | |
|---|---|
| Guiding Llanberis | £300 |
| Côr Dyffryn Peris | £300 |
| Grŵp Datblygu Llanberis | £300 |
| Eco'r Wyddfa | £300 |
| Clwb Pêl droed Llanberis | £300 |
| Pentre' Taclus Llanberis | £300 |
| Eglwys Sant Peris | £300 |
| Seindorf Arian Llanrug | £300 |
| Merched y Wawr Llanberis a Nant Peris | £300 |
| Gefeillio Llanberis a Morbegno | £300 |
| Y Festri | £300 |

**12.0 MYNWENT**

12.1 Derbyniodd y fynwent gynnal a chadw da drwy gydol y tymor tyfu gyda gwair yn cael ei dorri yn fisol. Y ffioedd am eleni oedd fel yr isod ond byddant yn cael eu hadolygu yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.

| | **Plwyfolion** | **Eraill** |
|---|---|---|
| Hawl Claddu | £225 | £355 |
| Ffi Claddu Tro Cyntaf | £195 | £295 |
| Ail Agor Bedd | £195 | £295 |
| Hawl Claddu Llwch | £175 | £225 |
| Ffi Claddu Llwch | £175 | £225 |
| Codi Carreg Fedd | £225 | £225 |
| Torri Enw yn y dyfodol | £175 | £175 |
| Claddedigaeth plentyn | Am ddim | |
| Archwilio'r gofrestr | Am ddim | |

**13.0 LLWYBRAU CYHOEDDUS**

13.1 Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn archwilio Llwybrau Cyhoeddus y pentref yn flynyddol ond ers y pandemig nid yw hyn wedi digwydd. Mae'r Cyngor hefyd yn sicrhau bod trigolion lleol yn gallu cael mynediad iddynt drwy sicrhau bod cynnal a chadw yn digwydd yn flynyddol ar rai o'r llwybrau. Mae penderfyniad wedi ei wneud bydd yr arolygiad ar y llwybrau yn ail ddechrau o fewn y flwyddyn ariannol newydd.

**14.0 ARIAN HBO**

14.1 Mae'r Cyngor wedi derbyn arian oddi wrth y Cwmni HBO ar ôl i ffilmio gymryd lle yn yr ardal. Mae'r arian yma i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau cymunedol. Bydd cyfle i sefydliadau wneud cais am yr arian. Bellach mae telerau gwneud cais wedi eu gwneud ac wedi eu derbyn gan y Cyngor. Mae panel o 5 cynghorydd wedi ei ddewis i reoli'r gyfundrefn i ddelio a'r arian, y ceisiadau a'r dosbarthu'r arian. Gobeithir bydd y mater yma yn hysbys yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.

**15.0 CELF GYHOEDDUS LLANBERIS (CERFLUN COFFA'R CHWARELWYR)**

15.1 Mae arian Ffyniant Bro wedi ei ennill gan Gyngor Gwynedd a bwriedir defnyddio rhan ohono ar gyfer celf gyhoeddus yn ardaloedd y llechi sydd yn rhan o safle UNESCO safle Treftadaeth y Byd. Mae'r prosiectau yn cael eu cyd-gordio gan Lafan. Bydd y prosiect Llanberis yn gorfod cael ei gwblhau erbyn diwedd 2024. Mae amserlen yn dynn iawn ond mae amserlen yn ei le i'r holl waith bydd ymgysylltiad â'r cyhoedd a phreswylwyr y gymuned yn rhan o'r gwaith gan yr artist fydd yn fuddugol mewn proses dendro.

15.2 Mae safle wedi ei ddewis gan y Cyngor sef Parc Bach sydd ar ochr dde'r ffordd sydd yn arwain at yr Amgueddfa Lechi. Mae'r safle yn arwyddocaol gan ei fod ar yr union ffordd roedd y chwarelwyr yn cerdded a beicio i'w gwaith.

**16.0 GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL**

16.1 Am y tro cyntaf eleni bu trefniant o'r Ffair Nadolig yn nwylo'r Cyngor Cymuned dan arweiniad y Pwyllgor Gweithgareddau Cymunedol. Fe ddefnyddiwyd Eglwys Sant Padarn fel y safle ar gyfer y ffair. Roedd yr achlysur yn un arbennig iawn, gyda goleuadau Nadolig a'r Goeden Nadolig ar y Stryd Fawr yn eu lle ac yn weithredol; gwelwch y lluniau isod am flas o'r digwyddiad.



16.2 Bwriad y Cyngor yw trefnu digwyddiad Cymunedol arall yn yr Haf.



17.0 **CANLYNIAD**

17.1 Mae cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd i gymryd rhan, gall hyn gael ei wneud mewn person neu yn rhithiol ar yr ail nos Fercher am 7 yn yr hwyr o bob mis ac eithrio mis Awst. Mae gwahoddiad agored i bobl fod yn bresennol ond gadewch i'r Clerc wybod os ydych am fynychu. Gallwch fod yn bresennol mewn person neu yn rhithiol drwy wneud cais i'r Clerc am linc. clerc@cyngorllanberis.cymru Mae holl gofnodion a gwybodaeth ariannol y cyfarfodydd i'w gweld ar wefan y Cyngor Cymuned sef <https://cyngorllanberis.cymru>

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION BYR CYFARFOD 9FED O HYDREF 2024

**PRESENNOL**
Bethan Holding (is-gadeirydd)
Iola Owen
Rhys ap Gwilym
Helen Sharp
Emlyn Baylis
Nia Jones
Kevin Jones
Iwan Harding
Kim Jones

**YMDDIHEURIADAU**
Llinos Wyn Pritchard
Louise Price
Trystan Thomas
Gwilym Evans

**PRIF BENDERFYNIADAU**

**1 Cyflwyniad gan yr Heddlu** – trafod cyflwyno camerâu cylch cyfyng yn Llanberis - penderfynu edrych am grantiau i gyflwyno'r camerâu.

**2 Sul y Cofio** – Dydd Sul 10fed o Dachwedd 2024. Gwasanaeth yn yr Eglwys am 10:15am yna cerdded at y Gofeb i barhau â'r cofio am 10.50am yna dau funud o dawelwch.

**3 Is-ddeddfau** – symud ymlaen i gyflwyno is-ddeddfau rhag parcio mewn cilfanau dros nos. CLERC

**4** Cefnogi Cyngor Gwynedd gyda pheidio talu i Stad y Goron am yr hawl i gael mynediad i lannau ei hun.

**5** Dim datgan diddordeb.

**6** Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Medi 2024 a'u derbyn.

**7** Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr – Cefnogi lleoliad y Cerflun. Cefnogi maint y Cerflun. Derbyn mabwysiadu'r cerflun wedi iddo gael ei gwblhau. Er mwyn lleihau ei effaith amgylcheddol, y Cyngor i osod bocsys ystlumod ac adar. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn cyflwyno bocsys ystlumod ac adran ar goed cyfagos. Pan gwblheir y cerflun mae angen i'r Cyngor fabwysiadu'r cerflun fel ased. Dangosodd Y Cyngor gytundeb i wneud hyn. CLERC

**8** Panel HBO - cyfnod derbyn ceisiadau yn parhau yn agored nes Rhagfyr 1af 2024. CLERC

**9** Campfa Awyr Agored - mae'r cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant mewn egwyddor. Y Clerc i symud ymlaen i gael gwybodaeth pellach gan Gyngor Gwynedd cyn gall y gwaith fynd yn ei flaen.

**10** Toiledau - Talu £6000 yn unig tuag cost flynyddol y toiledau yn unig.

**11** Dewis arwydd glas a gwyn ar gyfer y fynwent i ddweud Dangoswch Barch - Dim gwastraff.

**12** Daeth y cyfarfod i ben am 9:46 yr hwyr.


# Ysgol Gwaun Gynfi

**Cymorth Cyntaf**
Ym mis Medi cafodd disgyblion Bl6 sesiwn cymorth cyntaf. Pawb wedi ymateb yn wych i'r sesiynau.





**Gweithio tu allan**
Disgyblion Bl 2 yn mwynhau gweithio ar y '*decking*' newydd. Gobeithio am fwy o dywydd braf!



**Heriau Gemau Olympaidd**
Amrywiaeth o weithgareddau gwahanol yn ymwneud â'r gemau Olympaidd.




**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau mawr ar dy lwyddiant mewn ras 600m ac I milltir gyda Byw'n Iach.






Y tri yma wedi mwynhau chwarae criced dros yr Haf



Llongyfarchiadau mawr i chdi ar dy lwyddiant mewn cystadleuaeth bocsio


**Gweithdy creadigol**
Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau cael sesiynau gyda'r cwmni Screen Alliance W yn creu gwaith creadigol a dychmygus wrth ymarfer llunio stori. Bydd y sesiynau yma ymlaen am yr wythnosau nesaf.
Edrychwn ymlaen at sut fydd hyn wedi datblygu eich sgiliau.



**Tîm pêl droed yr ysgol**
Llongyfarchiadau mawr i chi ar eich llwyddiant mewn twrnament gyda'r Urdd yn ddiweddar. Y criw yma wedi llwyddo i ennill y grŵp a chyrraedd rownd yr wyth olaf. Da iawn wir!

# Ar ben arall i’r lein

A dyna ni! Erbyn i’r *Eco* ddod trwy’r drws bydd y tymor wedi hen ddod i ben ar ein holl ddyfroedd (17 Hydref). Heblaw wrth gwrs yr hen ffefryn, Llyn y Dywarchen, a fydd yn dal ati hyd at 30 Tachwedd: lle arbennig yr amser yma am frithyll yr enfys mawr, dim brillyll brown cofiwch. Triwch geg yr afon ger yr argae, ond tydw i ddim am ddweud gormod neu o bosib byddaf yn cael tipyn o gwynion am ddatgelu’r gyfrinach o fod yn llwyddiannus Fodd bynnag, triwch yr hen ‘booby lliw eirin gwlanog’.

Sut aeth hi felly trwy’r flwyddyn a oedd yn gymysglyd a dweud y lleiaf. I ddechrau, ni all neb gwyno nad oedd yna ddŵr. Roedd digonedd o gwmpas, ond nid oedd hyn yn adlewyrchu yn y nifer o eogiad a gwyniadau a ddaeth i’r rhwyd. Mae’n bosib mai’r ateb am hyn yw bod y llifogydd cyson wedi rhoi llwybr di-rwystr i’r pysgod mudol yma i redeg yr afonydd am y llynnoedd.

Mi eglurais yn y rhifyn diwethaf am y nifer fawr a oedd yn dangos ar y darganfyddwyr pysgod, ar lynnoedd Padarn, Cwellyn a Nantlle. Mae’n siwr fod rhai ohonoch wedi cael golwg ar ein tudalen ‘facebook’, i gael golwg ar y sioe fawr wrth i’r dolffiniaid hela’r eog ar y Fenai. Marciau llawn i’r tynnwr lluniau am gael lluniau cystal.

Mae’n werth tynnu sylw hefyd at y nifer fawr o ddraenogiad y môr sydd o gwmpas. Unwaith eto, y Fenai ydi’r lle i fod. Dyma i chi un gwerth ei weld: y mwyaf sydd wedi dod i sylw ers blynyddoedd lawer, o Bier Esso ac i enwair Dion o Gaernarfon. Dal ati

Er mor gymysglyd fu’r sgota,


Harbwr ‘The Witcher’ ar Padarn

mae ffilmio yn y fro wedi gweld cynnydd di-ben-draw, a llawer ohono wedi ei wneud ar eiddo’r Gymdeithas Bysgota. Does dim dwywaith mai’r un a gafodd y mwyaf o sylw yw’r ‘Witcher’, sef cyfres Netflix. Doedd dim posib sgota pan oedd hyn yn mynd ymlaen, ond fodd bynnag fe ddaeth rhyw gydnabyddieath bach i ffordd y Gymdeithas.

Y ffilmio diweddaraf yw ‘Prosiect Pum Mil’, yn ymwneud â Chapel Penisrawaun, gyda llecyn arall yn cael ei ddefnyddio ym Mhenllyn. Ac ar ben hyn, mae ymholiadau yn dod i law i gynhyrchiad arall Netflix gael defnydd o Lyn y Dywarchen. Mae hyn i gyd o gymorth mawr i allu dal prisiau aelodaeth ar eu lefel bresennol. Mae hyn yn anodd dros ben o gofio’r codiadau ym mhrisiau yswiriant, trydan, peiriannau torri gwair a chostau cynnal a chadw’r glannau. Mae hyn i gyd yn cael ei redeg gan griw bach. Mae ein diolch iddynt yn amhrisiadwy. Diolch o galon i chwi oll. Dyma gyfle unwaith eto i ddod â’r bregeth allan! Pwy sydd am ddod i roi ei ysgwyddau at y gwaith? Llawer gobeithio.


Prosiect Pum Mil ym Mhenllyn


Rhan arall o’r bregeth wrth gwrs yw’r ffaith bod angen rhoi mwy a wybodaeth am yr hyn y mae’r Gymdeithas yn ceisio’i gyflawni. Rwyf wedi cyfeirio nifer o weithiau at ein bwriad i gychwyn gweithgareddau sy’n ymwneud â’r grefft. Mae rhyw symudiad wedi bod ynghylch hyn. Wel, o leiaf mae teitl wedi ei benderfynu, sef ‘Darganfod Pysgota’. I ddechrau’r fenter, mae angen cael cyflwyniad a fydd yn dal sylw ac yn glynu yn y meddwl ynglŷn â pha mor ddeniadol yw popeth sy’n ymwneud â sgota a’r byd amgylcheddol sydd o’n cwmpas. Dyma be dynnodd fy sylw y diwrnod o’r blaen yn Crawia. Mae cryn gyfeiro ar y cyfryngau at brinder a’r posibilrwydd o golli ein ‘ieir bach yr haf’. Yr un mwyaf lliwgar o gwmpas y lle yw’r ‘Red Admiral’. Ond wyddoch chi be? Does dim prinder o’r rhain ar lannau’n dyfroedd. Roedd y lle yn berwi ohonyn nhw – eu prif ymborth yr amser yma yw blodau’r iorwg. Mae digonedd o’r tyfiant yma ar ein glannau. Da, de!

Ond yn ôl at ein cynllun Darganfod Pysgota! Y syniad yw cael agoriad llygaid ar be sydd ar gael o gwmpas ein bro weithredol. Dyma rydym yn gobeithio’i wneud: fideo dan y teitl ‘O’r Wyddfa i’r Môr’ a fydd yn cymryd golwg o’r awyr ar yr holl lynnoedd ac afonydd ar eu taith i’r dŵr hallt; y pysgota sy’ ynghlwm â’r holl dyfroedd; a rhywfaint am y dreftadaeth sy’n gwau popeth i’w gilydd. Mae nifer o ffynonellau wedi dangos diddordeb yn y fenter, ond gobeithio bydd cymorth i’w gael, gan fod arianu menter o’r fath allan o gyrraedd y Clwb ar ei ben ei hun wrth gwrs

Cyn cloi, dyma droi nôl at y sgota a materion sy’n codi tipyn o bryder, a’r mwyaf o’r rhain yw’r torgoch a’u byd ym Mhadarn. Eleni, does ond dyrnaid wedi dod i’r rhwyd. Welais i fy hun yr un ohonyn nhw. Ond do, dwi wedi cael tipyn o frithyll brown a digon o ddraenogiaid, a hefyd llond pwcedi o chwyn. Fel y gwyddoch, mae bron i chwarter miliwn o bunnoedd wedi ei ddynodi i ryw gorff neu’i gilydd i wneud gwaith i arbed y torgoch. Efallai ei fod yn plesio rhai, ond yn y pen draw ydi cael rhai i wneud darluniau o’r torgochiaid ac i snorclo yn y chwyn yn mynd i ddod â’r un pysgodyn ychwanegol i’r Llyn? Rydym wedi gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru a oes unrhyw obaith gwneud rhywbeth, yn enwedig ail gychwyn y cynllun magu a defnyddio’r Ddeorfa yn Crawia ar gyfer hyn. Ddaeth dim ateb eto; os daw un o gwbl.

**Huw Price Hughes**


Draenog y Môr 16 pwys i Dion


Llyngesydd Coch / Red Admiral

# Garddio



## TACHWEDD

Yn ystod mis Hydref daeth Llewyrch yr Arth i'n swyno! Wedi methu ei weld sawl tro ac wedi dotio i ni lwyddo i'w weld – o'r diwedd. Ond y bore wedyn roedd mwy o ias a ffrind yn dweud bod rhew ar ffenest flaen y car. Mae'n amlwg bellach bod y dyddiau'n byrhau a'r nosweithiau'n dywyllach a hirach, felly dyma ddechrau ar dymor o gynnau canhwyllau a chynnau tân. Mae'r tybiau a'r bylbiau wedi eu plannu ond mae dal amser i blannu ambell i beth hyd yn oed ym mis Tachwedd.

**Plannu bylbiau**
Mis Tachwedd yw'r adeg i blannu bylbiau tiwlip. Mae'r rhain angen eu codi bob blwyddyn ar ôl eu plannu os ydach chi am sioe dda yng ngwanwyn y flwyddyn ganlynol. Os ydach chi'n plannu mewn tybiau, gosodwch rwyd drostynt, roeddwn i'n nhŷ fy mam yn ddiweddar ac roedd wiwer lwyd wedi bod yn brysur yn tyrchu a chodi'r bylbiau! Llygod mawr y coed ydyn nhw'n ôl rhai! Dydy hi ddim chwaith yn rhy hwyr i blannu bylbiau i dyfu yn y tŷ. Tyfwch hyacinth ar gyfer lliw a phersawr yn y gwanwyn. Os am rywbeth mwy dramatig gallwch i blannu'r *hippeastrum* neu'r *amaryllis*. Plannwch nhw mewn pot ychydig yn fwy na'r bylb mewn compost aml bwrpas di-fawn neu John Innes Rhif 2. Dylai o leiaf dau draean o'r bylb fod uwchben y pridd. Peidiwch â bod yn hael efo'r dyfrio tan welwch chi arwyddion o dyfiant. Mi ddylech weld blodau o fewn 6 – 8 wythnos, gyda gofal gallwch eu hail-blannu'r gaeaf canlynol.




**Plannu hadau**
Mae'n rhaid garddio yn unol â'ch lleoliad a meddwl am y tywydd, sydd yn hynod anwadal ar hyn o bryd. Naw wfft i'r gwybodusion sy'n dweud bod modd plannu hadau ffa e.e. Aquadulce neu letys o dan wydr tu allan. Does dim pwynt yma ar lethrau Moel Rhiwen, ond wrth gwrs tebyg bod mwy o siawns ganddoch os ydach chi'n byw'n is i lawr ym mhentrefi bro'r Eco.


**Plannu a rhannu**
Ond mi rydw i wedi rhannu ac ail blannu garlleg. Mi dyfodd y rhain yn dda llynedd, dydw i ddim yn llwyddo i gael bylbiau mawr iawn, ond maent yn flasus mewn gwahanol seigiau, ac yn ôl pob sôn yn llesol. Gallwch eu plannu ym mis Tachwedd gan eu bod angen 4 i 6 wythnos o oerni i ffurfio bylbiau'n iawn. Rhaid cyfaddef 'mod i wedi eu plannu'n gynharach na hynny gan resymoli y bydd ganddynt well siawns yma bryd hynny. Eleni, gan fy mod i'n dal i obeithio medru plannu rhywbeth wneith oroesi'r tywydd, mi ydw i wedi plannu setiau nionod ym mhob rhan o'r ardd sy'n cael ei ddefnyddio i blannu llysiau a'r tybiau, lle wnaeth y sbigoglys (*spinach*) wrthod tyfu neu farw ar ôl dechrau tyfu nôl ym mis Medi. '*Autumn Champion*' oedd ar gael yn y ganolfan arddio, felly dwi wedi plannu 50 ohonynt, ac yn ôl y paced os dwi'n eu plannu nhw yn yr hydref mi ga'i gnwd yn gynnar y flwyddyn nesaf ar gyfer coginio neu'i biclo! Dwi wedi piclo nionod dyfais i yn y gwanwyn fel slots (shallots) ar gyfer salad, (jar fach iawn, chadael a'r rhai brynwyd i'w piclo) gobeithio bydd gen i fwy'r flwyddyn nesaf. Amser a ddengys.




**Plannu coed a llwyni**
Os am arbed arian mae coed neu lwyni troednoeth (*bareroot*) ar gael yn awr. Dyma'r adeg i'w plannu ond os gyrhaeddan nhw drwy'r post ac mae hi'n rhy wlyb neu'n rhewllyd plannwch nhw i gynwysyddion llawn compost a'u dyfrio, nes cewch chi gyfle i'w rhoi yn y pridd. Pan fyddwch yn eu plannu, cynta'n y byd gorau yn y byd tociwch blaenau'r gwreiddiau a thaenwch *fungi mycorrhizal* drostynt, cyn llenwi'r twll a'i ddyfrio. Rhowch daenfa *(mulch*) o gylch y planhigyn i'w gadw'n llaith a chadw chwyn draw. Cofiwch ddyfrio os eith hi'n sych.

**Clirio a thwtio**
Dyma'r mis i glirio'r planhigion fel y dahlia, gladioli a begonia er mwyn eu sychu a'u cadw ar gyfer y flwyddyn nesaf. Wrth i mi ysgrifennu hwn ganol mis Hydref mae'r dahlia *Crème de Cassis* a *Bishop of Llandaf* wedi blodeuo ers mis Awst ac yn dal i fod efo llwyth o flagur a blodau. Pan fydd y deiliach yn troi'n ddu, pan ddaw'r rhew a barrug cyntaf ym mis Tachwedd mi fyddant yn mynd i'r sied ar ôl torri'r dail a choesau yn ôl i'w storio. Os nad oes ganddo'ch lle i'w storio tu mewn, rhowch nhw yn rhywle cysgodol, wedi eu gorchuddio mewn '*horticultural fleece*'. Fydd raid i mi gofio eu labelu neu byddai wedi anghofio p'run ydy p'run erbyn gwanwyn 2025 a chroesi bysedd na fyddant yn pydru i gael mwynhau sioe hyfryd eto.





Mi chwalodd potyn mawr tsieni yn ddarnau llynedd oherwydd rhew. Mi ydw i wedi cadw'r darnau i'w gosod yng ngwaelod potiau eraill fyddai'n eu plannu i'r dyfodol. Gosodwch draed bach o dan botiau tsieni, gan fod mwy o siawns iddynt gracio a malu os ydynt ar y llawr. Peidiwch chwaith a bwydo potiau yn y gaeaf gan fydd unrhyw dyfiant bach newydd yn gwywo a nychu os ydy'n rhewi. Os ydy hi'n rhewi go iawn ac y daw'r gwynt dieflig o'r dwyrain unwaith yn rhagor, symudwch nhw i mewn neu i le cysgodol neu gorchuddiwch nhw mewn '*horticultural fleece*' neu '*bubble wrap*' os oes ganddoch beth o gwmpas y lle, i warchod y potyn a'r planhigion. Un peth yn sicr, dydy gwaith y garddwr byth yn darfod…

Erstalwm roedd pobl yn sôn am roi'r ardd yn ei gwely a byddai popeth yn cael ei glirio'n daclus. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae mwy o bwyslais am adael rhai pethau er mwyn hyrwyddo presenoldeb bywyd gwyllt yn yr ardd. Os wnewch chi adael tomen o ddail mewn rhyw gornel er enghraifft gall fod yn gartref clud i bob math o bryfetach, neu os ydy o'n domen ddigon mawr yn gartref i ddraenog! Yn yr un ffordd bydd yr adar wrth eu bod efo pennau blodau sy'n troi'n hadau.

Gallwch adael tamaid bach o goesau rhai planhigion lluosflwydd (*perennial*) sydd wedi gorffen blodeuo, yn sticio allan o'r pridd fel ffordd o gofio bod rhywbeth yno pan fyddwch yn meddwl plannu pethau newydd yn y gwanwyn. Ond os yw rhai efo strwythur gaeafol neu bennau hadau hardd, rhowch y siswrn yn y cwpwrdd a gadewch iddynt fod, os gawn ni farrug mi fyddant yn edrach yn hyfryd. Mae celyn y môr (*echinops*), echinacea, cribau'r pannwr (*teasel*), lunaria annua (*honesty*) ceiniogau a'r briweg (*sedum*) werth eu cadw a'r *dianthus* sy'n wyrdd bron iawn drwy gydol y gaeaf. Gall pennau'r trilliw ar ddeg (*hydrangea)* aros ar y llwyni hefyd, i warchod dipyn ar y planhigyn ac i harddu'r ardd os cawn nhw orchudd o farrug. Pan ddaw tyfiant newydd yn y gwanwyn gallwch eu tocio.


Dwi hefyd eleni wedi rhoi cansen bambŵ a chrogi label arno efo enw'r bylbiau fel yr alliums, gan 'mod i wedi codi sawl un yn y gorffennol. Mae'r adar neu gath fawr sunsur yn dueddol o godi labeli bach. A finnau'n eu bwydo drwy'r flwyddyn fasech chi'n meddwl byddai ganddynt fwy o barch!



Daliwch ati i chwalu chwyn pan gewch chi gyfle ac wrth gwrs gall y dail rydych yn eu tocio neu sy'n disgyn o'r coed o'ch cwmpas i gyd fynd at y domen gompost neu i greu deilbridd.

***Rhosyn Mynydd***

# Denu ymwelwyr cynnar


THE

TOURIST'S GUIDE

THROUGH THE

County of Caernarvon,

CONTAINING A SHORT SKETCH

OF ITS

HISTORY, ANTIQUITIES, &c.

By The Rev. P. B. Williams, A. B.

RECTOR OF LLANRUG AND LLANBERIS.

CAERNARVON:

PRINTED AND PUBLISHED BY J. HULME,

Bookbinder & Stationer, Turf-Square.

AND MAY BE HAD OF POOLE & HARDING, CHESTER; R. TAYLOR, LIVERPOOL; AND ALL OTHER BOOKSELLERS.

—0—

1821.

Mae'n syndod faint o ymdrech sydd wedi ei roi i ddenu ymwelwyr i'r ardal ers dros ddau gant o flynyddoedd; yn aml ar draul y boblogaeth leol ac er budd perchnogion gwestai yn wreiddiol a pherchnogion pob math o gyfleusterau i ddiddanu'r dieithriaid yn ddiweddarach. Bellach, mae cwyno am or-dwristiaeth a'i effaith ar yr amgylchedd, boed hynny'n erydu llwybrau neu lygru afonydd a llynnoedd â sbwriel. Ond nid dadlau o blaid neu yn erbyn twristiaeth gynyddol yw bwriad y golofn y mis hwn; yn hytrach, dathlu un o'r cyhoeddiadau cynharaf i geisio ysgogi a denu mwy o ymwelwyr i ddod i'r ardal.


Roedd y Parchg Peter Bailey Williams wedi bod yn rheithor plwyfi Llanberis a Llanrug am dros ugain mlynedd cyn cyhoeddi'r gyfrol fechan *"The Tourist's Guide through the County of Caernarvon"*. Fe'i cyhoeddwyd gan J. Hulme, llyfrwerthwr o'r Clwt Mawn, Caernarfon ym 1821. Mae'n cael ei disgrifio fel *"a little Manual principally for the use of Strangers"*. A dyna brif fwriad y gyfrol: rhoi gwybodaeth i ddieithriaid, sef ymwelwyr, am safleoedd i ymweld â hwy yn yr hen Sir Gaernarfon. Mae'n rhestru tua 300 o danysgrifwyr i'r gyfrol; y mwyafrif ohonynt o Sir Gaernarfon, ond nifer dda o Fôn a rhai o lefydd mor bell â Lerpwl. Mae nifer o'r tanysgrifwyr hefyd wedi tyngu i brynu mwy nag un copi o'r gyfol. Ychydig yn unig o'r tanysgrifwyr oedd yn byw o fewn bro'r 'Eco' bryd hynny. Daw'r mwyafrif o dref Caernarfon.

Pwy felly o'r ardal hon allai fforddio prynu'r fath gyfrol? Doedd neb o blwyf Llanberis na Llanddeiniolen ymhlith y tanysgrifwyr. Yr oedd y Waunfawr yn rhan o blwyf Llanbeblig bryd hynny, ond Caernarfon yn unig sy'n ymddangos yn y rhestr noddwyr onibai fod y tanysgrifiwr yn ŵr bonheddig megis preswylydd Parcia neu Goed Alun. O blwyf Llanrug mae'r enwau hyn yn ymddangos: J. Bradley Esq., Plastirion; T. Lloyd, Esq., Glangwna ynghyd â Mrs Lloyd a Miss F. Lloyd;. H. Morris, Tŷ Gwyn; a John Rowlands, Esq., Plastirion. Mae un enw arall yn ymddangos, sef David Thomas, Bard of Snowdon, a hwn, wrth gwrs, oedd Dafydd Ddu Eryri, a oedd erbyn dyddiad cyhoeddi'r gyfrol yn byw yn y Fron Olau, Llanrug. Roedd y Rheithor wedi bod yn noddwr i'r hen fardd, ac wedi ei gyflogi i gadw ysgol yn Llanrug, ac mae'n bosib fod yr hen Ddafydd yn teimlo fod angen iddo ddangos ei ddiolch drwy brynu'r gyfrol! Enw arall sy'n ymddangos yw Captain Haslam o Gaernarfon, ac y mae hwn yn prynu pedwar copi o'r gyfrol. Hwn oedd yn gyfrifol am Filisia Sir Gaernarfon, a chyn symud i Gaernarfon roedd yn cadw Melin Bapur ym Modrual, Llanrug. Y syndod yw iddo brynu pedwar copi, oherwydd rai blynyddoedd ynghynt roedd Arolygwyr y Tlodion yn Llanrug yn ei erlyn yng Nghaernarfon am beidio talu treth tlodion y plwyf. Tybed oedd ei gydwybod yn pigo?

Beth felly sydd gan Peter Bailey Williams i'w ddweud am ddyffryn Peris a dyffryn Gwyrfai yn y cyfnod hwn? Mae dringo'r Wyddfa o'r ddau ddyffryn yn cael sylw – *"if the Traveller be so disposed"*. Gellid cychwyn o'r *'Guide's House'* ar lan *'Cawellyn (Quellyn) Lake'* a dilyn y llwybr a ddefnyddid i ddod â mwyn copr o'r gwaith ar lethrau'r Wyddfa. O blwyf Llanberis gellid cychwyn o'r bont dros afon Hwch a dilyn y *'copper Sledge pathway'* drwy Waun Cwm Brwynog cyn dringo Llechwedd y Re (*'otherwise Clogwyn Coch'*) ac ymuno â'r *'Quellyn Copper ore path'* yn y Bwlch Glas. Dyma'r ddau lwybr hwylusaf yn ôl yr awdur, *"along either of which, any person, who is a tolerable horseman, may ride a Welsh pony"*.

Rhoddir sylw i'r daith o Gaernarfon i fyny'r dyffryn, gyda chanmoliaeth i'r bont gerrig ym Mhontrug, ond beirniadaeth i'r ffordd – *"rough, uneven and greatly injured by the slate carts"* – nes cyrraedd Cwm y Glo. Yno, *"a boat may be engaged"* i gyrraedd pen uchaf Llyn Peris a chael *'refreshments'* yn nhafarn Robert Closs. Ceir disgrifiadau o eglwysi Llanrug a Llanberis (gan gynnwys Ffynnon y Sant), a hefyd Llys Dinorwig, a rhoddir sylw arbennig i Marged uch Ifan a'i gorchestion. Mae hefyd yn argymell ymweld â chwareli llechi Mr Smith yn yr Allt Ddu a Chlogwyn y Gigfran a gwylio'r gweithwyr yn hongian ar raffau.

Ceir hefyd ddisgrifiadau a lleoliadau rhai o'r planhigion oedd yn denu'r ymwelwyr cynnar i'r ardal. Rhaid cofio mai naturiaethwyr a chasglwyr planhigion prin oedd llawer o'r ymwelwyr cynnar. Mae rhestr ddwy dudalen o'r planhigion hyn wedi eu cynnwys yng nghefn y gyfrol, wedi eu casglu gan Mr J. Roberts, Surgeon, Carnarvon. Am drafodaeth a hanes difyr yr ymwelwyr cynnar hyn gweler cyfrol


*The following are recommended as good Guides:*
Thomas Williams, of Glan y Bala, or the Cottage between the Lakes, Llanberis.
Thomas Phillips, Thomas Griffith, and all the Boatmen at Cwm y glo, Llanrug.

werthfawr Dewi Jones – *"The Botanists and Mountain Guides of Snowdonia"*.

Rhaid sylweddoli fod newidiadau sylweddol wedi digwydd yn yr ardal ers cyhoeddi'r gyfrol ym 1821.

Doedd pentref presennol Llanberis ddim yn bodoli. Mae Llanberis ym 1821 yn golygu'r Nant Peris presennol.

Doedd dim ffordd o Gaernarfon i Lanberis – dyna pam y rhoddir cymaint o sylw i gychwyr Cwm y Glo.

Doedd Pont Penllyn ddim wedi ei chodi.

Byddai'n rhaid disgwyl deng mlynedd cyn y cai Gwesty'r Victoria ei adeiladu.

Y New Inn (Dolbadarn) oedd yr unig dafarn ar y ddôl ger Llyn Padarn.

158 o dai oedd ym mhlwyf Llanrug a 682 o drigolion.

86 o dai oedd ym mhlwyf Llanberis a 438 o drigolion.

Does dim sôn am y Waunfawr na Llanddeiniolen.

**Llofruddiaeth ar y Neva Claim**

Yn dilyn hanes y dyn-laddiad honedig yn y rhifyn diwethaf, cysylltodd Mrs Delyth Williams, Fferm Pen y Gaer, Penisarwaun, a chyfeirio at erthygl fer yng nghylchgrawn 'Gwreiddiau Gwynedd' yn sôn am adroddiad am lofruddiaeth yng Nghaliffornia a gofnodwyd ym mhapur 'Y Cenhadwr' ym 1868. Mae'n werth ei ddyfynnu: *"Ar Awst 25 pan aeth gwyliwr ar ei wyliadwriaeth tuag un o'r gloch y bore, canfyddodd ddyn yn dechrau ysbeilio, sef codi aur o'r sluice-box. Gwnaeth y peth yn hysbys i'r bechgyn eraill. Aeth tri ohonynt ymlaen heb yr un arf, a phan yn lled agos i'r lleidr, trodd tuag atynt a saethodd un o'r bechgyn yn ei fynwes aswy – aeth y belen drwyddo – bu farw hanner dydd.... Enw y llofruddiedig oedd William Ellis tua 36 oed. Ei gartref yn yr hen wlad oedd Cae y Bythod, plwyf Llanddeiniolen, lle triga ei fam weddw. Dihangodd y llofrudd."*

Claddwyd William Ellis ym mynwent San Juan, Camptonville, California.

Hwn felly oedd brawd y Daniel Ellis (Williams) a gyhuddwyd o daflu cerrig at Rice Williams ac achosi ei farwolaeth. Ers pryd tybed yr oedd William Ellis wedi mudo i'r America, ac a ddihangodd ei frawd ato yn dilyn y ffrwgwd a achosodd farwolaeth gŵr Tyddyn Andrew?

Os oes mwy o wybodaeth ar gael am yr hanes uchod, cofiwch anfon. Cysylltwch hefyd ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r Eco. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL5 4BA neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

## Cornel Ddarllen

Er mai ar 27ain Medi cyhoeddwyd cofiant dirdynnol y bardd Gwyneth Lewis, mi wnaeth gyrraedd top ein 10 uchaf ar gyfer Medi. Anaml iawn y bydd hyn yn digwydd, ac mae'n tystio i boblogrwydd Gwyneth a'r chwilfrydedd sydd gan bobl i ddarllen hanes perthynas gymhleth mam a merch.

Mae gweld Yr Hobyd wedi'i addasu i'r Gymraeg yn hynod ddifyr, a hyfryd yw gweld pobl ifanc yn dod i chwilio am gopi o'r clasur hwn i'w ddarllen yn Gymraeg. Mae yna bedair nofel newydd werth eu darllen yn y 10 uchaf hefyd.


Cafwyd noson hyfryd yng Nghaffi Frân Las, Llanberis yn ddiweddar i ddathlu cyhoeddi cyfrol fechan hyfryd o gerddi gan Casi Wyn.


Os 'da chi'n chwilio am rywbeth i'w ddarllen nawr, neu yn dechrau meddwl am bresantau 'Dolig, mae pob un o'r teitlau isod yn addas iawn i'w rhoi fel anrhegion i bobl.


**Dyma'n 10 uchaf ni ar gyfer Medi 2024**:

1. **Nightshade Mother** – Gwyneth Lewis
2. **Yr Hobyd** – addasiad Adam Pearce o gampwaith JRR Tolkien
3. **Morfarch Arian** – Eurgain Haf
4. **Sarn Helen** – Tom Bullough
5. **Tir: The Story of the Welsh Landscape** – Carwyn Graves
6. **Hei Fidel!** – Pryderi Gwyn Jones
7. **Cysgod y Mabinogi** – Peredur Glyn
8. **Meirw Byw** – Rolant Tomos
9. **Y Cysgod yn y Cof** – Bob Morris
10. **Cariad Yw** – Casi Wyn

Eirian James




# Clwb Pêl-droed Deiniolen yn dychwelyd i Byramid Pêl-droed Cymru

Wedi 12 mlynedd o aros da yw gweld Deiniolen yn dychwelyd i'r cae pêl-droed am y tro cyntaf ers tymor 2011-2012. Bellach mae bro Wyddfa yn ôl a thri thîm yn y Pyramid Pêl- Droed Cymru wedi 2 dymor gyda Llanrug a Llanberis yn unig fel clybiau pêl-droed y fro.

Mae Deiniolen wedi cael cychwyn da i'w tymor yn Adran Gyntaf Y Gorllewin Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru.

Yn eu gêm agoriadol y tymor cafodd tîm Llanbabs gem gyfartal 1-1 oddi cartref yn Amlwch diolch i gôl hwyr gan y capten Arwyn Price.

Rhaid dweud gwych oedd gweld y dathliadau gan y cefnogwyr oddi cartref wedi'r gôl draw yn Lôn Bach.

Wedi ychydig wythnosau o'r tymor cafodd Deiniolen eu gêm gartref gyntaf o'r tymor wedi iddynt orfod chware cwpwl o'i gemau cartref yn Nhreborth nes oedd gwelliannau i'w cae yn Y Bwthyn wedi cwblhau.

Cefni oedd ei gwrthwynebwyr i'r gêm gyntaf yn y Bwthyn ers 12 mlynedd. Braf oedd gweld torf cystal â dros 200 yn gwylio'r gêm. Torf dda iawn ar gyfer gem yn y 5ed haen Pêl droed Cymru. O'i chymharu tridiau ynghynt dim ond 178 oedd yn gwylio Pencampwyr Cymru TNS yn erbyn Bala yn y



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Premier

SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

ECO'r Wyddfa
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com



Cymru Premier.

Am gêm oedd hi i ddychwelyd. Cefni 10 munud cyntaf gwell. Dafydd Jones yn rhoi Deiniolen ar y blaen o fewn 10 munud a chlincar o gôl o bellter.

Cyn yr hanner roedd hi'n ddwy. Ethan Kiernan yn rhwydo wedi symudiad da gan y tîm cartref. Deiniolen 2-0 ar yr hanner.

Ail hanner a Deiniolen yn ymosod tuag at y dorf. O fewn 7 munud roedd hi'n drydedd gyda'r capten Arwyn Price yn rhwydo ar y postyn pellaf.

Hanner ffordd mewn i'r ail hanner rhwydodd yr eilydd Jonny Cyster ychydig o funudau wedi iddo ddod ymlaen a Deiniolen 4-0 ar y blaen. Rhwydodd Cyster am yr ail dro a chwip o gôl o du allan i'r cwrt i gornel uchaf y rhwyd.

Roedd 1 gôl arall i Ddeiniolen gôl i rwyd ei hun gan amddiffynnwr Cefni.

Cyn y diwedd roedd gôl gysur i Cefni ergyd o bellter yn taro'r trawst a phêl yn glanio yn garedig i ymosodwr Cefni Dion Jones i rwydo i'r tîm o Langefni.

Deiniolen yn ennill o 6 gôl i 1. Canlyniad perffaith gan y tim cartref i ddychwelyd i'r Bwythyn.

Mae'r clwb wedi cael canlyniadau da eraill yn yr wythnosau cyntaf y tymor ennill 3-1 yn Mountain Rangers ac 2-0 yn erbyn y Valley yn Nhreborth. Tra cafwyd gem gyfartal 1-1 yn erbyn Caergybi a cholli 5-2 ym Methesda Rovers.

Pob lwc i Ddeiniolen am weddill y tymor a gobeithio bydd y gefnogaeth dda yn parhau draw yn Llanbabs.



CHWARAEON

# Clwb Snwcer Llanrug



**Pete, Rhodri, Jac (y Mascot), Nigel a Clive – tra bod Danny, Owen ac Aled yn dathlu ym Mhalma Nova.**

Mae tymor 2024–25 Cynghrair Snwcer Bangor a'r Cylch wedi cychwyn bellach, ac mae Clwb Snwcer Llanrug nawr yn cynnal dau dîm.

Mae hyn yn dilyn dychweliad un tîm i'r Gynghrair y tymor diwethaf: tîm yn cynnwys Danny Wyn Griffith (capten), Peter Roscoe, Nigel Wyn Griffith, Clive Wyn Griffith, Rhodri Owen, Owen Bracegirdle, Byron Lloyd ac Aled Rhys Williams.

Aeth y tîm ymlaen i ennill dyrchafiad i'r Adran Gyntaf, gan gipio hefyd Gwpan y Gynghrair, a dod yn ail yng Nghwpan Pattison. Enillodd Peter Roscoe hefyd dlysau'r Senglau a'r Senglau Dros 45, tra enillodd Peter a Nigel dlws Parau'r Gynghrair.

Ar gyfer y tymor hwn, mae'r Clwb wedi ffurfio dau dîm: Llanrug Blues, a fydd yn cystadlu yn yr Adran Gyntaf ar ôl dyrchafiad y tymor diwethaf, a Llanrug Reds, a fydd yn cystadlu yn yr Ail Adran.

Bydd Aled Rhys Williams yn arwain y Cochion fel capten, gyda'i gyd-chwaraewyr Owen Bracegirdle, Elis Roberts, John Morgan, Michael Allman, Ben Coxley, Ryan Jones ac Osian Edwards.

Mae'r Gleision wedi cryfhau eu tîm trwy ychwanegu Gwion Jones, Glyn Brown, Daniel Jones a Barri Jones.

Am fwy o wybodaeth am Glwb Snwcer Llanrug, cysylltwch â Danny Wyn Griffith ar 07525 717344 neu Goronwy Hughes ar 07899 825505.

# Pencampwyr Prydain

Oes, mae yna bencampwyr Prydain yma ym Methel, a hynny ym myd cystadleuol y bêl-droed. Pa gystadleuaeth medde chi? Wel, cystadleuaeth pêl-droed dan 8 o fersiwn 3 v 3 pêl-droed. Ie, carfan o bedwar, a thîm o dri ar y cae. Dim gôlgeidwad, ond rhwyd fechan i anelu ati i sgorio. Cyfyngiad hefyd, mai ond o hanner y gwrthwynebwyr y gellir sgorio. Wedi iddynt ennill pencampwriaeth dan 8 Gogledd Cymru, gwahoddwyd pedwar Bethel i'r rowndiau terfynol yn ardal Stoke. Ond nid unrhyw gae yn ardal Stoke, ond ar feysydd ardderchog St. George's Park; hynny yw, meysydd ymarfer prif dimau rhyngwladol Lloegr. Er eu hoedran, roedd y criw yn wynebu rhai gwrthwynebwyr sydd eisoes ar lyfrau clybiau yn Uwch- gynghrair Lloegr.

Ond pwy oedd y pedwar glew? Osian Orlik, Arthur Williams (wedi arwyddo i Everton), Wil Rogers a Harri Tudur Jones. Enw'r tim oedd Amigos dan 8. Yr un llongyfarchiadau i ddau reolwr y tîm, Louis Williams a Marcus Orlik.

Yr oedd tîm arall o Fethel – Amigos dan 11 – hefyd yn cystadlu. Mewn cystadleuaeth safonol a chystadleuol, brwydrodd y criw trwodd i rownd y chwarteri. Da iawn nhw. Aelodau'r tîm oedd Owain Cox, Rhys Morris Jones, Tomi Lawson a Rio Lawson.

Yn sicr, nid 'pysgod mawr mewn pwll bach' yw gwahanol garfannau Bethel bellach. Diolch i'r sawl sy'n hyfforddi a herio'r plant yma yn eu hymroddiad a'u parodrwydd i anelu at safon. Yn y llun gwelir Amigos dan 8 gyda'r tlws buddugol – bron iawn yn fwy o ran maint nag aelodau'r garfan!



# Tîm pêl-droed dynion Deiniolen 2024




Braf dweud bod tîm pêl-droed dynion yn chwarae ar Cae Bwthyn yn Neiniolen erbyn hyn a hynny o flaen torf anrhydeddus adra ac yn eu gemau oddi cartref. Hir yw pob ymaros, deudddeng mlynedd yn achos y tim yma. Felly dyma hanes sut lwyddwyd i atgyfodi'r tîm.

Gallwch ddarllen hanes Eryl Hughes ar dudalen 9 sy'n hel atgofion am y dyddiau hynny a'i atgofion melys.

Ddechreuwn ni tua 5 mlynedd yn ôl pan gymrodd Dion a Glesni'r awenau gan Tony a Lyndsey Pleming tua, i hyfforddi'r timau plant, (Dion yn hyfforddi bechgyn dan 13 oed, a Glesni'n hyfforddi timau cymysg o dan 7 ac o dan 9 oed). Y bwriad gwreiddiol oedd bwydo'r rhai ifanc, wrth iddynt dyfu, i ffurfio tîm dynion ymhen rhyw 10 mlynedd. Ond digwyddodd pethau'n gynt na hynny.

Nôl ym mis Mai eleni daeth ymholiad gan rai o'r criw ifanc ar fbk, oedd yn arfer chwarae yn y timau ieuenctid, os oedd rywun â diddordeb mewn sefydlu tîm dynion yn Neiniolen. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus a daeth dros 30 o bobl yno i leisio eu barn. I dorri stori hir yn fyr, penderfynodd y Pwyllgor, oedd yn hyfforddi timau ieuenctid yn unig ar y pryd, bod modd i ail-sefydlu'r tîm dynion.

Bellach mae tîm bach ond brwdfrydig yn rhedeg y clwb. Mae Dion, Leia a Glesni ynghyd a 6 aelod arall, bellach wedi ffurfio Pwyllgor y Tîm Rheoli. Yn ogystal mae Gareth Edwards hefyd yn hyfforddi tîm o ferched dan 13 oed.

Rhaid i bob tîm llwyddiannus hyfforddi cyn chwarae wrth gwrs. Mae'r pwyllgor yn gadael llonydd i'r hogiau ifanc redeg y sesiynau hyfforddi a sicrhau'r tîm cryfaf posib i bob gem. Hyfforddi pob nos Fawrth rhwng 8 a 9 yng Nghaernarfon i arbed traul ar y cae. Tîm ifanc o ddynion ymroddedig sy'n arwain y sesiynau yma ac yn gwneud penderfyniadau o ran pwy fydd yn chwarae'r dydd Sadwrn canlynol. Steffan Jones sy'n arwain y Tîm Rheoli (fel cyn-chwaraewr i dîm ieuenctid Deiniolen ac i dimau lleol eraill) , ond bellach wedi rhoi gorau iddi oherwydd anaf). Mae Luke Pleming, Rhydian Williams ac Aidan Roberts yn ei gefnogi fo a'r chwaraewyr ac yn mynychu'r sesiynau hyfforddi. Mae'r criw ifanc yma'n dysgu wrth hyfforddi eraill a dysgu sut i wneud penderfyniadau anodd ar adegau ynglŷn â phwy sydd yn y tîm pob wythnos. Mae oddeutu 60 i 70% o'r chwaraewyr yn dod o Ddeiniolen! Ymaelododd tua 27 hogyn i'r tîm gydag un, sy'n cael ei ben-blwydd yn 16 ym mis Tachwedd yn disgwyl yn eiddgar i ymuno efo'r hogiau. Mae'r ystod oedran o chwaraewyr yn mynd o 16 - 30+.

Yr ieuenctid yw'n dyfodol, felly mae gobaith am ddyfodol disglair ar hyn o bryd yn Neiniolen.

Wrth gwrs nid y Pwyllgor yn unig oedd yn gyfrifol am ail-ddechrau'r tîm dynion. Mae noddwyr lleol amrywiol wedi cyfrannu at y broses o sefydlu'r tîm. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i W.Owen, Adeiladwyr am noddi'r *kit* adref; i Garage G&H Commercials am noddi'r *kit* chwarae oddi cartref; i M Jones Plasterers am noddi'r topiau hyfforddi; T.W. Williams and Son Ltd (plymio a gwres canolog) a CL Jones am noddi'r topiau hanner *zip* mae'r chwaraewyr yn eu gwisgo dros y crys cyn gemau; CL Jones (Cangen Caernarfon) am gyfrannu pren er mwyn creu '*dug out'* ar ochr y cae yn ogystal â Garej Arfon am noddi'r cotiau gaeaf i'r eilyddion; Saer Coed (Gwion James & Daniel Jones) a Rheilffordd yr Wyddfa am noddi crysau polo ac Iwan Owen o M&I Man and Van am noddi cotiau gaeaf i'r hyfforddwyr. Mae tafarn y Wellington yn Neiniolen, hefyd wedi cyfrannu'n hael at kit a chostau hyfforddi i'r tîm mewn lleoliad dros yr haf. Enghraifft dda o gymuned glos Deiniolen yn edrych ar ôl yr hogia.

Ar ddiwedd y flwyddyn diwethaf bu trafodaethau rhwng perchnogion yr ystafelloedd newid ar y cae (Byw'n Iawn) a'r Clwb. Buont yn llwyddiannus, a sicrhawyd trwydded tymor byr am y lleoliad. Gyda'r trosglwyddiad i ddwylo'r clwb a'r llwyddiant yn sefydlu'r tîm dynion, mae modd bellach i symud ymlaen gyda cynlluniau i uwchraddio'r lleoliad yn y dyfodol agos.

Maent yn chwarae yn Haen 5 o Gynghrair Gorllewin Arfordir Gogledd Cymru, sydd o dan adain Cymdeithas Pêl-droed Arfordir Cymru. Daw'r timau o naill ai Wynedd neu Môn, a'r tim felly'n teithio cyn belled â Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd neu Amlwch neu Chaergybi ym Môn. Hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hyn mae'r Pwyllgor yn gobeithio y cawn nhw ddyrchafiad i Haen 4 yn y tymor neu ddau nesaf, er bydd yn rhaid iddynt fod yn un o'r ddau uchaf i wireddu'r freuddwyd honno.

Ar hyn o bryd maent yn 6ed yn y tabl, gyda'r gem nesaf gartref i Llanfairpwll FC ar 26ain o Hydref am 2:30yp.

***Diolch i Dion Jones am ei sgwrs a'r manylion am hynt a helynt y tîm.***




ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >